

Iechyd Cyhoeddus Cymru

Gwerthuso Dull System Gyfan ar gyfer Pwysau Iach

Gorffennaf 2025

Tabl Cynnwys

Crynodeb Gweithredol.....	4
Trosolwg.....	4
Ynglŷn â'r WSAHW.....	4
Y broses gyflawni hyd yma	4
Dysgu am weithredu.....	5
Rôl a phrofiadau rhanddeiliaid allweddol	5
Gwersi allweddol a'r camau nesaf	6
1 Cyflwyniad.....	8
1.1 Trosolwg.....	8
1.2 Ynglŷn â'r Dull System Gyfan ar gyfer Pwysau Iach	8
1.3 Ynglŷn â'r broses werthuso.....	13
1.4 Strwythur yr adroddiad.....	15
2 Cyd-destun a gwersi trawsbynciol	16
2.1 Cymorth ar gyfer y WSAHW	16
2.2 Tystio a gwerthuso rhaglenni newid systemau.....	16
2.3 Ystyried dysgu sy'n datblygu.....	16
3 Cyflwyno'r Dull System Gyfan	18
3.1 Prif negeseuon	18
3.2 Trosolwg o'r broses gyflawni.....	19
3.3 Mabwysiadu offer a dulliau system	20
3.4 Cyflwyno'r broses 9 cam a ffactorau dylanwadu	22
3.5 Monitro a dysgu o gyflawni	30
4 Goblygiadau i systemau lleol.....	33
4.1 Prif negeseuon	33
4.2 Cydnabyddiaeth a dealltwriaeth o'r Dull System Gyfan.....	34
4.3 Camau gweithredu'r system, cynlluniau, ac aliniad y system	39
4.4 Cynnydd tuag at aeddfedrwydd y system	44
5 Dysgu a'r camau nesaf	47
5.1 Prif negeseuon	47
5.2 Trosolwg.....	47

5.3	Egluro rôl y rhaglen yn y dirwedd ehangach	48
5.4	Ymgorffori dysgu yn y WSAHW	52
5.5	Argymhellion.....	52
6	Atodiad A: Themâu blaenoriaeth	56
7	Atodiad B: Astudiaethau achos Byrddau Iechyd.....	57
7.1	Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan: Astudiaeth achos	57
7.2	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr: Astudiaeth achos.....	59
7.3	Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro: Astudiaeth achos	60
7.4	Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg: Astudiaeth achos.....	63
7.5	Bwrdd Iechyd Addysgu Powys: Astudiaeth achos.....	64
7.6	Byrddau Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a Hywel Dda: Astudiaeth achos 66	
8	Atodiad C: Rhanddeiliaid yr ymgynghorwyd â nhw	69
9	Atodiad D: Dogfennau a adolygwyd	70

Crynodeb Gweithredol

Trosolwg

Mae'r Rhaglen Dull System Gyfan ar gyfer Pwysau Iach (WSAHW) yn rhaglen uchelgeisiol a blaengar. Mae'n un o'r rhaglenni cyntaf yn y byd i fynd i'r afael â phwysau iach drwy lens systemau drwy ddull a arweinir yn genedlaethol ac a weithredir ar lefel genedlaethol a lleol. Ei chryfder yw ei bod yn symud o ddisgrifiad y theori newid systemau tuag at hwyluso gweithrediad ymarferol mewn saith cyd-destun lleol gwahanol, yn ogystal ag ar y lefel genedlaethol a chenedlaethol-leol.

Mae'r gwerthusiad hwn yn gyfle amserol i archwilio sut y gweithredir y WSAHW, casglu barn rhanddeiliaid amrywiol a chyfuno dysgu wrth i'r broses gyflawni symud ymlaen i'r camau 'gweithredu'. Ni ddylid tanbrisie'r ffaith bod y rhaglen yn symud oddi wrth ffyrdd blaenorol o weithio ar gyfer pwysau iach, felly mae'r gwersi a ddysgwyd yn ddefnyddiol ar gyfer y WSAHW ac ymdrechion newid systemau ehangach i hyrwyddo materion cymhleth fel pwysau iach.

Ynglŷn â'r WSAHW

Rhaglen gydweithredol yw'r WSAHW rhwng Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC), Grŵp Arwain Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd a Llywodraeth Cymru. Mae'n rhan o fudiad mwy yng Nghymru sy'n mynd i'r afael â materion cymhleth gan ddefnyddio dulliau newid systemau, gyda chefnogaeth Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol flaengar ac sy'n mynd i'r afael â phroblemau pwysau'r corff y boblogaeth yn unol â strategaeth 10 mlynedd Pwysau Iach: Cymru Iach.

Mae'r rhaglen yn cyfuno ymdrechion newid systemau ar lefel genedlaethol â chymau gweithredu ar lefel leol ym mhob un o saith rhanbarth Byrddau Iechyd Cymru, gan alluogi ymdrechion sy'n seiliedig ar leoedd ac ymdrechion penodol i ranbarth i ddylunio a chyflawni newid systemau. Mae'r WSAHW yn adeiladu ar dystiolaeth ac arferion addawol sy'n datblygu mewn mannau eraill, ond mae'n parhau i fod ar flaen y gad o ran math o raglen cymharol newydd a hynod arloesol.

Mae arweinydd rhanbarthol dynodedig y Dull System Gyfan (WSA) yn sbarduno'r broses gyflawni ym mhob rhanbarth Bwrdd Iechyd, dan arweiniad proses 9 cam sy'n cwmpasu sefydlu ac ymrwymo; diffinio a mapio system; cyd-ddatblygu naratif system; ymgysylltu â'r system; gosod blaenoriaethau a nodau; dadansoddi rhwydwaith; cynllunio gweithredu; trefnu a rheoli gwaith; ac adolygu. Mae arweinwyr cenedlaethol yn ICC yn darparu goruchwyliaeth, cefnogaeth a phroses newid systemau genedlaethol, ac yn cydweithredu â Llywodraeth Cymru.

Y broses gyflawni hyd yma

Yn gyffredinol, mae'n cymryd blynyddoedd lawer i newid systemau, felly ar y cam hwn, mae'r gwerthusiad wedi canolbwyntio'n bennaf ar *broses* y WSAHW, yn hytrach na chanlyniadau.

Mae arweinwyr rhanbarthol y WSA wedi nodi cynnydd sylweddol wrth osod y sylfaen ar gyfer y rhaglen: meithrin cysylltiadau ac 'ymrwymiad' a throi hwn yn ymrwymiad mwy ffurfiol ar ffurf strwythurau a chynlluniau llywodraethu.

Mae pob rhanbarth wedi nodi 'is-systemau' blaenoriaeth fel eu ffocws ar gyfer cyflawni, gyda'r nod o ddychwelyd at is-systemau ychwanegol unwaith y bydd camau gweithredu wedi'u cynllunio, eu cyflawni a'u hadolygu. Mae'r is-systemau blaenoriaeth yn amrywio yn ôl rhanbarth, ond mae blynyddoedd cynnar a mynediad at fwyd iach yn themâu cyffredin.

Mae arweinwyr rhanbarthol y WSA bellach yn pontio i gyflawni ystod o gamau gweithredu a phrofi dulliau sydd wedi deillio i raddau helaeth o'r rhaglen WSAHW. Mae'r camau gweithredu yn amrywio o ran cwmpas, maint a gwelededd, ond mae enghreifftiau'n cynnwys cyfrannu at benderfyniadau cynllunio ynghylch rheoliadau cludfwyd poeth, ac yn dylanwadu ar bolisiâu ynghylch adeiladu arferion bwyd iach mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar neu yn ymwneud ag arlwyio mewn ysbytai lleol.

Mae arweinwyr y WSA bellach yn datblygu cynlluniau gweithredu mwy ffurfiol gydag ymrwymiad gan randdeiliaid ehangach. Mae sicrhau ymrwymiad ar lefel Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) yn faes gweithgarwch allweddol fel y gall eu Cynlluniau Llesiant helpu i roi hwb i fomentwm y WSAHW.

Dysgu am weithredu

Mae gradd, cywiredd a chyflymder cyflawni'r WSAHW yn amrywio ar draws rhanbarthau, wedi'u llywio gan gyd-destunau, hanesion, galluedd, heriau a chyflleoedd lleol. Ar ben hynny, mae sbardunau pwysau iach yn amrywio yn ddaearyddol, yn enwedig ar hyd llinellau rhaniadau trefol/gwledig a lefelau amddifadedd.

Mae arweinwyr y WSA wedi mabwysiadu ystod o strategaethau i ymgysylltu â phartneriaid system ac ymwreiddio'r WSAHW mewn ymarfer lleol. Maent wedi defnyddio offer a awgrymir gan y broses 9 cam a'r canllawiau cysylltiedig ond, mewn rhai achosion, maent wedi cyflwyno technegau eraill, gan weithio'n hyblyg ac yn ymarferol.

Nid yw'r gwaith o gyflwyno'r broses 9 cam yn llinol ac mae'n cynnwys camau gweithredu ailadroddus ac ymatebol, gan adlewyrchu natur addasol newid systemau. Mae rhai arweinwyr rhanbarthol y WSA wedi defnyddio'r broses 9 cam fel 'map trywydd' gyda lle i fod yn hyblyg, rhai fel blwch offer gyda gweithgareddau dewisol, ac eraill fel dull eang. Mae cyfle nawr i fyfyrio ar ganfyddiadau am weithredu i sicrhau mwy o gywiredd model wrth gyflawni ac i ddiwygio canllawiau'r rhaglen lle bo angen i gefnogi hyn.

Rôl a phrofiadau rhanddeiliaid allweddol

Mae arweinwyr y WSA wedi gwneud cyfraniad hanfodol wrth gyflwyno ac ymwreiddio theori ac ymarfer systemau fel y nodir yn y WSAHW. Maent wedi gweithio i feithrin dealltwriaeth ac ymrwymiad ymhlith rhanddeiliaid ehangach

Ileol ac adrodd am fwy o ddealltwriaeth o ddulliau systemau a mwy o ddefnydd o iaith systemau mewn rhai rhanbarthau. Mae sawl strategaeth wedi helpu arweinwyr y WSA i gyflawni hyn, gan gynnwys: alinio ag agendâu ehangach partneriaid; darparu 'atebion sydyn' i adeiladu ymddiriedaeth a chynnal momentwm; tynnu ar ddata, tystiolaeth a mewnbwn cymunedol; a gweithio gyda rhanddeiliaid strategol allweddol sy'n 'hyrwyddo' y gwaith.

Mae llawer o ranbarthau wedi adrodd cynnydd cadarnhaol wrth sicrhau ymrwymiad gan rhanddeiliaid allweddol. Fodd bynnag, mae hyn yn parhau i fod yn heriol mewn rhai rhanbarthau a chyda rhai rhanddeiliaid perthnasol. Wrth i arweinwyr y WSA symud i gynllunio gweithredu a chyflawni, mae ymrwymiad ehangach wedi dod yn fwyfwy pwysig er mwyn osgoi'r risg o gyfyngu ar berchnogaeth ar y cyd a chyflawni'r rhaglen. Mae heriau'n bodoli lle mae ysgogiadau cyfyngedig ar gael i sicrhau ymrwymiad strategol ac ar lefel uwch; blaenoriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd a chapasiti partneriaid ehangach; a'u dealltwriaeth a'u disgwyliadau gwahanol o waith newid systemau.

Serch hynny, roedd arweinwyr y WSA a rhanddeiliaid lleol sy'n rhan o'r gwaith¹ yn frwdfrydig am y WSAHW ac yn awyddus i ddathlu a chryfhau'r gwaith arloesol hwn. Cafwyd cefnogaeth sylweddol i nodau'r rhaglen, egwyddorion sylfaenol, cysylltiadau â llywodraethu cenedlaethol a'r mandad i drafod a mynd i'r afael ag anawsterau yn y 'system' a sut maent yn effeithio ar bwysau iach.

Mae mynd i'r afael â phwysau nad yw'n iach ar lefel poblogaeth yn heriol a chymhleth, yn enwedig o ystyried y blaenoriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd a chyfrifoldebau o ddydd i ddydd rhanddeiliaid ehangach. Cafodd y newid o ffyrdd mwy traddodiadol o weithio i gymhwyso egwyddorion newid systemau ei groesawu a'i gefnogi gan y rhai a oedd yn rhan o'r gwaith, a oedd yn cydnabod nad yw hon yn broses syml.

Gwersi allweddol a'r camau nesaf

Cafodd ystod o wersi a myfyrdodau eu rhannu gan yr holl rhanddeiliaid yr ymgynghorwyd â nhw fel rhan o'r gwerthusiad a'u cydgrynhoi drwy weithdai profi synnwyr. Roedd cydnabyddiaeth o'r tensiynau cynhenid wrth gyflawni'r broses newid systemau mewn rhaglen fel y WSAHW, rhwng:

- Camau gweithredu tymor byr a newid cynaliadwy, ystyrlon
- Dylanwadu ar bolisi cenedlaethol a chynnal mentrau lleol wedi'u targedu
- Dilyn proses genedlaethol a chaniatáu hyblygrwydd lleol
- Gwahanol ffyrdd o fesur cyflawniad 'llwyddiannus'

¹ Gweler y diffiniad yn Adran 1.3.

- Aros yn driw i fodel newid systemau penodol o gymharu â bod yn hyblyg ac yn addasadwy yn ymarferol.

Ymhellach i'r ddynmeg hon, nid yw egwyddorion trefnu'r systemau pwysau iach yn y rhanbarthau Byrddau Iechyd yn cyd-fynd yn llawn ag egwyddorion y WSA h.y. y llwybr aflinol i lwyddiant a'r amserlenni hir sydd eu hangen i gyflawni a dangos effaith. Yn ymarferol, mae hyn yn darparu gwersi a fydd yn werthfawr nid yn unig i'r WSAHW ond hefyd i ymdrechion tebyg mewn mannau eraill ar agweddau megis canllawiau ar gyflawni, brandio, sicrhau cydgysylltiad cenedlaethol-ranbarthol, monitro a rôl theori systemau ehangach.

Gellir dadlau bod yr heriau sy'n wynebu'r WSAHW yng Nghymru yn rhai disgwyledig mewn rhaglen pwysau iach sy'n arloesol yn rhyngwladol ac a ddyluniwyd i newid systemau, yn enwedig oherwydd nad yw'r llwybr – yn ôl dull systemau – wedi'i bennu ymlaen llaw nac yn amlwg. Er mwyn llywio'r daith hon, mae'r WSAHW yn cael ei gefnogi gan benderfynoldeb a rennir gan arweinwyr rhanbarthol a chenedlaethol, a bydd meithrin ac ymwreiddio gwelliant parhaus drwy ddysgu a datblygu parhaus yn parhau'n bwysig. Yr her fwyaf yw i Gymru barhau i fod yn gadarn yn ei hymrwymiad i'r rhaglen waith hon ynghanol natur ansicr, hirdymor newid systemau.

1 Cyflwyniad

1.1 Trosolwg

Mae'r Rhaglen Dull System Gyfan ar gyfer Pwysau Iach (WSAHW) yn rhaglen uchelgeisiol a blaengar, sy'n unigryw wrth fynd i'r afael â phwysau iach drwy lens systemau drwy ddull a arweinir yn genedlaethol ac a weithredir ar lefel genedlaethol a Bwrdd Iechyd.

Ei chryfder yw ei bod yn symud o ddisgrifio'r theori newid systemau tuag at hwyluso gweithrediad ymarferol mewn saith cyd-destun lleol gwahanol, yn ogystal ag ar y lefel genedlaethol a chenedlaethol-leol. Ychydig o raglenni tebyg, os o gwbl, sydd yng ngweddill y byd.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi comisiynu Cordis Bright i gynnal gwerthusiad annibynnol o'r rhaglen WSAHW i archwilio'r cynnydd hyd yma a chefnogi dysgu a gweithredu parhaus. O ystyried cam y rhaglen a natur hirdymor newid systemau, mae'r gwerthusiad yn canolbwyntio'n bennaf ar broses.

1.2 Ynglŷn â'r Dull System Gyfan ar gyfer Pwysau Iach

1.2.1 Nodau a dull gweithredu'r rhaglen

Mae'r WSAHW yn rhaglen gydweithredol rhwng Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC), Grŵp Arwain Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd a Llywodraeth Cymru. I ddechrau, dyfarnodd Llywodraeth Cymru gyllid grant o £1.2m am gyfnod o flwyddyn rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022. Mae'r cyllid grant hwnnw wedi cael ei ailadrodd flwyddyn ar ôl blwyddyn a disgwylir iddo barhau, i gefnogi'r strategaeth 10 mlynedd [Pwysau Iach: Cymru Iach](#), a gyhoeddwyd yn 2019.

Dyluniwyd y rhaglen mewn ymateb i gyffredinrwydd cynyddol gorbwysau a gordewdra yng Nghymru oherwydd eu heffaith niweidiol ar ystod o ganlyniadau iechyd, a'u cysylltiad â mathau o anfantais lluosog.²

Mae'r rhaglen yn galluogi cyflwyno dull cenedlaethol, sy'n seiliedig ar system ar gyfer pwysau iach. Mae Dulliau System Gyfan (WSA) wedi'u diffinio fel:

“Those that consider the multi-factorial drivers of overweight and obesity, involve transformative co-ordinated action across a broad range of disciplines and stakeholders, operating across all levels of governance and throughout the life course.”³

² Mae'r wybodaeth yn yr adran hon yn deillio o'r [canllaw trosolwg o'r Dull System Gyfan ar gyfer Pwysau Iach](#) a Pwysau Iach: Cymru Iach: Dull System Gyfan.

³ Bagnall A, Radley D, Jones R, Gately P, Nobles J, Van Dijk M, Blackshaw J, Montel S a Sahota P (2019), Whole systems approaches to obesity and other complex public health challenges: a systematic review. BMC Public Health, 19:8

Mae'r WSAHW yn gweithio ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol i dargedu camau gweithredu lle gallant wneud y gwahaniaeth mwyaf gan ddefnyddio ysgogiadau ar gyfer newid ar bob lefel. Bwriedir iddi ddefnyddio dull sy'n:

- Hirdymor
- Cydnabod cymhlethdod
- Gweithio gydag ystod o randdeiliaid, gan gynnwys cymunedau lleol, i ddeall yn well y system a'r cyfleoedd ar gyfer newid
- Datgelu'n benodol y strwythurau a'r nodau o fewn system.

Diffinio 'y system'

Nid oes un system dan sylw ar gyfer y gwaith hwn; yn hytrach, gellir diffinio systemau fel rhai ranbarthol neu leol, neu rai sy'n seiliedig ar sector (e.e. y system fwyd). Mae gwaith mapio systemau sy'n cynnwys diffinio a rhwymo'r system yn rhan bwysig o'r gwaith hwn.

Mae'r WSAHW wedi'i seilio ar gydnabyddiaeth bod cymhlethdod y broblem yn golygu nad oes atebion syml ac na all un asiantaeth na sefydliad ei datrys ar ei ben ei hun. Yn ogystal, mae cydnabyddiaeth gynyddol bod cysylltiadau cymhleth rhwng gwahanol agweddau mewn system sy'n addasu ac yn newid drwy'r amser.

Mae prif nodau'r rhaglen yn ymwneud ag archwilio sut mae'r systemau sy'n effeithio ar bwysau'r corff yn gweithredu i gyflawni canlyniadau cyffredinol y strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach h.y. cynyddu cyfran y boblogaeth sydd â phwysau iach a lleihau anghydraddoldebau mewn pwysau iach rhwng gwahanol grwpiau poblogaeth. Mae nodau'r WSAHW fel a ganlyn:

- Bydd mwy o elfennau'r system yn cymryd rhan weithredol yn y broses o gyflawni nodau'r system.
- Bydd sefydliadau a grwpiau yn alinio eu gweithgareddau craidd i gefnogi cyflawni nodau'r system.
- Bydd ymwybyddiaeth, cysylltiadau a llifoedd system yn cynyddu fel bod gwell dealltwriaeth o'r cysylltiadau a'r llifoedd rhwng gwahanol elfennau a chyfraniad craidd pob sefydliad.
- Bydd y system yn gweithio'n fwyfwy cydlynol a bydd cyd-ddealltwriaeth o sut mae newid yn cael ei gyflawni a sut y gellid ei gyflawni.

1.2.2 Cysylltiad ag ymdrechion newid systemau a dulliau arloesol ehangach

Mae'r rhaglen WSAHW wedi'i llywio a'i hategu gan strategaethau cenedlaethol, blaengar ynghylch newid system ynghylch pwysau iach ym mhoblogaeth Cymru:

- Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru ystyried effaith hirdymor eu penderfyniadau, gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd, ac atal problemau parhaus fel tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid hinsawdd.⁴ Mae hyn yn gosod y cefndir ar gyfer strwythurau, gweithwyr proffesiynol a chymunedau sy'n dod at ei gilydd fwyfwy o ran iaith, meddylfryd a dulliau systemau.
- Lanswyd Strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach 2019 i atal a lleihau cyffredinrwydd gordewdra yng Nghymru. Mae gan y strategaeth hirdymor hon ffocws craidd sy'n galluogi newid drwy ddull seiliedig ar systemau sy'n canolbwyntio ar arweinyddiaeth, cydweithredu a chyfranogiad, ac yn galluogi camau gweithredu lleol.

Mae dulliau arloesol eraill sy'n seiliedig ar systemau a lleoedd ar waith ledled Cymru, gan weithio ochr yn ochr â'r WSA. Un enghraifft allweddol yw'r rhaglen Llunio Lleoedd ar gyfer Llesiant yng Nghymru, sy'n gweithio i fynd i'r afael â phenderfynyddion iechyd ehangach: y ffactorau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd sy'n effeithio ar iechyd a llesiant.

1.2.3 Model y rhaglen

Llywodraethu a ffyrdd o weithio

Yn genedlaethol, mae'r WSAHW yn cael ei arwain gan y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant a'r Prif Swyddog Meddygol. Mae tîm cenedlaethol o fewn Iechyd Cyhoeddus Cymru ('arweinwyr cenedlaethol y WSA' o hyn ymlaen) yn darparu goruchwyliaeth a chefnogaeth sy'n cynnwys:

- Rhannu cyngor, arweiniad a thystiolaeth o 'beth sy'n gweithio' yn uniongyrchol a thrwy rywfaint o gymorth allanol, megis trwy sesiynau ymarfer myfyriol, a sesiynau hyfforddi a datblygu rheolaidd.
- Cefnogi'r broses o rannu dysgu ar draws meysydd.
- Cyflwyno rhaglen gyfathrebu a newid ymddygiad genedlaethol gyda'r bwriad o weithio i'r un cyfeiriad â'r gwaith ar lefel ranbarthol.
- Casglu, adolygu a thrafod yn ôl yr angen ffurflenni monitro chwarterol i ddeall dulliau gweithredu a chynnydd.

Penodwyd arweinwyr Pwysau Iach rhanbarthol y WSA gan bump o'r saith rhanbarth Bwrdd Iechyd yng Nghymru; cytunodd Bae Abertawe a Hywel Dda ar ddull rhanbarthol gydag arweinydd ar y cyd. Yn ogystal, mae Cyfarwyddwyr

⁴ [Llywodraeth Cymru \(2015\). Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.](#)

Iechyd y Cyhoedd yn darparu arweinyddiaeth iechyd y cyhoedd yn eu rhanbarth, gan ddefnyddio eu cysylltiadau a'u partneriaethau lleol i gefnogi newid.

Mae fframwaith cyffredin y WSAHW wedi'i fabwysiadu gan bob un o arweinwyr rhanbarthol y WSA, ond bwriedir iddo bennu blaenoriaethau yn seiliedig ar ddull cydgynhyrchu sydd wedi'i deilwra i bob system ranbarthol. Yn ymarferol ar lawr gwlad, mae hyn yn golygu bod rhanddeiliaid yn gweithio gyda'i gilydd i gytuno ar eu blaenoriaethau ar gyfer newid a gweledigaeth a dull cyffredin sy'n dangos sut y gall pob partner gyfrannu.

Fel rhan o'r dull gweithredu, i greu 'system ddysgu', disgwylir i arweinwyr y WSA gasglu gwybodaeth i ddeall a yw camau gweithredu yn cael yr effaith a fwriadwyd, ac i sicrhau bod adborth rheolaidd ac amserol.

Adnoddau a dulliau gweithredu allweddol

Er bod disgwyl i bob ardal ddatblygu dull wedi'i deilwra a gweithio ochr yn ochr â mentrau lleol eraill, maent i gyd yn cael eu harwain gan y broses 9 cam ar gyfer y Dull System Gyfan yng Nghymru, fel a ganlyn:

Ffigur 1: Trosolwg o'r broses 9 cam



Bwriad y broses 9 cam yw gosod y sylfaen ar gyfer dull systemau: ymgysylltu â phartneriaid allweddol, gan rwymo a deall y system, datblygu nodau cyffredin, ymgysylltu â phartneriaid ehangach yn ôl yr angen, cyflawni ymdrechion newid ac adolygu ac addasu'n barhaus. Fe'i datblygwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan dynnu ar lenyddiaeth ryngwladol a dulliau mewn rhannau eraill o'r DU, yn enwedig y Dull System Gyfan ar gyfer Gordewdra, sy'n cynnwys chwe cham, a ddatblygwyd gan Public Health England a Phrifysgol Leeds Beckett yn 2019.

Er yr ymddengys fod fframio'r broses 9 cam yn awgrymu proses ddilyniannol, yn ymarferol mae arweinwyr y WSA wedi cael eu hannog i'w defnyddio yn y drefn fwyaf addas i'w rhanbarth, o ystyried y bydd rhai camau'n cymryd mwy o amser

nag eraill, y bydd angen ailadrodd rhai ohonynt neu y bydd heriau gwahanol yn codi. Mae'r canllawiau'n nodi bod y camau fel a ganlyn:

- **Cylchol** – mynd drwy'r camau o 5-9 yn gylchol wrth i flaenoriaethau newydd gael eu nodi a'u cyflawni.

“Ar ôl i'r gwaith cychwynnol ar lefel is-systemau gael ei ymgorffori, bydd angen i'r system gyffredinol ddod at ei gilydd i gytuno ar y flaenoriaeth nesaf a chytuno ar ddull cynnal a chadw ar gyfer y flaenoriaeth wreiddiol fel nad yw momentwm yn cael ei golli. Yna bydd y broses yn ailadrodd, gan ganolbwyntio ar y system flaenoriaethol nesaf y cytunwyd arni.”

Canllaw Trosolwg DSG, t14

- **Aflinol**, gyda'r disgwyliad y bydd rhaid i arweinwyr rhanbarthol y WSA ailymweld â chamau o bryd i'w gilydd. Er enghraifft, yng Nghamau 1 a 2, mae'n debygol y bydd angen i randdeiliaid ddiweddarau mapiau system a dal ati i ennyn diddordeb rhanddeiliaid perthnasol (neu ennyn diddordeb rhanddeiliaid perthnasol newydd).

“Bydd angen edrych eto ar bob cam o'r Dull Systemau Cyfan, ac ni fydd y broses hon yn un llinol. Nid yw mapio'r system, na'r angen i sicrhau 'prynu i mewn' gan randdeiliaid, yn rhywbeth sy'n cael ei wneud unwaith. Yn hytrach, mae angen ailadrodd y ddau gam hyn wrth i randdeiliaid newydd gael eu nodi, ac wrth i ragor o wybodaeth ddod i law.”

Canllaw Trosolwg DSG, t8

Drwy'r dull hwn, disgwylir i'r rhanddeiliaid allweddol y system ym mhob rhanbarth Bwrdd Iechyd ganolbwyntio ar un neu ddau faes blaenoriaeth a nodi'r is-systemau y gallant eu defnyddio i effeithio ar y rhain, fel bod y gwaith wedi'i rwymo, â ffocws a bod modd ei gyflawni, yn hytrach na'i fod yn ceisio newid eu system ranbarthol gyfan ar unwaith. Dros amser, mae'n bosibl y byddant yn ychwanegu mwy o is-systemau blaenoriaeth, gan adeiladu ar ddysgu a llwyddiant. Dylai hyn ddigwydd drwy ddull cydweithredol i nodi'r rhan fwyaf priodol o'r system i ganolbwyntio arni o ystyried y cyd-destun lleol a'r rhanddeiliaid dan sylw.

Yn ystod cyfnod cyflawni'r rhaglen, mae ICC wedi cynhyrchu canllawiau ar bob un o'r camau, sy'n cynnwys cyngor ar ddilyn y broses a chyfeirio at adnoddau ar gyflawni newid systemau.

Cynnydd meincnodi

Datblygwyd Matrics Aeddfedrwydd System gyda mewnbwn gan arweinwyr y WSA ar ôl i'r rhaglen ddechrau. Mae'n helpu i ddisgrifio'r elfennau o'r system mae'r rhaglen yn anelu at ddylanwadu arnynt ac yn darparu fframwaith ar gyfer deall ac adrodd ar sut mae'r broses o newid systemau yn mynd rhagddi.

Mae'n offeryn goddrychol, sy'n defnyddio graddfeydd yn hytrach nag asesiadau ydy/nac ydy, gan alluogi mesuriad penodol o newid systemau a chefnogi hunan-fyfyrto. Mae hyn yn golygu bod modd ystyried amrywiadau rhanbarthol o ran dull, a gwahanol bwyntiau cychwyn. Fel y gwelir yn Ffigur 2, mae'r Matrics yn adlewyrchu elfennau allweddol gwaith systemau y mae'r rhaglen yn ceisio eu hymwreiddio, wedi'u llywio gan adolygiad o lenyddiaeth ar yr hyn mae dull systemau da yn ei olygu.

Ffigur 2: Trosolwg o Fatrics Aeddfedrwydd System

Arweinyddiaeth gref Strong leadership	Iaith gyson Consistent language	Dealltwriaeth o'r cyd-destun lleol Understanding of local context	Ymgysylltiad Ystyrlon Meaningful Engagement
Strwythurau Llywodraethu cadarn Robust Governance structures	Cydnabod bod canlyniadau yn cael eu dylanwadu gan y system Recognition that outcomes are influenced by the system	Dysgu a Myfyrto ac adborth Learning and Reflection and feedback	Mentrau wedi'u gwreiddio Initiatives embedded

Mae pob un o'r wyth elfen uchod yn cynnwys tri i bedwar is-ddangosydd, ochr yn ochr â diffiniadau o sut y byddai system yn edrych pan fydd y dangosydd hwnnw'n "ffynnu", "aeddfedu", "datblygu", "yn dod i'r amlwg", neu "ddim yn datblygu eto". I ddefnyddio'r offeryn, mae pob arweinydd rhanbarthol y WSA yn dewis y lefel hunanasesu fwyaf addas ar gyfer pob dangosydd ac yn ystyried tystiolaeth ategol. Defnyddiwyd yr offeryn hwn i ddarparu adlewyrchiad o gynnydd fel rhan o'r gwaith monitro diwedd blwyddyn ar gyfer 2023-24, a'i nod oedd rhoi cyfle i arweinwyr fyfyrto ar sut a ble roedd y gwaith yn mynd rhagddo a ble nad oedd yn gwneud cynnydd.

1.3 Ynglŷn â'r broses werthuso

Mae rhaglen y WSAHW wedi bod yn gweithredu ers dros dair blynedd, felly mae'r gwerthusiad hwn yn darparu dysgu wrth iddo bontio o gyfnod peilot i gam gweithredu cyfunol. Mae dysgu o'r fath yn debygol o fod yn hynod werthfawr ar gyfer rhaglen mor arloesol ac uchelgeisiol. Roedd y gwerthusiad yn ceisio deall sut mae'r WSAHW wedi cael ei ddefnyddio a sut y mae wedi effeithio ar y broses newid system. Archwiliodd yr ymchwil y canlynol:

1. Mabwysiadu a defnyddio dulliau, prosesau ac offer y Dull System Gyfan

- a. I ba raddau mae'r rhaglen wedi neu heb ei gweithredu gan ddefnyddio proses 9 cam y WSA, a pha ffactorau sydd wedi effeithio ar hyn?

2. Cydnabyddiaeth, dealltwriaeth ac ymgysylltiad partneriaid system â phroses y WSA


- a. I ba raddau mae offer system a'r dull yn cael eu defnyddio a'u gweithredu.
b. Tystiolaeth o brosesau cydweithredol i gytuno ar is-system flaenoriaeth a chynlluniau gweithredu.
c. Maint yr ymgysylltiad â gwaith y WSA, ei ddylanwad a'r gydnabyddiaeth ohono.

3. Newid system a newid sy'n deillio o'r rhaglen

- a. Tystiolaeth o gamau gweithredu a chynlluniau'r system, ac aliniad y system.
b. Tystiolaeth o gamau gweithredu a chanlyniadau anfwriadol sy'n deillio o gamau gweithredu'r system.

Cynhaliwyd y gwerthusiad mewn modd ailadroddus, gan weithio'n agos gyda rhanddeiliaid cenedlaethol a lleol i ddatblygu, profi synnwyr a chryfhau naratif cyfraniad o effaith y WSAHW. Buom yn siarad ag amrywiaeth o randdeiliaid gyda gwahanol safbwyntiau ar y gwaith, yn amrywio o randdeiliaid lleol i genedlaethol ac o rolau mwy gweithredol i rolau strategol uwch.

Mae hyn wedi rhoi darlun crwn i ni o'r ystod o waith sydd wedi'i wneud, sut y mae'n amrywio ar draws rhanbarthau Byrddau Iechyd a gwahaniaethau mewn effaith. Yn yr adroddiad, rydym wedi categorïddio rhanddeiliaid fel a ganlyn:



Roedd y gwerthusiad yn cynnwys y dulliau canlynol (manylion pellach yn yr Atodiadau):

Ffigur 3: Trosolwg o ddulliau gwerthuso



1.4 Strwythur yr adroddiad

Mae **Adran 2** isod yn amlinellu **cyd-destun allweddol am y rhaglen** a'i chynnydd tuag at newid systemau sy'n gosod y cyd-destun ar gyfer yr adrannau canlynol.

Mae **Adrannau 3 a 4** yn mynd i'r afael â **chwestiynau ymchwil y gwerthusiad**, gan ddarparu mwy o fanylion am y broses, camau gweithredu ac effeithiau sy'n dod i'r amlwg, tra bod **Adran 5** yn dwyn ynghyd **ddyysgu allweddol ar gyfer y camau nesaf** ac yn amlinellu argymhellion.

Mae **Atodiadau A a B** yn darparu mwy o **fanylion ar lefel rhanbarth ar gyflawniad hyd yma**, gan gynnwys themâu blaenoriaeth rhanbarthau Byrddau Iechyd, ac astudiaeth achos ar gyfer pob rhanbarth i ddangos cyflawniad y rhaglen yn ymarferol. Mae **Atodiadau C a D** yn darparu mwy o fanylion methodolegol ar y rhanddeiliaid yr ymgynghorwyd â nhw a'r dogfennau a adolygwyd fel rhan o'r gwerthusiad.

2 Cyd-destun a gwersi trawsbynciol

Mae'r gwerthusiad hwn o'r rhaglenni WSAHW wedi rhoi cyfle amserol i fyfrio ar eu cynnydd, gan amlinellu rhai meysydd posibl ar gyfer datblygu a thynnu sylw at gyfleoedd allweddol.

2.1 Cymorth ar gyfer y WSAHW

Roedd yr holl randdeiliaid yr ymgynghorwyd â nhw yn frwdfrydig am y cyfle i fyfrio, dathlu a chryfhau'r darn o waith uchelgeisiol ac arloesol hwn. Cafwyd cefnogaeth sylweddol hefyd i'r cysylltiadau rhwng rhanbarthau a lefelau llywodraethu Cymru y mae'r rhaglen yn eu cynrychioli.

Ni ddylid tanbrizio'r ffaith bod y rhaglen yn symud oddi wrth ffyrdd blaenorol o weithio ar gyfer pwysau iach, felly mae'r gwersi a ddysgwyd yn ddefnyddiol ar gyfer y WSAHW ac ymdrechion newid systemau ehangach i hyrwyddo pwysau iach.

“Rwy'n teimlo ei fod yn arbrawf mawr a'n bod ni'n cyfrannu at y dull arbrol hwnnw. Mae gennym ni rai pethau a oedd yn ein helpu a'n tywys ni o'r dechrau, fel 9 cam, ond ar y cyfan, rydyn ni i gyd yn canfod ein ffordd mewn cyd-destunau ychydig yn wahanol.”

2.2 Tystio a gwerthuso rhaglenni newid systemau

Mae'r WSA wedi'i seilio ar y cysyniad o 'feddwl trwy systemau' ac yn gweithredu mewn 'systemau cymhleth'. Er gwaethaf llawer o werthfawrogiad o'r ffordd hon o weithio, mae'n dal i fod yn gymharol newydd ac yn heriol i'w gweithredu, wedi'i gwaethgu gan safbwyntiau gwahanol ar yr hyn sy'n gyfystyr â dull systemau, a'r ffaith nad yw egwyddorion trefnu'r systemau pwysau iach yn y rhanbarthau Byrddau Iechyd yn cyd-fynd yn llawn ag egwyddorion WSA ar hyn o bryd.

Fodd bynnag, mae'r WSAHW yn nodi ei broses 9 cam unigryw ar gyfer y rhai sydd â'r dasg o'i roi ar waith ledled Cymru, a thrwy hynny ddarparu fframwaith clir ar gyfer gweithredu ac, wedi hynny, ar gyfer gwerthuso.

Mae'n dal i fod yn heriol gwerthuso rhaglen o'r fath, yn enwedig ar draws cyd-destunau rhanbarthol amrywiol ac oherwydd y gall newid systemau gymryd blynyddoedd lawer i'w gyflawni, sy'n golygu bod cyfyngiadau i werthuso canlyniadau ar hyn o bryd. Fodd bynnag, bu trafodaethau cyfoethog gwerthfawr ar weithredu'r WSAHW yn y camau cynnar ac, yn ysbryd dull systemau ailadroddus, mae'r gwerthusiad hwn wedi darparu cyfle i ddysgu y gellid ei ymgorffori yn y camau nesaf.

2.3 Ystyried dysgu sy'n datblygu

Er eu bod yn cydnabod cyflawniadau'r rhaglen hyd yma, roedd y rhanddeiliaid yr ymgynghorwyd â nhw yn cydnabod bod rhai tensiynau cynhenid mewn

ymdrechion newid systemau, ac roeddent yn awyddus i'r gwerthusiad a'r dysgu parhaus gydnabod ac archwilio sut mae'r rhain yn mynd rhagddynt yn ymarferol i'r WSAHW a pha heriau a chyfleoedd a ddaw yn eu sgil.

Mae rhai o'r tensiynau hyn rhwng:

- Camau gweithredu tymor byr a newid cynaliadwy, ystyrlon
- Dylanwadu ar bolisi cenedlaethol a chynnal mentrau lleol wedi'u targedu
- Dilyn proses genedlaethol a chaniatáu hyblygrwydd lleol
- Gwahanol ffyrdd o fesur cyflawniad 'llwyddiannus'
- Aros yn driw i fodel newid systemau penodol o gymharu â bod yn hyblyg ac yn addasadwy yn ymarferol.

Gellir gweld hyn yn rhai o'r gwersi allweddol o'r rhaglen hyd yma a drafodir yn Adran 5, sy'n ymwneud â gwerth, cwmpas a hunaniaeth y rhaglen; rôl theori systemau; a rôl myfyrio ac addasu.

3 Cyflwyno'r Dull System Gyfan

Mae'r bennod hon yn mynd i'r afael â'r cwestiynau ymchwil canlynol

Mabwysiadu a defnyddio dulliau, prosesau ac offer y Dull System Gyfan:

I ba raddau mae'r rhaglen wedi'i gweithredu gan ddefnyddio proses 9 cam y WSA neu beidio, a pha ffactorau sydd wedi effeithio ar hyn?

Cydnabyddiaeth, dealltwriaeth ac ymgysylltiad partneriaid system â phroses y WSA:

I ba raddau mae offer system a'r dull yn cael eu defnyddio a'u gweithredu?

A oes tystiolaeth o brosesau cydweithredol i gytuno ar is-systemau blaenoriaeth a chynlluniau gweithredu?

Mae'r astudiaethau achos (yn yr atodiadau) hefyd yn darparu tystiolaeth a dadansoddiad mewn ymateb i'r cwestiynau ymchwil hyn.

3.1 Prif negeseuon

- Mae'r WSAHW yn cael ei gyflwyno ym mhob rhanbarth Bwrdd Iechyd, dan arweiniad arweinwyr rhanbarthol y WSA. Nid yw'r broses yn llinol nac yn hawdd ei rhagfynegi, gan fod hanesion, cysylltiadau, cryfderau, cyfleoedd a gwybodaeth leol i gyd yn dylanwadu ar natur y cyflawniad a maint y cynnydd.
- Mae wedi bod yn bwysig treulio amser yn gosod y seiliau a chael hyn yn iawn: adeiladu cydnabyddiaeth, dealltwriaeth ac ymrwymiad i'r WSA ymhlith rhanddeiliaid ehangach y system, ac yna galluogi strwythurau, cynlluniau a chamau gweithredu llywodraethu effeithiol ac addas i'r diben.
- Mae'r broses hon wedi gofyn am hyblygrwydd, creadigrwydd ac ymatebolrwydd. Wrth wneud y gwaith hwn, mae rhanbarthau Byrddau Iechyd wedi defnyddio ystod o offer, dulliau a theoriâu systemau, rhai ohonynt wedi'u tynnu o ganllawiau'r rhaglen WSAHW ac eraill o brofiadau ehangach a gwaith blaenorol. Yn yr un modd, mae cydymffurfiaeth â'r broses 9 cam wedi amrywio, ar hyd sbectrwm, yn dibynnu ar y rhanbarth Bwrdd Iechyd ac ar gam y broses.
- Wrth fyfyrio ar y broses, rhannodd rhanddeiliaid yr ymgynghorwyd â nhw ystod o ddysgu defnyddiol am y broses o roi theori newid systemau ar waith. Bydd hyn yn ddefnyddiol ar gyfer parhau i esblygu'r rhaglen WSAHW o ran ei chanllawiau a'i gwaith monitro. Gall hefyd fod o fudd i ymdrechion newid systemau tebyg mewn mannau eraill o ystyried cwrmpas newydd ac uchelgeisiol y rhaglen hon yn ei ffocws cenedlaethol a'i chyflwyniad rhanbarthol.

3.2 Trosolwg o'r broses gyflawni

Mae pob rhanbarth Bwrdd Iechyd yng Nghymru bellach yn cyflawni'r WSAHW. Mae'r rhan fwyaf o ranbarthau wedi mynd drwy gamau cychwynnol y broses 9 cam o leiaf, gan ymwreiddio elfennau o'r Dull System Gyfan yn eu gwaith i fynd i'r afael â gordewdra.

Ar y cam hwn yn y rhaglen, mae arweinwyr rhanbarthol y WSA wedi treulio amser yn gosod y sylfaen – adeiladu cysylltiadau ac 'ymrwymiad' a throi hyn yn ymrwymiad mwy ffurfiol ar ffurf strwythurau a chynlluniau llywodraethu. Maent bellach yn pontio i weithredu, profi dulliau a datblygu cynlluniau gweithredu mwy ffurfiol.

Fodd bynnag, mae graddfa, cywiredd a chyflymder y cyflawniad yn amrywio ar draws rhanbarthau, wedi'u llywio gan gyd-destunau, hanesion, galluedd, heriau a chyfleoedd lleol. Ar ben hynny, mae sbardunau pwysau iach yn amrywio yn ddaearyddol, yn enwedig ar hyd llinellau rhaniadau trefol/gwledig ac amddifadedd.

Gwahaniaethau rhanbarthol allweddol

Mae gwahaniaethau mewn gweithredu yn adlewyrchu sefyllfa unigryw pob rhanbarth Bwrdd Iechyd, gan gynnwys:

- **Gwahanol 'bwyntiau cychwyn' gyda gwaith newid systemau.** Dechreuodd rhai byrddau, megis Caerdydd a'r Fro, weithio mewn ffordd sy'n seiliedig ar systemau sawl blwyddyn cyn y rhaglen WSAHW ffurfiol ac roeddent eisoes wedi sefydlu elfennau allweddol – megis ymddiriedaeth, meithrin cysylltiadau a methodolegau perthnasol yn lleol – cyn mynd ati i ymgysylltu â'r broses 9 cam strwythuredig. I eraill, mae gwaith systemau wedi golygu eu bod wedi gorfod dysgu'n gyflym.
- **Heriau recriwtio**, gan gynnwys oedi wrth benodi arweinwyr y WSA, fel y profwyd ym Mae Abertawe a Hywel Dda (yn bennaf oherwydd trafferthion dod o hyd i bobl â'r profiad cywir)
- **Aflonyddwch yn gysylltiedig â'r pandemig Covid-19**, a ddargyfeiriodd adnoddau ac a arweiniodd at oedi wrth gyflwyno rhaglenni.
- **Blaenoriaethau strategol cydamserol** fel ffocws Gwent ar ddod yn rhanbarth Marmot a gyfyngodd ar y lled band ar gyfer cyflwyno'r WSAHW yn Aneurin Bevan.
- **Newidiadau strwythurol**, megis ad-drefnu timau iechyd cyhoeddus, newidiadau mewn arweinyddiaeth neu symudiadau staff rhwng Iechyd Cyhoeddus Cymru (PHW) a Byrddau Iechyd, a effeithiodd ar barhad.
- **Ffiniau gweinyddol**, gyda rhai rhanbarthau Byrddau Iechyd yn cwmpasu dim ond un awdurdod lleol neu Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, tra bod eraill yn cwmpasu sawl un. Ar ben hynny, mae tirwedd weinyddol

Caerdydd a'r Fro wedi'i sefydlu'n wahanol i Fyrddau Iechyd eraill sy'n cyflwyno cymhlethdod ychwanegol.

3.3 Mabwysiadu offer a dulliau system

Mae arweinwyr y WSA wedi mabwysiadu ystod o strategaethau i ymgysylltu â phartneriaid system ac ymwreiddio'r WSAHW mewn ymarfer lleol. Mewn rhai achosion, maent wedi defnyddio offer a awgrymir gan y broses 9 cam a'r canllawiau cysylltiedig ond, ar adegau eraill, maent wedi cyflwyno technegau eraill. Mae arweinwyr rhanbarthol y WSA wedi gwneud hyn mewn modd hyblyg, yn hytrach na defnyddio aliniad neu ddargyfeiriad mawr.

Wrth ddewis pa offer a dulliau i'w defnyddio yn ymarferol, mae arweinwyr rhanbarthol y WSA wedi'u sbarduno gan ddibenion; wedi'u llywio gan gymorth allanol; ac yn ymarferol o ran yr hyn sy'n mynd yn dda ac nad yw'n mynd yn dda yn eu system leol, neu'n dangos addewid, yn seiliedig ar arbenigedd a dealltwriaeth rhanddeiliaid lleol ehangach.

3.3.1 Defnyddio offer mewn ffordd sydd wedi'i sbarduno gan ddibenion

Yn nodweddiadol, lle mae offer neu brosesau wedi'u hepgor neu eu defnyddio mewn ffordd lai amlwg, mae hyn oherwydd eu bod wedi'u hystyried gan arweinwyr rhanbarthol y WSA fel rhai llai gwerthfawr neu briodol i gam datblygu'r rhanbarth Bwrdd Iechyd ar y pryd, neu fod eu hallbwn yn llai defnyddiol i'r rhaglen neu i randdeiliaid ehangach.

Er enghraifft, er bod rhai meysydd wedi cael budd o ddadansoddiad o rwydweithiau cymdeithasol, mae eraill wedi ei hepgor oherwydd ei fod yn cymryd llawer iawn o amser ac adnoddau mewn perthynas â'i ddefnydd canfyddedig o'i gymharu â thasgau eraill ac oherwydd ei fod yn cael ei ystyried yn ymarfer 'ticio bocs'. Yn yr un modd, er bod y mwyafrif o ranbarthau Byrddau Iechyd wedi cael budd o waith mapio systemau - er eu bod wedi cyflawni'r gwaith gyda manylder amrywiol - cyflawnodd lleiafrif waith mapio systemau llai manwl.

Lle roedd gwaith mapio systemau yn gweithio'n dda, adroddwyd ei fod yn rhoi dealltwriaeth ddyfnach o'r system leol (gan gynnwys asedau, cyfleoedd a heriau) nid yn unig drwy'r map ond hefyd o ran y broses o adeiladu cysylltiadau rhwng rhanddeiliaid perthnasol. Yn hyn o beth, helpodd ranbarthau Byrddau Iechyd i symud ymlaen i'r cam nesaf.

"Rwy'n credu fod [diagramau dolen achosol] yn ddefnyddiol gan eu bod yn caniatáu i bobl weld, yn y lle cyntaf, fod llwybrau achosol yn gymhleth iawn ac, yn ail, nad oes un sefydliad a all fynd i'r afael â hyn ar ei ben ei hun, felly mae angen dull system gyfan ac, yn drydydd, eu bod yn benodol. Mae gan y nodau yn y diagramau dolen achosol hyn bŵer dirprwyol eithaf uchel."

3.3.2 Cymorth allanol ar gyfer defnyddio offer systemau

Comisiynodd sawl arweinydd rhanbarthol y WSA arbenigedd allanol, yn enwedig o Brifysgol Leeds Beckett, i gefnogi agweddau ar fapio systemau a dadansoddi rhwydweithiau cymdeithasol.⁵ Roedd hyn yn ddefnyddiol ar gyfer argyhoeddi rhanddeiliaid perthnasol ymhellach a symud ymlaen yn gyflym, er bod arweinwyr y WSA yn ofalus i beidio â llethu rhanddeiliaid gydag iaith systemau rhy dechnegol os nad oeddent yn gyfarwydd â gwaith newid systemau neu eu gallu i fod yn rhan ohono.

3.3.3 Defnyddio amrywiaeth o ddulliau o fynd i'r afael â meddwl trwy systemau

Aeth arweinwyr y WSA ati i ddefnyddio ystod o offer, prosesau a dulliau mewn ffordd hyblyg ar wahanol gamau o'r broses 9 gam, gan gynnwys:

- Mapio effaith donnog yng Nghaerdydd a'r Fro i archwilio gwaith ar hysbysebu iach, ac yn Betsi Cadwaladr (gweler yr astudiaeth achos yn Atodiad am fwy o fanylion ar sut y cefnogodd hyn gynydd).
- Cysyniadau o fodelau 'systemau meddal' a 'systemau dysgu dynol', gan gynnwys ymchwiliad gwerthfawrogol yng Nghwm Taf Morgannwg i weithwyr proffesiynol ymgysylltu â'r gymuned a chasglu eu barn, ac fel fframwaith meithrin gallu (gweler yr astudiaeth achos yn Atodiad am fwy o fanylion).
- Creu Gweledigaeth (a ddefnyddir gan Aneurin Bevan) a'r dull Tri Gorwel (a ddefnyddir gan Fae Abertawe a Hywel Dda – gweler yr astudiaeth achos yn Atodiad) i helpu i ddatblygu nodau hirdymor a gweithio am yn ôl er mwyn osgoi cael eich cyfyngu ar y dechrau gan gynllunio gweithredu tymor byr.
- Y model Cymdeithasegol yng Nghaerdydd a'r Fro i "ddylanwadu ar galonnau a meddyliau" fel cam cyntaf o ran newid systemau.

Gwelwyd bod offer a dulliau yn fwyaf defnyddiol o'u cysylltu â phartneriaid ehangach y system a'u bod yn helpu i wneud gwaith meddwl trwy systemau yn fwy gweladwy a hygyrch. Fel y cyfryw, roedd arweinwyr y WSA yn hyblyg wrth newid i fframweithiau eraill os nad oedd rhai yn gweithio'n dda.

“Bu ymgysylltu gwyb ar yr ymarfer mapio ac rwy'n credu bod ymarfer ymarferol i bobl ymgysylltu â'r offer, yr iaith, y dull meddwl trwy systemau, rwy'n credu bod y sgysiau hynny wedi mynd yn dda”

I rai arweinwyr rhanbarthol y WSA, roedd treulio amser i hyfforddi rhanddeiliaid lleol ehangach mewn gwaith meddwl trwy systemau yn teimlo'n angenrheidiol fel porth i gyfranogi ystyrion. Er enghraifft, fframiodd Byrddau Iechyd Bae Abertawe a Hywel Dda drafodaethau gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gan

⁵ Mae Betsi Cadwaladr, Bae Abertawe a Hywel Dda, a Chwm Taf Morgannwg i gyd wedi defnyddio cymorth allanol ar gyfer rhai tasgau.

ddefnyddio cysyniadau systemau yr oeddent eisoes yn gyfarwydd â nhw drwy eu gwaith ar y Penderfynyddion Iechyd Ehangach.

3.4 Cyflwyno'r broses 9 cam a ffactorau dylanwadu

3.4.1 Trosolwg o'r cyflawniad hyd yma

Mae'r broses 9 cam wedi darparu man cychwyn defnyddiol a fframwaith trefnu ar gyfer yr hyn sy'n rhaglen waith gymhleth ac uchelgeisiol a gyflwynir ar draws lleoliadau amrywiol. Mae'r broses 9 cam yn darparu maen prawf ar gyfer cysondeb sydd wedi dargyfeirio wrth iddi gael ei rhoi ar waith yn y gwahanol ranbarthau.

Cafodd y broses ei chynllunio yn seiliedig ar dystiolaeth o raglenni tebyg ond, ers hynny, mae meddwl trwy systemau a dulliau systemau ar gyfer pwysau iach wedi datblygu, ynghyd â phrofiad y rhai sy'n cyflwyno'r rhaglen yn genedlaethol ac ar lefel rhanbarth Bwrdd Iechyd. Felly, gallai'r dysgu o'r ymchwil hon gyfrannu nid yn unig at ddyfodol y rhaglen WSAHW ond hefyd at ymdrechion tebyg mewn mannau eraill.

Mae Ffigur 4 isod yn crynhoi'r broses 9 cam (mae canllaw rhyngweithiol manylach ar gael [yma](#)). Mae Ffigur 5 yn crynhoi'r cyflawniad a'r dysgu allweddol ar gyfer pob un o'r 9 cam. Un elfen gyffredin ar draws y rhanbarthau Byrddau Iechyd yw'r broses o ddwyn ynghyd rhanddeiliaid perthnasol mewn gweithdai ar gyfer tasgau fel mapio systemau, datblygu nodau a naratif, a blaenoriaethu is-systemau.

Y 9 Cam at Ddull System Gyfan ar gyfer Pwysau Iach

Y Broses 9 Cam

Mae'r Broses 9 Cam yn amlinellu'r camau i gefnogi sefydliadau a chymunedau i ddeall eu rôl yn y system, ffyrdd o gydweithio i ddatblygu blaenoriaethau a rennir, a'r ffordd orau o frwr ymlaen â chamau gweithredu ar gyfer newid system.

Nid yw hon yn broses llinol. Yn aml, caiff camau eu hailystyried, eu haildrefnu, a gallant ddigwydd ar yr un pryd. Bydd hyn yn dibynnu ar y camau dan sylw a chanfyddiadau'r rhanddeiliaid a'r system drwy gydol y broses.

- ### 1 Gosod a Phrynu

 - Nodi rhanddeiliaid.
 - Deall rolau yn y system a blaenoriaethau a rennir.
 - Adeiladu perthnasau.
- ### 2 Diffinio a Mapio System

 - Diffinio ardal y system a chytuno ar ffiniau.
 - Deall partneriaid system, pobl a sefydliadau.
 - Datblygu darlun o achosion, gweithgaredd cyfredol ac ymyriadau ar gyfer pwysau iach.
- ### 3 Naratif System

 - Egluro pwysau poblogaeth leol gan ddefnyddio data.
 - Tynnu sylw at yr effaith ar flaenoriaethau a rennir e.e. addysg, cyflogaeth ac anabledd.
 - Cyflwyno achos fel gall sefydliadau weithredu.
- ### 4 Ymgysylltu â'r System

 - Dod â rhanddeiliaid allweddol ynghyd.
 - Cydweithio i nodi achosion sylfaenol pwysau afiach.
 - Nodi cyfleoedd i gydweithio.
- ### 5 Blaenoriaethau a Nodau

 - Cytuno ar flaenoriaethau a nodau a rennir.
 - Archwilio meysydd blaenoriaeth a rennir yn y system.
 - Nodi cyfleoedd ar gyfer newid gan ddefnyddio mapiau.
- ### 6 Dadansoddiad Rhwydwaith

 - Adnabod cysylltiadau rhwng pobl a phartneriaethau.
 - Deall llif gwybodaeth a bylchau.
 - Nodi ffyrdd o gryfhau'r system.
 - Cynllunio ar gyfer llywodraethu er mwyn cefnogi'r gwaith hwn.
- ### 7 Cynllunio Gweithredu

 - Cydweithio i gytuno ar gamau gweithredu.
 - Nodi liferi yn y system flaenoriaeth.
- ### 8 Symud a Rheoli

 - Symud y cynllun gweithredu ymlaen gyda'n gilydd.
 - Cytuno ar sefydliadau i frwr ymlaen â chamau gweithredu.
 - Cytuno a chynllunio cyfathrebiadau.
 - Dathlu a rhannu llwyddiant.
- ### 9 Adolygu

 - Cytuno ar ddangosyddion ar gyfer newid.
 - Monitro newid dros amser.
 - Defnyddio a rhannu dysgu.
 - Cynllunio'r cynnod nesaf o gamau gweithredu lefel system.

Ffigur 5: Cyflawni a dysgu ar gyfer pob un o'r 9 cam

	Trosolwg o'r broses gyflawni	Dysgu allweddol
1	Sefydlu ac Ymrwymiad Er mwyn sefydlu a datblygu llywodraethu, mae arweinwyr wedi buddsoddi mewn cryn ymgysylltu â rhanddeiliaid . Mae rhai wedi canolbwyntio ar fynd i mewn i sefydliadau neu fyrddau eraill , tra bod eraill wedi canolbwyntio ar sefydlu strwythurau llywodraethu a chyflwyno partneriaid .	Gall cynllunio ar gyfer y cam hwn deimlo'n anodd oherwydd bod angen gweithio ar gyflymder partneriaid a'i fod yn cael ei ddylanwadu'n gryf gan y cyd-destun lleol .
2	Diffinio a Mapio Systemau Mae gwaith mapio systemau wedi'i gyflawni drwy un neu sawl gweithdy gyda rhanddeiliaid, ac yna'i ailystyried i helpu i gulhau'r ffocws er mwyn dewis is-system flaenoriaeth yn ddiweddarach (gweler Cam 5). Defnyddiodd llawer o Fyrddau lechyd gymorth allanol gyda'r cam hwn. Er bod allbynnau wedi amrywio, mae mapiau wedi helpu i ddelweddu elfennau o'r system yn well ac, mewn rhai achosion, i nodi pwysntiau trosoledd posibl .	O gymharu â rhai camau eraill, mae mapio systemau wedi cael ei drin fel gweithgarwch craidd gan arweinwyr y WSA ac mae wedi bod yn gam allweddol wrth gyflawni hyd yma. Yn nodweddiadol, mae'r broses hon wedi helpu i ddatblygu dealltwriaeth ymhlith rhanddeiliaid ehangach o achosion cymhleth pwysau iach/nad yw'n iach a chyflwyno'r achos dros y WSAHW. Wedi dweud hynny, fel tasg sy'n cymryd tipyn o amser ac sy'n cynnwys llawer iawn o jargon, mae risg y bydd yn ymddangos yn frawychus yn gynnar yn y broses.
3	Naratif System Mae naratifau wedi cael eu cynhyrchu ar wahanol gamau o'r gwaith ac at wahanol ddibenion, fel arfer i helpu i ysgogi ymgysylltu, blaenoriaethu, a chynllunio gweithredu .	Yn gyffredinol, mae naratifau system wedi cael eu llunio gan arweinwyr y WSA a'u rhannu / cynnwys mewn gweithdai gyda phartneriaid ehangach, yn hytrach na'u cydgyhyrchu'n llawn. Mae creu naratifau system wedi rhoi cyfle i arweinwyr y WSA ymhelaethu ar y broses ar gyfer rhanddeiliaid, gan ddarparu cyd-destun a dadleuon dros ddefnyddio dull y WSAHW .
4	Ymgysylltu â System Mae hyn wedi bod yn eithaf hyblyg a phwrpasol i bob ardal, drwy gymysgedd o ymgysylltu a gwneud penderfyniadau ar y cyd (e.e. gweithdai, cyflwyniadau) ac ymgysylltu un-i-un â phartneriaid perthnasol.	Mae hyn yn llai o 'gam' na gweithgarwch parhaus sydd wedi'i ymwreiddio ym mhob cam arall a lle mae'n rhaid cynnal a chadw yn barhaus i osgoi colli momentwm.
5	Blaenoriaethau a Nodau Mae cyfyngu ffocws i feysydd blaenoriaeth ac yna is-systemau i fynd i'r afael â gorbwysau a gordewdra wedi bod yn broses ailadroddus sydd wedi deillio i raddau helaeth o waith mapio systemau a gweithdai gyda rhanddeiliaid ehangach. Mae rhai Byrddau lechyd wedi defnyddio proses fwy agored i leihau blaenoriaethau, tra bod eraill wedi cael budd o ddefnyddio offer fel dadansoddiad Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau (SWOT), neu bleidleisio democrataidd.	Mae'r broses o nodi a deall graddfa fwriedig is-systemau blaenoriaeth a sut y dylid mynd i'r afael â nhw wedi cynnwys rhywfaint o brofi a methu, gan gynnwys adborth a chanllawiau gan rhanddeiliaid y rhaglen ar yr awgrymiadau cynnar gan Fyrddau lechyd. Mae'r cam hwn wedi cynnwys rheolaeth ofalus i gadw cywiredd egwyddorion newid systemau a rhywfaint o gysondeb ar draws y rhaglen gyfan, gan rannu perchnogaeth â rhanddeiliaid lleol a chydabod eu syniadau.
6	Dadansoddi Rhwydweithiau Mae'r cam hwn wedi'i hepgor neu wedi'i gymryd yn llai manwl gan rai Byrddau lechyd. Lle mae wedi'i ddefnyddio, mae wedi canolbwyntio ar adegau ar y system gyfan (yn debyg i fapio) ac ar adegau ar yr is-system flaenoriaeth.	Roedd diben y cam hwn yn llai clir nag eraill i arweinwyr rhanbarthol y WSA, gydag ymdeimlad y gallai fod yn fwy defnyddiol ar gyfer monitro nag ar gyfer cyflawni. Nid oedd yr amser a'r adnoddau sydd eu hangen ar gyfer dadansoddi rhwydweithiau yn cael eu hystyried yn gymesur â'r manteision.
7	Cynllunio Gweithredu Hyd yma, mae cynllunio gweithredu wedi bod yn llai manwl ac wedi esblygu ochr yn ochr â'r broses gyflawni , yn hytrach na llunio cynlluniau gweithredu ffurfiol, ar wahân. Ar y cam hwn, mae Byrddau lechyd wedi canfod bod angen iddynt sicrhau ymrwymiad gan rhanddeiliaid yn y lle cyntaf drwy ddylanwadu ar strategaethau lleol perthnasol (yn enwedig cynlluniau BGCau) fel cam tuag at ffurfio cynlluniau gweithredu cadarn a realistig.	Mae sicrhau ymrwymiad gan bartneriaid ehangach i 'berchnogi' a chyflawni camau gweithredu wedi bod yn anodd, ac adlewyrchir hyn yn y ffaith mai dim ond ychydig o gynllunio gweithredu sydd wedi'i wneud hyd yma. Yn ogystal, mae'r angen i gael 'atebion cyflym' i sicrhau ymrwymiad yn golygu bod rhai camau gweithredu wedi esblygu ac wedi'u cyflawni heb gynllunio strategol yn unol â blaenoriaethau'r WSAHW
8 9	8. Symud a Rheoli a Rheoli 9. Adolygu Gan adlewyrchu cam cyflawni'r WSAHW – yn enwedig mewn perthynas â gweithredu – nid oes disgwyl i'r camau hyn gael eu cymryd eto. Fodd bynnag, trwy'r holl gamau uchod mae swyddogaeth gynhenid o gynnal momentwm; rheoli gweithgareddau i osgoi symud oddi wrth y diben ac ymateb i'r system addasol a datblygol; ac adolygu cynnydd drwy fecanweithiau monitro a dysgu ffurfiol ac anffurfiol.	

3.4.2 Aliniad ac amrywiad

Yn gyffredinol, nid yw arweinwyr rhanbarthol y WSA wedi dilyn y broses 9 cam yn llawn yn unol â chanllawiau'r WSAHW. Mae arweinwyr rhanbarthol y WSA wedi dechrau teimlo'n fwy hyderus i benderfynu ar y ffordd orau o weithredu'n lleol, gan barhau i alinio â'r 9 cam lle bo hynny'n bosibl, neu eu hailystyried i i wirio eu cyfeiriad teithio.

“Rwy'n credu ein bod ni i gyd wedi bod â'r hyblygrwydd hwnnw i weithio'n wahanol gan fod popeth yn wahanol ym mhob rhanbarth.”

Mae rhai wedi trin y broses 9 cam fel map trywydd gyda lle i fod yn hyblyg, rhai fel blwch offer gyda gweithgareddau dewisol, gydag eraill yn dal i wyro o'r rhaglen tuag at wahanol ysgolion o ddulliau systemau.

Y rhesymau am hyn oedd bod rhai arweinwyr rhanbarthol y WSA yn cyfeirio at gyfyngiadau ymarferol (gweler Adran 3.1), roedd eraill yn poeni am 'golli' rhanddeiliaid perthnasol yn y broses, tra bod eraill â gwaith presennol ar waith yn teimlo bod y WSAHW yn peryglu neu'n amharu ar waith newid systemau presennol drwy ddechrau proses newydd o'r cychwyn, ac roedd eraill yn dal i ffafrio gwahanol ysgolion o waith meddwl trwy systemau.

O ran sut mae'r amrywiad hwn wedi gweithio yn ymarferol, mae rhanbarthau wedi dargyfeirio o ran trefn y camau a'r aliniad i ganllawiau (gweler Adran 3.4.3) a'r pwys cymharol a roddir i'r gwahanol gamau. Mae rhai camau wedi bod yn llai manwl, megis mapio systemau neu ddatblygu naratif, ac mae eraill wedi'u hosgoi, megis dadansoddi rhwydweithiau (oherwydd bod angen cymaint o amser ac adnoddau ar ei gyfer) neu sefydlu strwythurau llywodraethu (mae rhai arweinwyr rhanbarthol y WSA yn bwriadu ei gynnwys yn ddiweddarach).

Dysgu am weithredu amrywiol

Er bod rhywfaint o hyblygrwydd yn gynhenid mewn gwaith systemau, mae cydymffurfiaeth amrywiol â'r model 9 cam yn enghraifft o'r 'bwlch gweithredu', ffenomen gyffredin lle nad yw polisiâu a rhaglenni, i raddau mwy neu lai, yn cael eu rhoi ar waith yn ymarferol yn y ffordd y cawsant eu dylunio.^{6 7} Mae'r WSAHW yn rhaglen uchelgeisiol ac arloesol sydd wedi'i hadeiladu ar y syniad o newid yn sylfaenol sut mae systemau'n gweithio a sut mae pwysau iach yn cael ei ystyried yng Nghymru, sy'n golygu nad yw'r llwybr wedi'i bennu ymlaen llaw bob amser.

Un o sbardunau penodol y bwlch gweithredu yw elfen 'systemau' y rhaglen, gan gynnwys dulliau fel mapio systemau. Mae hyn wedi arwain at anghysondebau rhwng dyluniad gweithredu'r WSAHW a sut mae rhai

⁶ Baan, A-M. et al (2023) Implementation-minded policy making. Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, Canolfan Tystiolaeth a Gweithredu. Ar gael yma: <https://wcpp.org.uk/wp-content/uploads/2023/11/Implementation-Minded-Policy-Making.pdf>

⁷ Braithwaite, J. et al. (2018). Why complexity science meets implementation science: a theoretical and empirical analysis of systems change. BMC Medicine 16, 63. doi.org/10.1186/s12916-018-1057-z

rhanddeiliaid lleol wedi dewis dehongli'r 'dull systemau' y maent yn ei roi ar waith. O ystyried natur beilot y rhaglen, mae hyn yn darparu dysgu gwerthfawr am broses weithredu'r WSAHW.

Mae hyn a bylchau eraill yn dangos lle byddai'n ddefnyddiol addasu a mireinio sut y gweithredir y rhaglen, yn unol â dull addasol, drwy: (1) sicrhau bod digon o gydymffurfiaeth â model y WSAHW a ariennir er mwyn ei brofi, darparu tystiolaeth o gydymffurfiaeth â'r model a ariennir, a lleihau'r bwlch gweithredu, a (2) lle bo angen, parhau i addasu'r broses weithredu a'r canllawiau i fynd i'r afael â phwyntiau allweddol o wahaniaeth ac egluro maint a therfynau disgwyledig hyblygrwydd rhanbarthol - o ran eu proses newid systemau a'r theori newid systemau sy'n sail iddi. Archwilir y theori hon ymhellach yn Adran 5.

3.4.3 Dysgu o'r broses gyflawni

Pan ofynnwyd iddynt am eu defnydd o'r 9 cam yn benodol, nododd y mwyafrif o arweinwyr rhanbarthol y WSA fod sawl her i'w cyflawni ar lawr gwlad a oedd yn cyflwyno dysgu pwysig. Disgrifir y themâu allweddol isod.⁸

Gwerth model

Cydnabu arweinwyr rhanbarthol y WSA yr angen am fodel cenedlaethol cyffredin i gydlynu ymdrechion, darparu strwythur a hyrwyddo iaith gyffredin. Mae'r broses 9 cam hefyd wedi dangos i randdeiliaid lleol perthnasol bod y WSAHW yn fframwaith sy'n seiliedig ar dystiolaeth, prosesau ac offer ar gyfer newid systemau. Mae wedi bod yn fap trywydd arbennig o werthfawr ar gyfer rhanbarthau lle roedd llai o brofiad blaenorol a hyder ynghylch gwaith systemau.

Fodd bynnag, yn seiliedig ar eu profiad o gyflwyno'r rhaglen, mae rhanddeiliaid lleol wedi eirioli dros esblygiad y fframwaith i: addasu i'r dysgu o realiti newid systemau; cydbwysu hyblygrwydd gyda rhagnodi; a darparu offer ac opsiynau mwy ymarferol i weithredwyr, yn enwedig lle mae'r llwybr a ffefrir yn anodd (e.e. sefydlu strwythur llywodraethu a rennir neu sicrhau ymrwymiad gan uwch randdeiliaid priodol yn y system).

“Pa ddewis arall sydd yna i ni fod â rhyw fath o fodel? Felly, byddwn i'n gweld hyn fel maes profi ac fel ffordd o ddilysu, ymgysylltu â sut rydyn ni wedi mynd ati i gyflawni tasg anodd iawn. Ac rwy'n credu bod pobl wedi gwneud hynny'n ffyddiog ac maen nhw wedi gwneud yn wych gydag ef ac [mae yna] rwystredigaeth pan mae pobl wedi bod yn pwyso i mewn ac yna dydy'r cylch ddim wedi gadael iddyn nhw wneud yr hyn sydd angen iddyn nhw ei wneud.”

Hyblygrwydd o ran trefnu camau'r broses

Er na ddyluniwyd y broses 9 cam i'w gweithredu mewn trefn, mae rhywfaint o resymeg i'r drefn a rhai grwpiau o gamau (y gellid eu disgrifio fel camau sy'n

⁸ Roedd rôl theori systemau hefyd yn bwynt trafod allweddol trawsbynciol a drafodir yn Adran 4.4.

rhesymegol i'w cymryd cyn camau eraill). Mae fframio'r broses ar ffurf camau wedi achosi rhywfaint o ddryswch oherwydd y llinoledd mae hyn yn ei awgrymu, er gwaethaf cyfathrebu gan arweinwyr cenedlaethol y WSA y dylai'r broses fod yn hyblyg.

Cytunodd arweinwyr rhanbarthol y WSA y gallai'r fframio adlewyrchu'n well yr hyblygrwydd a'r cyflawniad addasol a ddynodir yn egwyddorion newid systemau sy'n sail i ddyluniad y rhaglen. Maent wedi gwerthfawrogi'n fawr y cyfle i weithio fel hyn yn ymarferol i gyflawni'r WSA yn y drefn a oedd yn gwneud y synnwyr mwyaf yn lleol ac a oedd yn ymarferol. Yn wir, roedd angen ailystyried rhai camau yn aml e.e. blaenoriaethu ac ymgysylltu.

“Mae'n olwg eithaf academiaidd, llinol o broses, mae'n ei gorsymleiddio o bosibl. Rydych chi'n gwybod mai'r gwir yw nad yw'n gweithio yn y ffordd linol honno. Rwy'n gwybod fod rhai'n dweud, 'Dydy e ddim llinol, rydych chi'n gallu symud ar draws,' ond mae'r ffaith ei fod yn dweud camau yn awgrymu bod yna broses i'w dilyn. Felly, rydyn ni wedi mapio ein rhanddeiliaid, wedi cael naratif a rennir, rydyn ni'n edrych ar gynllunio camau gweithredu, rydyn ni'n edrych ar y rhwydweithiau a'r cysylltiadau. Rydyn ni'n gwneud y pethau hynny, ond efallai nid yn y drefn linol benodol honno. Mae'n ymwneud â bod yn ddynamig hefyd.”

Fel y cyfryw, mae'r broses gyflawni wedi adlewyrchu trefn y 9 cam yn fwy caeth mewn rhai rhanbarthau Byrddau Iechyd nag eraill. Yn ymarferol, mae rhai camau yn aml yn gyfunol e.e. mapio a datblygu naratif; ac mae ymgysylltu'n digwydd drwy'r amser. Er enghraifft:

- Cynhyrchodd Byrddau Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a Hywel Dda naratif rhanbarthol i gyflwyno'r achos dros weithredu a gwahodd rhanddeiliaid lleol ehangach perthnasol i fynychu gweithdai i benderfynu ar yr is-system flaenoriaeth ar ôl cwblhau'r gwaith mapio systemau cychwynnol.
- Cynhyrchodd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys naratif lleol manwl cyn y gweithdai mapio systemau cychwynnol sy'n darparu ystod ehangach o ddata a chyd-destun ar orbwysau a gordewdra yn y rhanbarth.
- Darparodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ddau naratif: roedd un yn canolbwyntio ar feysydd o fewn y system megis trafnidiaeth, ysgolion a chynllunio, a naratif pellach am yr is-system a ddewiswyd, sef y Blynnyddoedd Cynnar.

Maint a dewis is-systemau blaenoriaeth

Roedd un pwynt cyffredin o ddysgu parhaus yn ymwneud â nodi a mireinio is-systemau. Er bod y cam hwn yn hanfodol, dywedodd rhanddeiliaid lleol ei bod yn cymryd amser a rhywfaint o brofi a methu yn ymarferol i weithio drwy'r canlynol:

- Y gwahaniaeth rhwng meysydd blaenoriaeth ac is-systemau blaenoriaeth
- Sut a phryd i gulhau'r ffocws yn briodol

- Pa raddfa neu gwmpas sy'n fwyaf addas ar gyfer gweithredu is-system.

“Ond, mae nodi is-system y gallwn ni fynd â hi allan, ydyn ni i fod i gymryd y camau fel tîm iechyd cyhoeddus neu fel tîm dull system gyfan? Neu ydyn ni'n gobeithio y bydd pobl eraill yn cymryd y camau? Beth yw graddfa hyfyw cam gweithredu? Dydw i ddim yn credu bod hynny'n arbennig o glir. Yn y bôn, y risg yw ei bod ar raddfa mor fach fel ei bod yn ddiystyr”.

Mae hon wedi bod yn broses ailadroddus sy'n cynnwys adborth a chydweithredu i sawl cyfeiriad – rhwng arweinwyr y WSA a'u rhanddeiliaid lleol perthnasol, a rhwng arweinwyr rhanbarthol a chenedlaethol y WSA o fewn y rhaglen. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu bod rhai arweinwyr y WSA yn cael eu cynghori i ailystyried is-systemau blaenoriaeth yr oeddent wedi'u cydgynhyrchu gyda rhanddeiliaid ehangach y system i gyd-fynd yn well â'r raddfa a'r ffocws gweithredu bwriedig.

Roedd hyn yn adlewyrchu pryderon arweinwyr cenedlaethol am y risg o ddewis graddfeydd rhy uchelgeisiol a rhai efallai nad oes modd eu rheoli ar gyfer camau gweithredu, neu o wyro'n rhy bell o dargedu systemau ac yn rhy agos at dargedu pynciau iechyd neu grwpiau poblogaeth drwy ddulliau neu ymyriadau gwaith partneriaeth mwy traddodiadol. Ysgogodd y pwnc is-systemau fyfyrddau ehangach ar y ffordd orau o gipio effaith fwriedig y WSAHW – archwilir y safbwyntiau hyn yn Adran 5.

Mae'r math hwn o ddysgu – am daro'r cydbwysedd wrth rwymo'r is-system flaenoriaeth a chyflwyno graddfa'r cam gweithredu yn gywir – yn rhesymol o ystyried natur uchelgeisiol ac arloesol y rhaglen, a'r gwyriad oddi wrth ddulliau blaenorol o weithio y mae'n eu cynrychioli yng Nghymru ac yn ehangach.

Cydgynhyrchu ac ymgysylltu â'r gymuned

Roedd rôl cyfranogiad cymunedol yn y rhaglen WSAHW yn aneglur ar adegau oherwydd roedd dogfennaeth gynnar y rhaglen lefel uchel yn cyfeirio ato ond yna ni soniwyd amdano yn y broses 9 cam a'r canllawiau cysylltiedig. Awgrymodd sawl rhanddeiliad lleol y dylai trigolion eu hardal gymryd rhan fwy amlwg ac y byddai hyn yn helpu i ddenu rhanddeiliaid ehangach y system.

“Yn y digwyddiadau rhanddeiliaid strategol hynny, roedden ni wastad yn cael adborth ar ble roedd y trigolion, y gymuned. A doedden nhw ddim yn rhan o ran gyntaf y gwaith hwn, a doedd dim sôn amdany'n nhw yn y rhan hon chwaith. Felly, eto, wrth fyfyrto, mae'n debyg y dylen nhw wedi bod yn rhan o'r gwaith, ond y flaenoriaeth strategol oedd lle roedden ni. Felly, yn fwy diweddar rydyn ni wedi cyflwyno'r gymuned ond, yn anffodus, rwy'n credu y byddai wedi bod yn well pe baen nhw wedi bod yn rhan o'r sgysiau hyn o'r dechrau.”

Ers hynny, mae rhai arweinwyr rhanbarthol y WSA wedi cychwyn ar wahanol fathau o ymgynghori cymunedol. Er enghraifft, aliniodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg â Phrosiect Dewi i gefnogi ymgysylltiad Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus â'r gymuned (gweler yr astudiaeth achos yn Atodiad).

Mae'r rhanbarthau Byrddau Iechyd hyn wedi canfod bod hyn wedi helpu i sicrhau ymrwymiad gan randdeiliaid perthnasol a sicrhau bod y WSAHW yn adlewyrchu'n well yr holl randdeiliaid perthnasol yn y system.

I rai, cafwyd budd o gynnal ymgynghoriad cymunedol â thrigolion lleol yn gynnar fel rhan o'r broses o gasglu barn i lywio'r broses o ddewis is-systemau a chamau gweithredu blaenoriaeth, tra bod eraill yn teimlo bod hwn yn fwy effeithiol *ar ôl* y gwaith blaenoriaethu gyda phartneriaid system.

"Rwy'n credu bod cael y flaenoriaeth strategol honno yn iawn oherwydd mae angen i'r bobl hynny rydych chi'n gweithio gyda nhw ymrwymo'n llawn. A nawr mae gennym ni ein cynulleidfia darged, ac rydyn ni ychydig yn fwy penodol. Pe baem wedi cynnwys y cyhoedd o'r dechrau, rwy'n amau y byddai'r sgysiau wedi gwro i fwrdd o bwysau iach ac wedi bod yn ddi-drefn. Ond rwy'n credu nawr bod gennym ni ffocws penodol."

Wrth drafod rôl cydgynhyrchu'r rhaglen, cydnabu arweinwyr rhanbarthol y WSA y bu cyfleoedd i roi adborth a rhannu barn ar ganllawiau drafft y rhaglen a rhai agweddau eraill fel dulliau monitro. Fodd bynnag, roedd deongliadau amrywiol o gydgyhyrchu ac roedd rhai arweinwyr rhanbarthol y WSA yn rhannu awydd am fewnbwn cynharach yn y trafodaethau hyn.

Y cydbwysedd rhwng canllawiau rhagnodol a hyblyg

Mae canllawiau'r rhaglen yn cynnwys trosolwg lefel uwch o'r broses 9 cam a chanllawiau manylach ar bob cam a ddatblygwyd ochr yn ochr â'r gwaith cyflawni.

Amseriad datblygu ac ailystyried y canllawiau

Nid oedd y canllawiau cam wrth gam manylach ar gael yn eu cyfanrwydd ar ddechrau'r rhaglen, sy'n golygu bod arweinwyr y WSA wedi symud ymlaen yn seiliedig ar y disgrifiadau lefel uchel o'r broses 9 cam ynghyd â mewnbwn gan arweinwyr cenedlaethol y WSA.

Roedd hyn yn cyflwyno heriau o ran cynllunio'n effeithiol, ac efallai y gallai arweinwyr y WSA â llai o brofiad o newid systemau fod wedi elwa ar ganllawiau manwl yn gynt. Gan i'r canllawiau ddod i'r fei ers hynny a dod yn nodwedd fwy amlwg o ddyluniad y rhaglen, mae wedi codi cwestiynau ynghylch i ba raddau y dylai arweinwyr rhanbarthol y WSA ôl-addasu eu dull i gydymffurfio neu barhau â'u cynnydd ond, wrth wneud hynny, rhoi llai o sylw i'r canllawiau.

Roedd rhai arweinwyr rhanbarthol y WSA yn teimlo y gallai cydgynhyrchu dyluniad cychwynnol y canllawiau fod wedi bod yn gam gwerth chweil, gydag eraill yn nodi, er bod drafftiau cynnar y canllawiau wedi'u rhannu gyda nhw am eu sylwadau, eu bod yn teimlo'n llai hyderus a phrofiadol gyda dulliau systemau ar ddechrau'r rhaglen, sy'n awgrymu y gallent fod wedi cael trafferth rhoi mewnbwn ystyrlon i'r canllawiau ar y pwynt hwnnw. Wrth i'r

gwaith cyflawni ymwreiddio, mae mwy o ymdeimlad a rennir ymhlith arweinwyr y WSA eu bod wedi cronni profiad defnyddiol yn y byd go iawn o weithredu'r WSAHW sy'n werthfawr i'w rannu a'i drafod.

Yn gyffredinol, mae'r canllawiau wedi'u trin fel rhai cyngorol yn hytrach na rhai gorfodol. Unwaith eto, mae rhai arweinwyr rhanbarthol y WSA wedi adlewyrchu'r canllawiau lefel uchel a mwy manwl ar y broses 9 cam yn fwy caeth nag eraill. Adlewyrchir hyn yn y ffordd mae gwahanol offer a phrosesau wedi'u hymgorffori (gweler Adran 3.3) a pha mor ddwfn y bu'r broses o weithredu gwahanol gamau.

“Dydyn ni ddim wedi mynd drwyddo fel cam un, cam dau, cam tri, cam pedwar, cam pump. Fe wnaethon ni ddadansoddi'r rhwydweithiau cymdeithasol ymhell cyn y bydden ni wedi'i wneud pe baem wedi dilyn y broses 9 cam. Felly, i mi, mae'r broses 9 cam yn rhoi i ni bron iawn elfennau system gyfan neu'r offer mewn blwch offer cyfan, ac rydyn ni wedyn wedi mynd yn ôl ac ailystyried y camau hynny. Felly, mae'n ffordd o allu fframio'r gwaith hwnnw'n lleol a dangos ein bod yn dilyn proses system yn hytrach na theimlo ei fod yn cyfyngu ar yr hyn y gallen ni ei wneud.”

Er enghraifft, tynnodd rhai rhanddeiliaid lleol (ym Mwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro yn enwedig) sylw at y ffaith eu bod eisoes wedi bod yn defnyddio dulliau systemau, a bod hynny'n creu heriau wrth integreiddio â'r broses 9 cam heb ddyblygu neu ddadwneud gwaith presennol neu ddrysu rhanddeiliaid perthnasol gyda negeseuon newydd am yr hyn mae newid systemau yn ei olygu yn lleol. Arweiniodd hyn at awgrym y gallai'r canllawiau fod yn fwy perthnasol ar gyfer sefyllfaoedd lle mae ymrwymiad sylweddol i ffordd o weithio a ffefrir yn seiliedig ar hanes lleol o waith sy'n gysylltiedig â systemau.

Wrth fyfyrrio ar y canllawiau, cytunodd rhanddeiliaid lleol (mewn ffordd debyg i gronoleg y broses 9 cam) nad yw'n cynrychioli'n llawn hyblygrwydd ac addasrwydd cyflawni newid systemau yn ymarferol a nodir yn y canllawiau yn unol â dealltwriaeth arweinwyr y WSA.

“Rwy'n teimlo nad yw'r dogfennau a roddir i ni yn cyd-fynd â'r dull rydyn ni'n ei ddefnyddio. Felly, mae'n siarad am nodau CAMPUS, cynlluniau gweithredu ar gyfer y tymor byr, y tymor canolig, a'r tymor hir, yr holl bethau hynny dydyn ni ddim yn meddwl am gyffwrdd â nhw i fod yn onest.”

3.5 Monitro a dysgu o gyflawni

Trosolwg o'r gwaith monitro

Mae prosesau monitro wedi esblygu wrth i reolwyr ymateb i ddysgu parhaus yn ymarferol, a'i ymwreiddio. Mae'r gwaith monitro'n cynnwys:

(1) ffurflenni chwarterol gan arweinwyr y WSA sy'n manylu ar gynnydd yn erbyn y broses 9 cam ac unrhyw ddysgu ychwanegol;

(2) adroddiadau blynyddol gan arweinwyr y WSA sy'n crynhoi cynnydd a dysgu (mae'r cynnwys wedi amrywio ac, yn fwyaf diweddar, defnyddiodd y Matrics Aeddfedrwydd System – gweler Adran 1.2.3);

(3) mwy o geisiadau ad hoc am ddata, er enghraifft, faint o waith ymgysylltu â rhanddeiliaid a gynhaliwyd, neu astudiaethau achos, a chyfarfodydd i drafod cynnydd yn ôl yr angen.

Mae dysgu a myfyrio ychwanegol yn digwydd drwy: gyfarfodydd misol neu bob deufis o rwydwaith o arweinwyr y WSA; cyfarfodydd wyneb yn wyneb chwarterol rhwng arweinwyr pob rhanbarth Bwrdd Iechyd a'r arweinwyr cenedlaethol; cyfarfodydd chwarterol rhwng ymgynghorwyr sy'n goruchwyllo arweinwyr y WSA; a mwy o gyfathrebu anffurfiol a rhannu dysgu rhwng arweinwyr y WSA.

Mae'n anoddach monitro newid systemau o gymharu â rhaglenni llinol mwy traddodiadol, ond roedd yr holl rhanddeiliaid yr ymgynghorwyd â nhw yn cydnabod yr angen am waith monitro ar gyfer rhagen a ariennir gan grantiau.

Fodd bynnag, bu gwrthwynebiad i'r dull monitro presennol gan fod timau rhanbarthol a chenedlaethol wedi gweithio i daro'r cydbwysedd rhwng dod o hyd i'r wybodaeth gywir i ddisgrifio'r broses, cydbwysu gwaith monitro â dysgu, a sicrhau bod dulliau adrodd yn 'gweithio'n galed' a bod modd eu rheoli. Yn ymarferol, mae hyn wedi codi cwestiynau am fath a maint yr wybodaeth fonitro a gesglir a rôl cyfleoedd dysgu mwy myfyriol.

Roedd arweinwyr rhanbarthol y WSA yn cael trafferth adrodd ar eu cynnydd o ran y broses 9 cam a'r Matrics Aeddfedrwydd System fel rhan o adroddiadau chwarterol a blynyddol, yn y drefn honno. Gofynnir i arweinwyr gyflwyno cynllun blynyddol ac adrodd bob chwarter ar ba gamau sydd wedi'u cymryd ers y cyfarfod diwethaf. Gan nad oedd cynnydd ar hyd y 9 cam bob amser yn cyd-fynd ag amserlenni chwarterol, awgrymwyd bod y mecanwaith monitro hwn yn arwain at risg o orfodi canfyddiad y dylai'r broses gyflawni fod yn llinol a dilyn amserlenni tebyg ym mhob rhanbarth Bwrdd Iechyd, er gwaethaf canllawiau i'r gwrthwyneb.

“Mae yna ychydig o densiwn mewn perthynas â'r 9 cam o ran bod yn hyblyg a mynd yn ôl ac ymlaen, ac i fyny ac i lawr, ac ar draws. Ond yna mae'r cwestiwn yn dod i chi ddweud ble rydych chi arni gyda cham. Yna dyna lle mae'r dryswch neu'r gwrthgyferbyniad hwn yn dod ynghylch sut rydyn ni'n defnyddio'r 9 cam.”

“Mae'r diffyg hyblygrwydd yn heriol, gorfod adrodd bob chwarter o ran rhai o'r camau a sut maen nhw wedi symud ymlaen, efallai eu bod nhw wedi symud ymlaen neu beidio yn dibynnu ar ble rydych chi a beth oedd y cyfleoedd lleol hynny.”

Yn yr un modd, er nad oedd wedi'i ddylunio at y diben hwn, roedd pryder bod dulliau adrodd yn erbyn y Matrics Aeddfedrwydd System – offeryn hunan-fyfyrio y bwriedir ei deilwra i bob cyd-destun a chaniatáu gwahanol fannau cychwyn – yn

cael ei ddefnyddio i feintio a chymharu cynnydd rhwng rhanbarthau Byrddau Iechyd.

Roedd hyn yn adlewyrchu pryder bod gwaith monitro, dros amser, wedi canolbwyntio'n ormodol ar gyflawni'r dull systemau ar gyfer newid systemau a bod llai o le ar ôl i ddysgu, yn enwedig dysgu gwerthfawr am fethiannau yn ogystal â llwyddiannau. O gymharu â'r capasiti sydd ar gael i arweinwyr y WSA, roedden nhw'n cwestiynu a oedd rhai o'r ceisiadau monitro ad hoc sy'n canolbwyntio mwy ar allbynnau (yn deillio o geisiadau Llywodraeth Cymru ar adegau) yn cynrychioli'r defnydd gorau o'u hamser sydd ar gael ar gyfer myfyrio a monitro. Un enghraifft oedd cofnodi nifer yr ymgysylltiadau â rhanddeiliaid a gynhaliwyd, a oedd yn anodd ei ddiffinio o ystyried natur ailadroddus a lleol yr ymgysylltu.

“Sut mae'r holl bethau hynny'n ffitio gyda'i gilydd a beth, o'r holl bethau hynny, fydd yn ein helpu ni i adrodd stori newid? Ac rwy'n credu nad yw ein stori gyfunol yn glir ar hyn o bryd.”

Wrth edrych ymlaen, byddai arweinwyr y WSA yn gwerthfawrogi mwy o rôl wrth gyd-ddylunio'r dull monitro i sicrhau bod yr wybodaeth yn adlewyrchu eu gwaith ar lawr gwlad, i rwymo'r cwestiwn o ran eu hamser, ac i ehangu mannau ar gyfer myfyrio agored rhwng arweinwyr rhanbarthol y WSA a rhanddeiliaid cenedlaethol. Gwnaethant awgrymu'r canlynol:

- Diogelu mwy o amser mewn cyfarfodydd rhaglenni i fyfyrion ar y cyd ar draws arweinwyr rhanbarthol y WSA.

“Rydyn ni wedi gorfod dysgu'n gyflym, yn ganolog yn ogystal ag o fewn y byrddau iechyd, felly rwy'n hoff iawn o'r ffaith bod gwahaniaethau rhyngom ni fel rhanbarthau.”

- Archwilio gwersi o heriau a chyfaddawdau yn ogystal â llwyddiannau.

“Mae yna bethau rwy'n eu cyflwyno nad ydw i'n eu hadrodd gan fy mod i'n credu nad ydyn nhw'n systemau, rwy'n credu na fyddai ICC eisiau clywed am y rheini ond rwy'n credu eu bod nhw'n bwysig iawn oherwydd weithiau mae angen i chi wneud pethau sy'n adeiladu momentwm neu'n ennyn diddordeb partneriaid. Wrth i amser fynd yn ei flaen, mae pobl yn dechrau colli diddordeb ac yna mae angen rhywbeth i ennyn eu diddordeb ac mae angen ei adnewyddu.”

- Cael mwy o adborth gan arweinwyr cenedlaethol y WSA am sut mae'r dysgu am eu gwaith yn cael ei rannu a'i dderbyn ymhlith rhanddeiliaid cenedlaethol, gan gynnwys Llywodraeth Cymru.

“Gallai pobl fedru cyfrannu mwy, nid yn unig adborth, ond yr holl ddysgu maen nhw wedi'i gael, er enghraifft, am fframio iaith. Gallai hynny fod yn fwy cyson ar draws yr holl rhanddeiliaid yng Nghymru gan fod hynny mor bwysig gyda phwnc mor sensitif. Rwy'n credu y gallen ni rannu arferion gorau yn fwy agored, a rhannu pethau nad oedden nhw wedi mynd cystal.”

4 Goblygiadau i systemau lleol

Mae'r bennod hon yn mynd i'r afael â'r cwestiynau ymchwil canlynol

Cydnabyddiaeth, dealltwriaeth ac ymgysylltiad partneriaid system â phroses y WSA:

Beth yw maint yr ymgysylltiad â gwaith y WSA, ei ddylanwad a'r gydnabyddiaeth ohono?

Newid system a newid sy'n deillio o'r rhaglen:

A oes tystiolaeth o gamau gweithredu a chynlluniau'r system, ac aliniad y system?

A oes tystiolaeth o gamau gweithredu a chanlyniadau anfwriadol sy'n deillio o gamau gweithredu'r system?

Mae'r astudiaethau achos (yn yr atodiadau) hefyd yn darparu tystiolaeth a dadansoddiad mewn ymateb i'r cwestiynau ymchwil hyn.

4.1 Prif negeseuon

- Dywedodd rhanddeiliaid y rhaglen fod dealltwriaeth gryfach ymhlith llawer o randdeiliaid ehangach allweddol y system o theori systemau, y rhesymeg dros WSA a'r cyfraniad y gallant ei wneud, hyd yn oed os nad ydynt fel arfer yn gweithio ar 'bwysau iach'. Bu defnydd cryfach o iaith systemau ac ymgysylltiad cynyddol gan randdeiliaid ehangach y system mewn trafodaethau WSAHW.
- Er y dylid ystyried hyn fel cyflawniad sylweddol, nid yw sicrhau'r ymrwymiad angenrheidiol wedi bod yn syml mewn mannau ac mae'n dal i fod yn broses barhaus. Mae heriau'n bodoli o ran: sicrhau ymrwymiad strategol ac ymrwymiad gan uwch randdeiliaid; blaenoriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd a chapasiti partneriaid ehangach; a'u dealltwriaeth a'u disgwyliadau gwahanol o waith newid systemau. Yn y cyd-destun hwn, mae arweinwyr rhanbarthol y WSA wedi ceisio taro cydbwysedd rhwng rhannu perchnogaeth o'r gwaith a bwrw ymlaen â chynnydd.
- Er bod y daith wedi edrych yn wahanol mewn gwahanol ranbarthau, mae pob un wedi nodi 'is-systemau' blaenoriaeth, gyda'r nod o ddychwelyd at is-systemau ychwanegol unwaith y bydd camau gweithredu wedi'u cynllunio, eu cyflawni a'u hadolygu. Mae'r is-systemau blaenoriaeth yn amrywio, ond mae blynyddoedd cynnar a mynediad at fwyd iach yn themâu cyffredin.
- Mae Byrddau Iechyd bellach yn pontio i gyflawni a phrofi camau gweithredu sydd wedi deillio i raddau helaeth o'r rhaglen WSAHW. Mae'r camau gweithredu yn amrywio o ran cwmplas, maint a gwelededd, ond mae enghreifftiau'n cynnwys: cyfrannu at benderfyniadau cynllunio ynghylch

rheoliadau cludfwyd poeth; ac yn dylanwadu ar bolisïau ynghylch adeiladu arferion bwyd iach mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar neu yn ymwneud ag arlwyio mewn ysbytai lleol.

- Mae arweinwyr y WSA bellach yn datblygu cynlluniau gweithredu mwy ffurfiol gydag ymrwymiad clir gan randdeiliaid perthnasol. Mae hyn yn bosibl diolch i'w gwaith ar ddatblygu a chryfhau cysylltiadau (yn enwedig gyda BGCau), ar y weledigaeth ar gyfer newid mewn is-system flaenoriaeth, ac ar gamau gweithredu a gyflwynwyd i gefnogi momentwm a dangos y gallu i newid. Un elfen allweddol o ran sicrhau ymrwymiad BGC yw tynnu sylw at sut y gall eu Cynlluniau Llesiant helpu i roi hwb i fomentwm y WSAHW.

4.2 Cydnabyddiaeth a dealltwriaeth o'r Dull System Gyfan

4.2.1 Gosod y sylfaen a meithrin cysylltiadau

Mae'r rhan fwyaf o weithgarwch y WSAHW hyd yma wedi canolbwyntio ar osod y sylfaen ac adeiladu sylfeini er mwyn rhoi syniadau ar waith. Mae hyn yn cynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid, mapio a mynegi'r system, a chyd-ddatblygu a diffinio nodau a blaenoriaethau a rennir.

Mae arweinwyr rhanbarthol y WSA wedi gwneud cyfraniad hanfodol at gyflwyno ac ymwreiddio theori ac ymarfer systemau, ac at annog meithrin dealltwriaeth ac ymrwymiad ymhlith rhanddeiliaid perthnasol y system. Cytunodd arweinwyr rhanbarthol y WSA fod y gwaith meithrin cysylltiadau hwn yn allweddol i newid systemau ond ei fod yn cymryd amser ac nid yw bob amser yn llinol, ac nad oes un ateb sy'n addas i bawb.

“Y peth mwyaf y gallwn ni ei gael yw caniatâd i gael amser i feithrin y cysylltiadau hynny. Gallai taith i ardal yn ein rhanbarth gymryd un i ddwy awr i gyrraedd yno am gyfarfod sy'n para awr, ond mae hynny'n bwysig iawn i feithrin ymddiriedaeth a chysylltiadau gyda'r partneriaid a'r rhanddeiliaid hynny. Felly mae bron yn golygu cael y caniatâd a buddsoddi amser i wneud hynny a deall efallai na fydd hyn yn talu ar ei ganfed ar unwaith. Felly rydyn ni'n gweld manteision sylfeini a osodwyd gennym dair blynedd yn ôl. Dyna'r math o amser rydyn ni'n siarad amdano.”

4.2.2 Heriau mewn lleoliadau lleol

Er bod cynnydd cadarnhaol wedi'i wneud, mae pob rhanbarth Bwrdd Iechyd wedi profi rhai heriau o ran adeiladu cydnabyddiaeth a dealltwriaeth ymhlith y rhanddeiliaid allweddol sydd â chyfraniad i'w wneud. Wrth i ranbarthau symud tuag at gymryd mwy o gamau sy'n gysylltiedig â'r WSAHW, mae'r angen i gynyddu ymrwymiad wedi dod yn fwyfwy amlwg er mwyn osgoi'r risg o berchnogaeth gyfyngedig ar y cyd o'r rhaglen neu'r mewnbwn. Disgrifir yr heriau sy'n cyfrannu isod.

Ysgogiadau i sicrhau ymrwymiad strategol ac ymrwymiad gan uwch randdeiliaid

Prin iawn yw'r ysgogiadau ffurfiol i arweinwyr y WSA dynnu arnynt i ymgysylltu â rhanddeiliaid ehangach perthnasol, felly mae dylanwad personol a chysylltiadau wedi gwneud cyfraniad pwysig. Pan fydd trosiant staff wedi digwydd, mae cynnydd weithiau wedi arafu, ac mae cysylltiadau dibynadwy wedi gorfod cael eu hailadeiladu.

Ar ben hynny, tynnodd rhanddeiliaid yr ymgynghorwyd â nhw sylw at gyfyngiadau o ran capasiti a lefel arweinwyr y WSA, yn enwedig mewn perthynas â dylanwadu ar randdeiliaid ehangach y system a grwpiau strategol. Yn ôl y sôn, roedd cyfranogiad a chefnogaeth Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd yn y maes hwn yn amrywio yn ôl rhanbarth Bwrdd Iechyd, yn dibynnu ar eu gallu a'u dealltwriaeth a'u hymrwymiad i'r rhaglen WSAHW.

Un eithriad oedd yr awgrym gan randdeiliaid lleol ym Myrddau Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a Hywel Dda bod ffocws diweddar ar fwyd mewn perthynas â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi helpu i sicrhau cefnogaeth y BGC, gan fod BGCau yn adrodd ar gyflawni blaenoriaethau'r Ddeddf.

Blaenoriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd a chapasiti

“Rwy'n credu weithiau bod yna bobl sy'n deall ac eisiau gwneud hynny ond mae llawer iawn o bwysau ar draws y GIG a'r sector cyhoeddus ar hyn o bryd. Felly i lawer o bobl, os oes ganddyn nhw eu swyddi o ddydd i ddydd a blaenoriaethau sefydliadol, gall fod yn anodd eu cael nhw i feddwl am hyn yn y tymor hwy os yw eu cyllidebau'n cael eu torri a gwasanaethau'n cael eu hymestyn. Mae'n golygu ceisio cael hyn yn ddigon uchel i fyny'r agenda a chystadlu â blaenoriaethau mwy aciwt efallai hefyd. Rwy'n meddwl bod yna her wedi bod.”

Roedd capasiti rhanddeiliaid ehangach y system, neu agendâu lleol sy'n cystadlu â'i gilydd, yn rhwystr i gynnal cyfranogiad a datblygu strwythurau llywodraethu cadarn naill ai y tu mewn neu y tu allan i bartneriaethau strategol allweddol megis BGCau neu Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol (BPRhau). (Gweler astudiaeth achos BIP Aneurin Bevan yn yr Atodiad.) Roedd hyn yn golygu bod arweinwyr rhanbarthol y WSA wedi cael trafferth bodloni canllawiau'r WSAHW ar lywodraethu, sy'n effeithio ar eu gallu i ddylanwadu ar randdeiliaid, yn enwedig ar lefel uwch:

“At a local level decision need to be made about the basic governance of the local project. For example, identifying whether a local strategic partnership such as the PSB or the RPB will take responsibility and ownership of the work. Gaining that initial commitment and raising awareness with key local strategic partners is important. This stage is then revisited periodically to maintain engagement and ensure that this awareness and commitment continues.”

WSA Guide Overview, t10

Mae agendâu sy'n cystadlu â'i gilydd o fewn rhanbarthau Byrddau Iechyd a thimau iechyd cyhoeddus lle mae arweinwyr y WSA wedi'u lleoli hefyd yn her, yn enwedig lle mae pwysau o fewn rhanbarthau Byrddau Iechyd i gefnogi gwaith llwybr rheoli pwysau neu lle mae uwch arweinwyr Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo llai i waith systemau. Cafodd rhai arweinwyr y WSA eu tynnu i mewn i waith llwybr pwysau iach y timau iechyd cyhoeddus yr oeddent wedi'u lleoli ynddynt, sy'n golygu nad oedd clustnodi eu rolau ar gyfer y WSA bob amser yn cael ei barchu yn ymarferol.

“Roedd lefel ymgysylltiad rhanddeiliaid, ar y dechrau, ar y lefel strategol. Felly, os darllenwch chi'r dogfennau yn y canllaw fe welwch chi fod mapio rhanddeiliaid strategol, mapio partneriaeth strategol, digwyddiadau ymgysylltu strategol, ac roedd hi hefyd yn anodd iawn i ni gyrraedd y mathau hynny o bobl os nad oedd y bobl strategol yn ein sefydliad ein hunain wedi ymrwymo i hynny.”

Dealltwriaeth a disgwyliadau o waith newid systemau

Un o brif themâu'r rhaglen yw'r gwahaniaeth rhwng ffyrdd traddodiadol o weithio a natur hirdymor, aflinol newid systemau.

Mae hyn yn nodwedd o'r holl waith newid systemau, ond yn ymarferol mae'n creu heriau o ran cyflwyno rhanddeiliaid ehangach perthnasol sydd wedi'u hymwreiddio mewn dulliau mwy traddodiadol o gynllunio, cyflawni a monitro newid yn y sector cyhoeddus. Yn ymarferol, mae arweinwyr y WSA wedi profi pwysau i ddangos canlyniadau cyflymach a mwy rhagweladwy nag y gall dulliau newid systemau eu haddo yn gyffredinol.

“Mae'n ymwneud â sut rydyn ni'n fframio beth yw hyn a beth yw'r pethau y gellir eu cyflawni. Felly mae'r ffaith nad yw'r WSAHW yn cyflwyno naratif o weithgarwch ac ansawdd yn heriol gan fod y peiriant wedi'i sefydlu i ganolbwyntio ar wneud pethau, olrhain, ac mae hyn yn hollol wahanol.”

Yn ogystal â ffordd wahanol o weithio, mae theori sylfaenol newid systemau yn fwy newydd i rai partneriaid system ac mae gwahanol ddealltwriaeth ac ysgolion o feddwl nad ydynt bob amser yn cyd-fynd â'i gilydd.

Yn ogystal, dywedodd rhanddeiliaid lleol nad yw perthynas y rhaglen â mentrau eraill sy'n seiliedig ar leoedd sy'n ymwneud â phenderfynyddion iechyd ehangach, yn enwedig Llundain Lleoedd, bob amser wedi bod yn glir i rhanddeiliaid ehangach, gan arwain at ddryswch ynghylch a ddylent ymgysylltu â'r naill neu'r llall, neu'r ddau.

“Penderfynodd Gwynedd ac Ynys Môn (BGCJ) i beidio â chymryd rhan yn y rhaglen Llundain Lleoedd oherwydd nad oeddent nhw'n teimlo bod eu gwaith system gyfan yn cael ei gyflawni drwy'r trywydd gwaith hwn.”

4.2.3 Cynnydd wrth feithrin cydnabyddiaeth, dealltwriaeth ac ymgysylltiad

Er gwaethaf heriau a chynnydd tameidiog, ar draws holl ranbarthau'r Byrddau Iechyd mae rhanddeiliaid lleol yn gweld cynnydd clir wrth adeiladu cydnabyddiaeth, dealltwriaeth ac ymgysylltiad â'r WSAHW. Mae arweinwyr y WSA wedi gwneud cyfraniad allweddol at ehangu rhwydweithiau lleol a dod â phartneriaid i mewn i'r sgwrs, gyda sawl rhanbarth yn adrodd ymwybyddiaeth gynyddol o egwyddorion a gwerth gwaith systemau ac, mewn rhai achosion, ymdeimlad ehangach o'u potensial i gyfrannu.

Cynnydd wrth sicrhau ymrwymiad strategol, amlasiantaethol

Yn fwy diweddar, mae arweinwyr y WSA wedi cydgyfeirio o amgylch targedu ymrwymiad gan BGCau, sy'n cael eu hystyried yn gyrrff cydgyfeirio hanfodol oherwydd eu haelodaeth a'u dylanwad traws-sector, a'u maint mewn perthynas â rhanbarthau Byrddau Iechyd. Yn gyffredinol, mae cael cydnabyddiaeth a chymeradwyaeth ar y lefel hon wedi bod yn broses anodd, gan gynnwys deialog barhaus ac arddangos aliniad y WSAHW â blaenoriaethau lleol.

Mewn sawl rhanbarth, mae ymgysylltu â BGCau wedi symud ymlaen y tu hwnt i ddiddordeb i ymrwymadau pendant, megis cynnwys pwysau iach yn y rhan fwyaf o gynlluniau strategol BGCau (gweler Adran 4.3 isod), sefydlu is-grwpiau neu drefniadau adrodd ffurfiol. Lle mae aliniad BGCau yn parhau i fod yn gyfyngedig, mae arweinwyr rhanbarthol y WSA yn parhau i fuddsoddi amser ac egni yn y broses o feithrin cysylltiadau.

4.2.4 Ffactorau ategol a galluogwyr

Alinio ag agendâu ehangach partneriaid

Mae deall ac alinio ag agendâu partneriaid allanol yn un dull allweddol sydd wedi bod o fudd i arweinwyr y WSA. Neilltuwyd amser ganddynt i ddeall blaenoriaethau BGCau a chyrrff allweddol eraill, gan ailfframio'r WSAHW yn aml fel rhan o agenda iechyd a llesiant ehangach. Mae'r cynnydd ym Myrddau Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a Hywel Dda, a ddisgrifir yn yr astudiaeth achos yn yr Atodiad, yn dangos hyn yn glir.

“Bydd sut rydyn ni'n ei fframio yn wahanol yn dibynnu ar bwy rydyn ni'n siarad â nhw.”

“Dydw i ddim yn meddwl y gallwch chi gymryd rhywbeth i mewn i fannau partneriaeth a bod yn eithaf anhyblyg a dweud, “Rydyn ni'n gwneud hyn ac rydyn ni'n ei wneud fel hyn,” oherwydd efallai na fydden ni wedi cyrraedd mor bell ag y gwnaethom ni. Mae'n rhaid i chi weithio gyda phobl ac ymwreiddio eich hun yn araf”

Mae hyn wedi profi'n effeithiol o ystyried sbardunau cymhleth ac amrywiol pwysau iach ac wedi helpu i leoli'r WSAHW fel mecanwaith ar gyfer cyflawni a chynyddu canlyniadau lleol presennol yn hytrach na menter ychwanegol. Pan fu

agendâu partneriaid allanol yn llai clir (er enghraifft, os nad yw cynlluniau BGC yn cael eu cyhoeddi), bu'n fwy heriol i arweinwyr y WSA 'werthu' y rhaglen iddynt.

Darparu 'atebion sydyn' i adeiladu ymddiriedaeth a chynnal ymrwymiad

“Rydyn ni ar ddechrau ein taith yn gweithio gyda'r partneriaid lle mae'r drysau ar agor neu hanner ar agor ac yna rydyn ni'n defnyddio'r momentwm hwnnw i ddechrau curo ar y drysau sydd ar gau.”

Yn ymarferol, mae'r rhan fwyaf o arweinwyr rhanbarthol y WSA wedi cefnogi rhai 'atebion cyflym', nid yn lle newid hirdymor ond fel strategaeth i gynnal momentwm a diddordeb partneriaid. Nid yw hyn o reidrwydd yn annisgwyl mewn gwaith systemau cymhleth, ac mae proses gyflawni addasol sy'n bachu ar gyfleoedd – megis trosoli mabwysiadwyr cynnar a manteisio ar fomentwm lleol – wedi bod yn ddull pragmatig.

“Weithiau mae'n rhaid i chi ei wneud er mwyn ennill a chynnal yr ymddiriedaeth honno. Dydy'ch partneriaid chi ddim yn mynd i barhau i ddod i weithdai os nad ydyn nhw'n gweld bod unrhyw werth iddyn nhw neu os na allan nhw weld unrhyw beth yn digwydd, o fewn y chwe mis nesaf heb sôn am ymhen 10 mlynedd.”

Mewn un enghraifft, helpodd BIP Betsi Cadwaladr dimau arlwy'o'r Bwrdd Iechyd i ailgynllunio eu bwydlenni a datblygu canllawiau arferion gorau ar gyfer eu peiriannau gwerthu bwyd. Cafodd hyn ei werthfawrogi'n fawr ac agorodd y drws i drafodaethau mwy strategol am eu polisïau – gweler yr astudiaeth achos yn Atodiad am ragor o wybodaeth.

Dylanwad 'hyrwyddwyr' y WSAHW

Mae arweinwyr rhanbarthol y WSA wedi elwa ar 'hyrwyddwyr' y gwaith, megis uwch staff iechyd y cyhoedd neu unigolion allweddol mewn sefydliadau neu fforymau allanol. Mae'r unigolion hyn wedi hwyluso ymrwymiad ehangach drwy eirioli dros y WSAHW ac wedi gwneud cyfraniad pwysig tuag at symud rhanbarthau tuag at ymgysylltiad mwy parhaus drwy strwythurau llywodraethu'r WSAHW a/neu ymrwymiad mewn cynlluniau a strategaethau.

Roedd y ffaith bod gwerth yr 'hyrwyddwyr' hyn yn ddigon uchel i allu dylanwadu ar y system yn thema gyffredin. Mewn rhanbarthau lle mae hyn yn wir, fel Caerdydd a'r Fro (sydd hefyd wedi elwa ar ddechrau eu dull systemau flynyddoedd ynghynt), mae'r effaith wedi bod yn sylweddol o ran gwella hygyrdded a galluogi mynediad at benderfynwyr ar y lefel gywir.

“Mae gennym ni'r aliniad hwnnw a fydd yn ein helpu ni wrth symud ymlaen. Mae gennym ni grŵp newid newydd a fydd yn bwydo'n uniongyrchol i'r BGC, y mae ei ffocws ar ddadffocio heriau sy'n systemig. Nid yw'n hawdd ceisio dod â'r holl bethau hynny at ei gilydd.”

Tynnu ar ddata a thystiolaeth

Yn olaf, roedd enghreifftiau o arweinwyr y WSA yn defnyddio data i gyflwyno'r achos dros y rhaglen i randdeiliaid ehangach, fel rhan o naratif y system, er enghraifft, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys wrth ddylanwadu ar eu BGC. Yn fwy eang, mae gwerthu'r WSAHW fel dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth gyda model clir ar gyfer newid systemau wedi helpu rhai arweinwyr y WSA i gyflwyno rhanddeiliaid perthnasol (gweler Adran 3.4.3).

4.3 Camau gweithredu'r system, cynlluniau, ac aliniad y system

4.3.1 Sbarduno camau gweithredu'r system

Rhoi camau gweithredu ar waith a pharhau i gryfhau gwaith sylfaenol

Yn y rhan fwyaf o ranbarthau Byrddau Iechyd, mae gwaith bellach yn mynd rhagddo o ran cynllunio a chyflawni camau gweithredu i sicrhau newid systemau, ond mae amrywiaeth o hyd yn natur a chyflymder y gweithgarwch hwn. Mae'r rhan fwyaf o arweinwyr rhanbarthol y WSA wedi:

- Nodi is-systemau blaenoriaeth.
- Cychwyn camau gweithredu sy'n cyd-fynd â chapasiti a chyd-destun lleol.
- Parhau i fyfrio ac addasu, yn seiliedig ar adborth ar y system a chyfleoedd sy'n codi.

Mae gwneud hynny wedi pwysleisio ymhellach yr angen am gysylltiadau sylfaenol cryf gyda phartneriaid system, gan bwysleisio rhai o lwyddiannau a heriau cyfnodau cynharach. Mae hyn weithiau wedi golygu adnewyddu ymrwymiad o'r newydd i wneud y gorau o fewnbwn neu gydberchnogaeth.

Mae rhanbarthau wedi dechrau datblygu ystod o gamau gweithredu a chyflawniadau sydd wedi deillio i raddau helaeth o strwythur ac ysgogiad y rhaglen WSA.

Mae'r camau gweithredu'n amrywio ychydig o ran cwrpas, maint a gwelededd ond mae camau gweithredu cyffredin yn cynnwys: cyfrannu at benderfyniadau cynllunio ynghylch rheoliadau cludfwyd poeth a dylanwadu ar bolisïau lleoliadau, er enghraifft, ynghylch arferion bwyd iach mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar, polisïau ynghylch arlwyio mewn ysbytai lleol a lleoliadau iechyd eraill neu ddylanwadu ar bolisïau bwydo ar y fron mewn lleoliadau awdurdodau lleol.

Mae enghreifftiau eraill yn cynnwys: dylanwadu ar hysbysebu bwydydd sy'n cynnwys llawer o fraster, halen neu siwgr (HFSS) mewn lleoliadau awdurdodau lleol (gweler astudiaeth achos Caerdydd a'r Fro yn Atodiad) a hyfforddi landlordiaid cymdeithasol yn y WSAHW a gwerthfawrogi ymholiad i gefnogi syniadau trigolion ynghylch pwysau iach (gweler astudiaeth achos Cwm Taf Morgannwg yn Atodiad).

4.3.2 Cyflwyno camau gweithredu ar wahanol lefelau

Er bod cynnydd gyda chatau gweithredu wedi'i werthfawrogi, roedd rhanddeiliaid lleol a chenedlaethol yn teimlo bod tensiwn ynghylch cyflwyno camau gweithredu ar y lefel gywir i ddylanwadu ar newid i is-systemau blaenoriaeth fel y bwriadwyd.

"Mae [offer systemau] wedi bod yn eithaf defnyddiol i gael pobl i ddatblygu rhyw fath o ddealltwriaeth ddyfnach o'r hyn a fydd yn arwain at newid cynaliadwy o fewn system. Fodd bynnag, mae'n anodd iawn aros am funud oherwydd bod pobl eisiau mynd ati i wneud rhywbeth. Roedd pobl yn arfer ei alw'n effaith tân gwyllt. Y prosiectau hynny sydd fel tân gwyllt, ac y gallech chi gael gwres cynnes braf ohonyn nhw ac yna fe fydden nhw'n llosgi'n ddim ac rydych chi'n troi i chwilio am yr un nesaf."

Mae'r heriau ynghylch ymrwymiad, capasiti, disgwyliadau ac arbenigedd newid systemau ymhlith partneriaid (gweler Adran 4.2.2 uchod) yn golygu bod arweinwyr y WSA wedi ceisio symud y deial yn raddol tuag at fwy o gamau gweithredu ar lefel system (yn hytrach na newidiadau wedi'u targedu at leoliadau neu grwpiau poblogaeth penodol), ond nid yw hyn bob amser wedi bod yn bosibl ar unwaith. O ganlyniad, mae rhai camau gweithredu wedi'u seilio ar fodelau mwy traddodiadol sy'n seiliedig ar bartneriaeth.

"Er bod pethau da yn digwydd, mae'n anodd gweld weithiau sut mae'r meddwl trwy systemau wedi eu cael nhw yno."

Un ffactor yw'r ymdeimlad bod partneriaid system wedi bod eisiau gweld arweinwyr y WSA yn cyflawni camau pendant i ddatblygu hyder yn yr arweinwyr.⁹ Mae ceisio trosglwyddo'n raddol allan o'r dull hwn o gyflawni tuag at gamau gweithredu mwy 'i fyny'r afon' ar y system wedi arwain llawer o arweinwyr y WSA i ailystyried strwythurau cynllunio camau gweithredu a llywodraethu mwy ffurfiol i alluogi hyn.

"Rwy'n credu y bydd llawer o uwch arweinwyr yn ei chael hi'n anodd symud y tu hwnt i'r camau hynny ar lefel digwyddiad. Felly efallai y byddwn ni'n cael partneriaid yn datblygu cynlluniau gweithredu y credant sy'n gweithio mewn ffordd system gyfan, ond mewn gwirionedd rydyn ni'n gwybod nad ydyn nhw'n symud i'r mathau hynny o gredoau a nodau system. Ac rwy'n credu y gall hynny fod yn her."

"Roedd y pwysau hwnnw gan ein bwrdd iechyd yn dweud 'Ble mae eich cynllun gweithredu? Beth ydych chi'n ei wneud? Beth nesaf?' Felly roedd rhaid i mi gael trefn ar ein cynllun cyflawni strategol a sefydlu'r grŵp llywio system gyfan [...] Mae'n teimlo fel petaen ni'n gwneud llawer mwy o weithredu a chyflawni, ein hanhawster nawr yw

⁹ Gweler Adran 4.2.4 am drafodaeth ar sut mae'r 'atebion cyflym' hyn wedi helpu i gadw diddordeb rhai rhanddeiliaid.

sicrhau ein bod ni'n cadw'r camau hynny ar lefel system ac nid ar lefel ymyrraeth yn unig. Ond ar gyfer rhywfaint o'r gwaith mae wedi bod ychydig yn dactegol mewn gwirionedd o ran cadw'r BGC yn hapus a byrddau lleol yn hapus."

4.3.3 Rôl cynllunio gweithredu

Ar ôl adeiladu ymrwymiad ehangach rhanddeiliaid a thynhau'r ffocws ar is-systemau blaenoriaeth drwy broses a oedd yn cynnwys rhai 'atebion cyflym', mae llawer o ranbarthau bellach yn barod i ddychwelyd at gynllunio gweithredu mwy ffurfiol gyda'r bwriad o gynnwys ymrwymadau a chyfrifoldebau ar gyfer rhanddeiliaid ehangach y system.

Roedd yn anodd i arweinwyr y WSA ddatblygu cynlluniau gweithredu mwy manwl ac uchelgeisiol gyda phartneriaid system yn gynharach yn y rhaglen, oherwydd yr heriau o gael yr holl rhanddeiliaid perthnasol i ymrwmo i strwythur llywodraethu ar gyfer y WSAHW. Mae hyn yn cyd-fynd â dyluniad y dull 9 cam (cynllunio gweithredu yng Ngham 7), sy'n adlewyrchu pwysigrwydd gosod y sylfaen a chael yr ymrwymiad angenrheidiol i sefydlu cynllunio gweithredu fel ei fod yn llwyddo a datblygu'r mecanweithiau ar gyfer camau gweithredu i'w cynnal yn y system.

"Yr her yw symud o ddiffinio problem i gyflwyno ateb. [...] Er y gall yr adroddiad blynyddol gynnwys rhai geiriau, mae cysylltu â'r bwriad, y gwaith gwirioneddol o gyflawni o ddydd i ddydd, yn cymryd ychydig o waith gan ganolbwyntio ar newid sefydliadol, datblygu capasiti, mecanweithiau atebolrwydd, mecanweithiau adrodd, ei gynnwys mewn disgrifiadau swyddi, a chynlluniau gwaith tîm."

"Felly, mae fel bod angen i ni gael lens eithaf cryf o ran sut rydyn ni'n hidlo, nawr bod gennym ni'r ymrwymiad lefel uchel a'r camau gweithredu lefel uchel. Mae angen ffordd wirioneddol gryf a systematig o droi hynny'n gamau gweithredu effeithiol y gellir eu cyflawni ar gyfer y bartneriaeth."

Canolbwynt allweddol ar gyfer holl arweinwyr rhanbarthol y WSA nawr yw dylanwadu ar gynlluniau system i allu ffurfioli ymrwymiad partneriaid a gosod y sylfaen ar gyfer cyfranogiad ystyrion mewn cynllunio gweithredu ar y cyd.

4.3.4 Dylanwadu ar gynlluniau ehangach y system

Mae llawer o arweinwyr rhanbarthol y WSA wedi gweithio ar sicrhau ymrwymiad strategol ac ar ddylanwadu ar y system ehangach drwy strategaethau BGCau neu gynlluniau datblygu lleol. I wneud hynny, mae arweinwyr y WSA yn aml wedi camu'n ôl o ffocws ar ordewdra yn benodol, gan dynnu ar agendâu ehangach ynghylch iechyd, ffordd o fyw a'r amgylchedd.

"Roeddwn i'n gweithio tuag at gynllun gweithredu ond rydw i wedi newid a nawr rwy'n ei fframio fel fframwaith ar gyfer gweithredu. Mae hyn yn fwy am adeiladu mudiad dros newid a'r hyn rydw i wedi bod yn canolbwyntio arno yw gweledigaeth a chael aliniad rhwng pobl o amgylch y bwrdd am weledigaeth gyffredin am 15 mlynedd ar gyfer"

ein thema flaenoriaeth, ac yna edrych ar y math o aliniad o amgylch amcanion allweddol. Mae hwn yn fwy o fframwaith ysbrydoledig y gallan nhw alinio ag ef ar gyfer gweithredu a'r syniad y tu ôl iddo yw ei fod yn newid yn rheolaidd.”

Mae i ba raddau mae cynlluniau'r BGC yn adlewyrchu'r WSAHW hefyd yn amrywio, er bod blaenoriaethau a chymau gweithredu sy'n ymwneud â chynhyrchu bwyd iach, cynnal ffyrdd o fyw egniol a chynyddu hygyrchedd bwyd iach ac opsiynau teithio llesol yn ymddangos ym mhob Cynllun Llesiant BGC ar gyfer 2023-2028, fel y gwelir yn Ffigur 6 isod.

Ffigur 6: Trosolwg o'r sôn am bynciau sy'n berthnasol i'r WSA yng Nghynlluniau Llesiant BGC ar gyfer 2023-2028

Bwrdd Iechyd	BGC	Trosolwg o'r Cynllun Pwysau Iach	Termau Allweddol				
			System gyfan	Bwyd iach	Trafnidiaet/teithio iach	Gweithgarwch corfforol	Gordewdra ymhlith plant
BIP Aneurin Bevan	Gwent	Yr unig gyfeiriad at fwyd iach yw drwy gefnogi cynhyrchu bwyd yn lleol. Dim cyfeiriad at HWHW.	X	✓	X	X	X
BIP Betsi Cadwaladr	Gwynedd a Môn	Mae'r BGC yn sôn am hyrwyddo strategaethau i gefnogi plant a theuluoedd i gynnal pwysau iach. Maent yn cyfeirio at bryderon a godwyd yn Asesiad Llesiant 2022 am y lefel uchel o ordewdra mewn plant 4-5 oed.	X	X	X	X	✓
	Sir y Fflint a Wrecsam	Mae'r camau gweithredu'n cynnwys cefnogi rhaglen Pwysau Iach gymunedol i blant a phobl ifanc, cynyddu teithio llesol a datblygu rhaglen i sicrhau bod bwyd iach yn fforddiadwy ac yn hygyrch.	✓	✓	✓	X	X
	Siroedd Conwy a Dinbych	BGC i gefnogi cynlluniau teithio iach a grwpiau cymunedol sy'n cefnogi ffyrdd iach o fyw. Dim cyfeiriad uniongyrchol at HWHW.	X	X	✓	X	X
BIP Caerdydd a'r Fro	Caerdydd	Mae Cynllun Symud Mwy Bwyta'n Dda yn flaenoriaeth allweddol i hyrwyddo pwysau iach, gyda chynigion i fesur gwahanol ganlyniadau sy'n ymwneud â phwysau iach mewn plant, oedolion sy'n byw mewn amddifadedd ac oedolion dros 65 oed. Cyfeirir at bwysau iach sawl gwaith yn y cynllun mewn perthynas â'r strategaeth HWHW genedlaethol.	✓	✓	✓	✓	X
	Bro Morgannwg	Mae Bro fwy egniol ac iach yn amcan allweddol ac mae'r cynllun Symud Mwy Bwyta'n Dda wedi'i nodi fel maes gwaith i gyflawni hyn.	✓	✓	✓	✓	X
BIP Cwm Taf Morgannwg		Cynllun hirdymor i weithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru i greu amgylcheddau iach a theithio llesol. HWHW wedi'i restru fel cyswllt allweddol ar gyfer y broses gyflawni.	✓	✓	✓	✓	X
BIA Powys		Mae cymryd agwedd system gyfan at bwysau iach wedi'i restru fel cam wedi'i gynllunio i gyflawni amcanion llesiant. Cyd-destun wedi'i roi ar bwysau iach yn yr ardal a sut y maent yn bwriadu gwella pwysau iach. Nodwyd cynnydd mewn cyffredinrwydd problemau (gan gynnwys diabetes math 2) mewn plant a phobl ifanc. Aliniad clir i'r cynllun HWHW.	✓	✓	✓	✓	✓
BIP Bae Abertawe	Abertawe	Cyfeiriad at ffordd iach o fyw a dewisiadau iach ond dim manylion pellach am HWHW. Teithio llesol yn ffocws drwy flaenoriaethau amgylcheddol. Cyfeirir at ddull system gyfan yn eu hamcan 'Blynnyddoedd Cynnar' gyda'r nod o sicrhau bod plant yn cael y dechrau gorau mewn bywyd, ond nid yw'n ymddangos o ran pwysau iach.	X	X	✓	X	X
	Castell-nedd Port Talbot	Mae BGC yn cyfeirio at deithio llesol mewn perthynas â thrafnidiaeth gynaliadwy. Mae cynlluniau hefyd i fonitro cynnydd drwy ganran y plant dan bump oed sydd ar bwysau iach.	X	✓	✓	X	X
BIP Hywel Dda	Sir Gaerfyrddin	Cydnabod cyffredinrwydd gordewdra ymhlith plant yn yr ardal a rôl y BGC o ran newid agweddau ac ymddygiadau pobl mewn perthynas ag iechyd personol. Ddim yn uniongyrchol gysylltiedig â HWHW.	X	X	X	X	✓
	Ceredigion	Mae'r ffocws ar wella mynediad anghyfartal at fwyd iach a mannau awyr agored ond nid oes aliniad uniongyrchol â'r cynllun HWHW.	X	✓	✓	✓	X
	Sir Benfro	Mae BGC yn nodi y bydd yn cyfrannu at waith ar bwysau iach, bwyta'n iach ac anghydraddoldebau iechyd lle maent yn cysylltu â phrosiectau o fewn y cynllun ac ar gyfer atal, ond nid oes unrhyw fanylion pellach mewn amcanion neu gynlluniau prosiect sy'n ymwneud yn uniongyrchol â HWHW.	X	X	X	X	X

4.4 Cynnydd tuag at aeddfedrwydd y system

Er bod newid systemau yn un o uchelgeisiau hirdymor y WSAHW, mae'n ddefnyddiol nodi camau tuag at ei gyflawni. Mae rhanbarthau Byrddau Iechyd yn gwneud cynnydd graddol tuag at aeddfedrwydd system sy'n gysylltiedig â'r WSAHW, yn enwedig wrth feithrin cysylltiadau, newid meddylfryd tuag at feddwl trwy systemau, a chynhyrchu cyd-ddealltwriaeth o'r broses. Mae cynnydd ar gydberchnogaeth a llywodraethu'r gwaith wedi bod yn arafach ac yn anoddach ei gyflawni.

4.4.1 Cryfhau rhwydweithiau ac ymgysylltu

Thema gyson ar draws rhanbarthau yw datblygu rhwydweithiau cryfach ac ehangach sy'n cyfuno o amgylch y WSAHW. Mae astudiaeth achos Betsi Cadwaladr yn Atodiad yn darparu enghraifft o sut y gall y broses hon edrych yn ymarferol.

Mae arweinwyr y WSA wedi llwyddo i feithrin cysylltiadau newydd ac wedi ymwreiddio cysylltiadau â rhanddeiliaid perthnasol nad oeddent wedi gwneud llawer o gyfraniad, os o gwbl, at waith pwysau iach o'r blaen. Mae'r rhwydweithiau estynedig hyn bellach yn cynnwys rhanddeiliaid o feysydd cynllunio, trafnidiaeth, busnes, y blynyddoedd cynnar a llywodraethu lleol.

Fodd bynnag, mae gwydnwch y rhwydweithiau hyn yn amrywio. Mewn ardaloedd heb strwythurau llywodraethu cadarn neu lle mae pwysau system ehangach wedi tynnu sylw oddi wrth y WSAHW, roedd cysylltiadau'n cael eu hystyried yn fwy agored i niwed a bygythiadau (gweler Adran 4.2.2 am fwy o fanylion).

“Fe wnaethon ni'r gwaith sefydlu ac ymrwymo yn ôl yn 2021 [gyda'r Bwrdd Iechyd a'r BGC] pan oedd gennym ni arweinydd gwahanol. Ond yna fe gawson ni arweinydd newydd. Felly a wnaethon nhw ymrwymo i'r bobl neu a wnaethon nhw ymrwymo i'r rhaglen? Dyna oedd y prawf, ac mae'n cymryd ychydig o amser i bobl ymgyfarwyddo â rôl newydd. Felly rwy'n credu bod yr ymrwymiad wedi dangos i ni fod angen i ni fynd drosto eto.”

4.4.2 Newid meddylfryd ac iaith

Nododd arweinwyr y WSA a rhanddeiliaid lleol gydnabyddiaeth gynyddol ymhlith partneriaid ehangach, fel swyddogion cynllunio, bod ganddynt rôl gyfreithlon wrth lywio amgylcheddau a systemau sy'n cefnogi pwysau iach. Mae hyn wedi helpu rhanddeiliaid mwy perthnasol i fyfyrio ar eu cyfraniad at y system pwysau iach, a sut y gall ddod o dan eu cylch gorchwyl sefydliadol, hyd yn oed yn anuniongyrchol.

“Mae mwy o ymdeimlad o stigma yn gysylltiedig â gordewdra nag sydd yna gyda rhywbeth fel newid hinsawdd. Oherwydd mae gordewdra'n cael ei ystyried yn fater iechyd ac yn fater o reoli personol.”

Mae arwyddion cynnar o newid meddylfryd, gyda phartneriaid system yn dechrau cydnabod cymhlethdod cefnogi'r boblogaeth i gyflawni neu gynnal pwysau iach, a'u rôl ynddo. Maent hefyd yn adlewyrchu cysyniadau systemau a dealltwriaeth o'r penderfyniaddion iechyd ehangach yn eu hiaith, y mae rhanddeiliaid lleol yn eu gwerthfawrogi fel arwydd o newid meddylfryd.

4.4.3 Cynnydd cymysg ar gydberchnogaeth a llywodraethu

Mae cynnydd wedi bod yn fwy cyfyngedig o ran sefydlu dull llywodraethu'r WSAHW, cyfranogiad a rennir wrth sbarduno'r ymateb, a dysgu, myfyrio a mireinio. Yn arbennig:

- Mae sefydlu strwythurau llywodraethu ar gyfer y WSAHW yn parhau i fod yn waith sydd ar y gweill mewn sawl rhanbarth, lle mae trefniadau ffurfiol i gefnogi gwneud penderfyniadau ar y cyd ac atebolrwydd yn dal i gael eu datblygu neu eu hymwreiddio.
- Mae perchnogaeth camau gweithredu yn aml yn aros gydag arweinydd y WSA, gyda phartneriaid system ehangach yn dangos cydgyfrifoldeb - neu ymrwymiad cyson - cyfyngedig o ran sbarduno neu gyflawni camau gweithredu.

4.4.4 Meincnodi yn erbyn Matrics Aeddfedrwydd System

Cyflwynwyd y System Aeddfedrwydd System (crynodeb yn Ffigur 7) i helpu i fyfyrion ar gynnydd (gweler Adran 1.2) ond, fel graddfa hunan-raddedig, oddrychol y bydd gan bob rhanbarth Bwrdd Iechyd fan cychwyn gwahanol arni, mae ganddi gyfyngiadau ar gyfer darparu cymhariaeth ar draws y rhaglen gyfan. Serch hynny, mae'n darparu carreg gyffwrdd ddefnyddiol i arweinwyr rhanbarthol y WSA fyfyrion ar eu 'haeddfedrwydd system (er nad yw'r sgoriau bob amser yn adlewyrchu'r llwyddiannau a'r heriau cyffredin a ddaeth i'r amlwg yn sgil ymgynghori ansoddol, a ddisgrifir uchod).

O fewn pob un o'r wyth parth, mae arweinwyr rhanbarthol y WSA yn graddio eu systemau yn erbyn ystod o ddangosyddion o 1 i 5 fel a ganlyn:

1. Heb ddatblygu eto
2. Yn dod i'r amlwg
3. Yn datblygu
4. Yn aeddfedu
5. Yn ffynnu

Ffigur 7: Parthau'r Matrics Aeddfedrwydd System

Arweinyddiaeth gref Strong leadership	Iaith gyson Consistent language	Dealltwriaeth o'r cyd-destun lleol Understanding of local context	Ymgysylltiad Ystyrion Meaningful Engagement
Strwythurau Llywodraethu cadarn Robust Governance structures	Cydnabod bod canlyniadau yn cael eu dylanwadu gan y system Recognition that outcomes are influenced by the system	Dysgu a Myfyrio ac adborth Learning and Reflection and feedback	Mentrau wedi'u gwreiddio Initiatives embedded

Dangosodd sgoriau gwahanol ranbarthau Byrddau Iechyd yn erbyn y Matrics Aeddfedrwydd System yn eu hadroddiadau blynyddol yn 2024 (a welir yn Ffigur 8 isod) fod 'cydnabyddiaeth o ddynmeg system', 'deall cyd-destun lleol', ac 'arweinyddiaeth gref' fel arfer yn cael eu graddio'n uwch na'r parthau eraill.

Ffigur 8: Sgoriau cyfartalog (cymedrig) (1-5) ar draws adroddiadau blynyddol rhanbarthau Byrddau Iechyd gan ddefnyddio'r Matrics Aeddfedrwydd System fel offeryn hunan-fyfyrio

Parth Matrics Aeddfedrwydd System	Sgôr cyfartalog
Arweinyddiaeth gref	3
Iaith gyson	2.3
Deall cyd-destun lleol	2.7
Ymgysylltu ystyrion	2.5
Strwythurau llywodraethu cadarn	2.5
Cydnabod bod canlyniadau'n cael eu dylanwadu gan y system	3.2
Dysgu a myfyrio ac adborth	2.2
Ymwreiddio mentrau o fewn y polisi ehangach	2.3

Mae'n ddiddorol nodi bod rhywfaint o debygrwydd ar draws rhanbarthau Byrddau Iechyd lle roedd parthau'n aeddfedu fwyaf. Ac eithrio 'iaith gyson', 'ymwreiddio mentrau o fewn y polisi ehangach', ac 'ymgysylltu ystyrion', cafodd y rhan fwyaf o feysydd sgoriau tebyg ar draws y byrddau iechyd h.y. dim ond dau fynegai oddi wrth ei gilydd oedd y sgoriau uchaf ac isaf.

5 Dysgu a'r camau nesaf

5.1 Prif negeseuon

- Ystyriwyd bod y gwerthusiad hwn yn amserol, gan gynnig cyfle i fyfrio ar lwyddiannau'r rhaglen hyd yma a heriau ar gyfer y dyfodol. Mae'r WSAHW yn symud ymlaen i fod yn fwy o 'gam gweithredu' a gall hynny olygu bod angen rhai addasiadau a diwygiadau i'r dyluniad presennol. Canfu'r gwerthusiad hefyd gefnogaeth gref i egwyddorion WSA gan randdeiliaid ar draws rhanbarthau Byrddau Iechyd a lefelau system.
- Cafodd y newid o ffyrdd mwy traddodiadol o weithio i gymhwyso egwyddorion newid systemau ei groesawu a'i gefnogi gan y rhai a oedd yn rhan o'r gwaith, a oedd yn cydnabod nad yw'n broses syml. Mae mynd i'r afael â phwysau nad yw'n iach ar lefel poblogaeth yn heriol a chymhleth, yn enwedig o ystyried blaenoriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd a chyfrifoldebau rhanddeiliaid o ddydd i ddydd, a gorgyffwrdd posibl â dulliau neu raglenni presennol, a rôl ffactorau dyfnach, nad ydynt yn lleol ar bwysau'r corff.
- O ystyried y cyd-destun hwn, mae'n bwysig bod yn realistig ynghylch maint y 'newid systemau' y gall rhaglen o'r fath ei gyflawni yng ngoleuni'r adnoddau sydd ar gael, sffêr dylanwad y Byrddau Iechyd a phwysau ar gyllid ac agendâu'r sector cyhoeddus.
- Gan symud tuag at weithredu a dylanwadu ar strategaeth, nododd rhanddeiliaid y cyfle i gysylltu ac alinio ymdrechion lleol, rhanbarthol a chenedlaethol yn well ynghylch pwysau iach a newid systemau.
- Mewn ymateb i ganfyddiadau'r gwerthusiad hwn, darperir rhai argymhellion (Ffigur 9) ar gyfer newidiadau strategol ac ar lefel rhaglen.

5.2 Trosolwg

Cafodd ystod o wersi a myfyrdodau eu rhannu gan randdeiliaid yr ymgynghorwyd â nhw fel rhan o'r gwerthusiad, ac fe'u trafodir isod. Tynnwyd y rhain yn bennaf o atebion i gwestiynau ymchwil a osodwyd ymlaen llaw, ond cawsant eu datblygu a'u gwirio o ran synnwyr gyda rhanddeiliaid cenedlaethol a lleol. Maent yn llywio'r argymhellion yn Adran 5.5.

Mae'r dysgu yn adlewyrchu natur arloesol sy'n torri tir newydd y WSAHW ynghyd â llawer o densiynau, heriau a chyfleoedd cynhenid newid systemau (gweler Adran 2), ac fe'i croesawyd fel rhan o'r broses o gryfhau'r rhaglen.

Fel cyd-destun i'r dysgu hwn, cefnogodd rhanddeiliaid yr ymgynghorwyd â nhw fod y rhaglen yn darparu mandad i fynd i'r afael â ffactorau yn y 'system' sy'n effeithio ar bwysau iach, hyd yn oed yn anuniongyrchol. Cafodd y newid o ffyrdd mwy traddodiadol o weithio i gynhyrchu newid systemau ei ganmol hefyd gan y rhanddeiliaid yr ymgynghorwyd â nhw, a gydnabu unwaith eto nad yw'r newid hwn mewn dull yn syml.

5.3 Egluro rôl y rhaglen yn y dirwedd ehangach

Ar y cyfan, mae ymrwymiad cryf i ddefnyddio dull systemau ar gyfer pwysau iach a chefnogaeth i'r rhaglen ymhlith y rhai sy'n cymryd rhan. Mae'r WSAHW hefyd wedi helpu i ehangu gwerthfawrogiad o ddulliau systemau a'u perthnasedd i bwysau iach ar draws rhanbarthau Byrddau Iechyd.

Ers dechrau'r WSAHW, mae dulliau systemau yn uwch ar agendâu llawer o sefydliadau'r sector cyhoeddus, yn enwedig ochr yn ochr â strategaethau cenedlaethol Cymru fel Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), sydd wedi helpu i normaleiddio a chefnogi'r dulliau hyn.

“Rwy'n sicr yn teimlo'n lwcus iawn fy mod i'n gweithio ar y rhaglen arloesol hon o waith yng Nghymru. Felly, rwy'n credu ei bod yn iawn ein bod ni'n cydnabod hynny ac yn dathlu hynny. Yn Lloegr, lle mae gennym ni'r cynlluniau peilot system gyfan, maen nhw'n cynhyrchu'r canllawiau ac yna dywedwyd wrth y gweddill ohonon ni i barhau â'r gwaith. Felly, yn y cyd-destun hwn, dylen ni fod yn dathlu ac yn ymfalchïo ein bod yn gweithio yn y lle arloesol hwn ac yn defnyddio dull cenedlaethol. Rydyn ni i gyd yn gweithio'n lleol yn ein byrddau iechyd, ond rydyn ni hefyd yn gweithio gyda'n gilydd fel gwlad fel rhan o'r tîm gweithredu hwnnw, gan gynnwys gyda'r tîm cenedlaethol yn ICC.”

Nododd rhanddeiliaid lleol rywfaint o ddryswch ynghylch sut mae'r rhaglen WSAHW yn cyd-fynd â rhai o'r mentrau cenedlaethol eraill a pha mor effeithiol mae hyn yn cael ei ddeall gan y gwahanol rhanddeiliaid y mae'n ceisio dylanwadu arnynt.

Dyluniwyd y rhaglen i greu hunaniaeth glir ac unigryw wedi'i seilio ar egwyddorion newid systemau i hyrwyddo pwysau iach ar lefel poblogaeth, a'r bwriad oedd i rolau arweinwyr y WSA gael eu clustnodi rhag cael eu tynnu i weithgareddau mwy o ddydd i ddydd ynghylch pwysau iach megis llwybrau rheoli pwysau.

Yn ymarferol, mae angen ymgysylltu â'r gorgyffwrdd ag ymdrechion eraill megis llwybrau rheoli pwysau (yn enwedig gan fod arweinwyr y WSA yn rhan o dimau iechyd cyhoeddus Byrddau Iechyd) a Llunio Lleoedd ar gyfer Llesiant yng Nghymru a lansiwyd yn fwy diweddar – gweler Adran 4.2.2. Mae arweinwyr y WSA wedi teimlo'r awydd i esbonio'n well i rhanddeiliaid perthnasol sut mae'r darnau hyn o waith yn cyd-fynd â'i gilydd, a sut maent yn wahanol, i egluro llwybrau ymgysylltu a chryfhau'r achos dros weithredu. Eu gobaith yw y byddai hyn yn dangos dull cydlynol ar gyfer strategaeth pwysau iach ledled Cymru.

Yn ddiddorol, ymunodd Byrddau Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a Hywel Dda, a ddechreuodd yn hwyrach na rhanbarthau eraill ac sy'n cyflawni'r WSAHW ar y cyd, â Llunio Lleoedd ar gyfer Llesiant yng Nghymru i alinio eu negeseuon yn lleol, er enghraifft, trwy gyflwyno sesiynau hyfforddi ar y cyd ar feddwl trwy systemau i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Yn y trafodaethau ar y cyd hyn â'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, mae arweinwyr y WSA wedi archwilio themâu trawsbynciol ehangach sy'n berthnasol i Llunio Lleoedd ar gyfer Llesiant

yng Nghymru a'r WSAHW, i helpu i ymgysylltu'n effeithiol â'r grŵp strategol allweddol hwn.

5.3.1 Optimeiddio aliniad rhanbarthol-cenedlaethol

Wrth i'r WSAHW symud ymlaen tuag at weithredu a dylanwadu ar strategaeth, tynnodd rhanddeiliaid yr ymgynghorwyd â nhw sylw at bwysigrwydd cysylltu ymdrechion lleol, rhanbarthol a chenedlaethol ynghylch pwysau iach a newid systemau. Yn benodol, roeddent yn awyddus i fanteisio ar y potensial ar gyfer aliniad strategol ag ysgogiadau polisi a deddfwriaethol cenedlaethol.

Mae enghreifftiau'n cynnwys polisiau cynllunio trefol ar lefel genedlaethol sy'n dylanwadu ar apiau cludfwyd a chyfyngiadau ar hysbysebu bwydydd nad ydynt yn iach. Yn yr un modd, gellid pwysleisio a chyfathrebu ymhellach gysylltiadau ledled y wlad rhwng Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a'r WSAHW, y mae arweinwyr cenedlaethol y WSA wedi gweithio i'w cefnogi, i helpu arweinwyr rhanbarthol y WSA i gyflawni gwaith gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn gyflym.

“Mae ein rhanddeiliaid bob amser wedi'u cyfyngu i'r bobl hynny rydyn ni'n eu hadnabod... sydd agosaf atom. Un o sbardunau gorbwysau a gordewdra yw'r sector masnachol. Yn sicr, dydyn nhw ddim yn rhan o unrhyw un o'n sgysiau lleol. Anaml maen nhw yn y sgysiau cenedlaethol. Rwy'n credu bod hynny wedi gwella'n ddiweddar.”

Nod y rhaglen yw bwydo gwersi rhanbarthol i benderfynwyr cenedlaethol a rhoi gwybod i arweinwyr rhanbarthol y WSA am drafodaethau a datblygiadau cenedlaethol. Er bod y swyddogaeth hon wedi gwella rhywfaint dros amser, mynegodd rhanddeiliaid ar lefel genedlaethol a rhanbarthol awydd am fwy o ddeialog a deialog mwy agored i rannu dysgu, ac i ysgogi newidiadau mewn polisi.

“Felly mae cynllunio yn enghraifft berffaith. Pan fyddwn ni'n cyfarfod â thimau cynllunio, maen nhw'n dweud, 'Rydych chi'n gwneud gwaith gwych ond, yn genedlaethol, byddai nodyn cyngor technegol yn ysgogiad cryfach o lawer i'r system na phe baech chi'n datblygu 22 canllaw cynllunio atodol'. Ac rydyn ni'n gweithio ar hynny, ac yn rhoi adborth. Efallai nad ydyn ni'n gweld y cynnydd mor gyflym ag y gallen ni o fewn hynny. Yn amlwg, bydd pethau fel y ddeddfwriaeth amgylchedd bwyd sydd i fod i gael ei chyflwyno dros y blynyddoedd nesaf yn ysgogiad mawr i'r system honno hefyd. Ac ni ddylem ni danseilio pa mor arwyddocaol yw hynny.”

5.3.2 Rôl theori systemau

Datblygwyd y WSAHW a'r broses 9 cam, gan dynnu ar theori a dysgu ynghylch newid systemau ar y pryd, a'u nod oedd darparu fframwaith hyblyg, pragmatig ar gyfer cyflawni. Mae canllawiau ynghylch y broses 9 cam yn cynnwys rhai offer a phrosesau a awgrymir ond nid yw'n nodi iaith neu theori benodol ynghylch newid systemau. Mae gan hyn fanteision o ran caniatáu i arweinwyr y WSA arbrofi gyda'r dull gorau o ymgysylltu â rhanddeiliaid perthnasol yn eu rhanbarth.

Fodd bynnag, awgrymodd sawl rhanddeiliad lleol y byddai'n ddefnyddiol ymhelaethu ar theori ac iaith systemau ar gyfer y rhaglen, er mwyn:

- **Egluro ac uno sefyllfa'r rhaglen.** Yn y blynyddoedd ers i'r rhaglen gael ei chyflwyno, mae theori ac ymarfer systemau wedi esblygu ac mae profiad ymarferol mwy dwfn ac eang ar draws ystod o gyd-destunau. Mae yna hefyd fwy o ddefnydd o derminoleg newid systemau, yn aml yn anghyson, felly gall mwy o aliniad ar draws y rhaglen a chydag ymdrechion cenedlaethol fod yn ddefnyddiol.

“O'r dechrau, doedd gennym ni ddim terminoleg stoc na chytundeb stoc rhyngom ni i gyd ynghylch geiriad y system. Roedd fel hyn, 'Wel, mae'n dibynnu beth sy'n gweddu orau i'ch ardal.' Rwy'n credu y dylen ni wedi bod â dealltwriaeth fwy clir o'r dechrau, a bod y grŵp cyfan yn cytuno.”

“Dydy ein cyfarwyddwr ni yma ddim yn hoffi'r term dull systemau. Ac yn rhannol oherwydd ei fod yn teimlo ei fod yn cyfeirio at y system fel rhanddeiliaid proffesiynol, mewn gwirionedd, yn hytrach na'i fod yn cynnwys y gymuned.”

- **Hysbysu a grymuso arweinwyr y WSA yn well.** Gall ymgorffori mwy o fanylion ar theori/theoriau newid systemau yn y canllawiau rymuso arweinwyr y WSA i ddeall y theori y tu ôl i'r arfer yn well a phenderfynu rhwng dulliau gyda mwy o hyder, yn enwedig ar gyfer arweinwyr y WSA neu ranbarthau Byrddau Iechyd sydd â llai o brofiad ac arbenigedd mewn newid systemau.

“Rwy'n credu bod angen mwy o hyfforddi a mentora ar feddwl trwy systemau yn hytrach na bod popeth yn ymwneud â'r dull gweithredu. Mae yna lawer mwy o ddulliau allan yna doeddwn i ddim hyd yn oed yn gwybod amdany'n nhw, offer a gyflwynwyd i ni, mapio dolen achosol, mapio systemau ac ati. Ond mae cymaint o bethau rwy'n eu rhoi mewn gwahanol rannau o fy ngwaith i nawr. Cyn hynny, roeddwn i'n meddwl mai dim ond cymryd y 9 cam oedd y dull system gyfan.”

- **Cysylltu'r theori â'r weithred o gyflawni,** er enghraifft, gan gynnwys myfyrdodau ar y broses o 'gyflwyno' is-systemau blaenoriaeth neu gamau gweithredu system yn gywir (gweler Adranau 3.4.3 a 4.3.2).

5.3.3 Mynegi maint a chwmpas y rhaglen

Mae'r heriau uchod hyn – cyfuno camau gweithredu rhanbarthol a chenedlaethol, cyfuno'r WSAHW ag ymdrechion tebyg eraill ar lefelau lleol a rhanbarthol, uno rôl theori systemau yn well – gan adeiladu tuag at fyfyrddod cyffredin, gan nifer o randdeiliaid yr ymgynghorwyd â nhw y gallai fod yn werth chweil, yn y pwynt cyflawni hwn, ailystyried ac egluro cwmpas bwriedig y rhaglen a'r math o effaith fwriedig a'i maint.

“Rwy'n credu bod yna ymdrech go iawn gan gyfarwyddwyr iechyd y cyhoedd ar gyfer effaith a chanlyniadau ac allbynnau neu ganlyniadau. Mae hwn yn ddarn o waith hirdymor, felly mae'n eithaf

anodd dangos hynny. Ond mae'n teimlo'n eithaf di-drefn ar hyn o bryd. Ac rwy'n credu bod yna lwybr i effaith, a dydw i ddim yn teimlo bod hynny wedi'i fynegi'n ddigonol."

"Mae yna densiwn sy'n bodoli i ni, yn enwedig ynghylch beth yw'r gwaith rydyn ni yma i'w wneud? Ydyn ni yma i adeiladu capasiti a gallu ar gyfer meddwl trwy systemau a gweithio, neu ydyn ni yma i weithredu o fewn Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus neu beth bynnag?"

Un ffactor yw'r berthynas rhwng yr uchelgeisiau sy'n gysylltiedig â dulliau systemau cyfan a chyrchu adnoddau ar gyfer y rhaglen WSAHW. Roedd rhywfaint o gydnabyddiaeth ymhlith yr holl grwpiau rhanddeiliaid bod capasiti'r arweinwyr cenedlaethol a rhanbarthol braidd yn gyfyngedig ar gyfer y dasg dan sylw, nid yn unig ar gyfer cyflawni mwy 'arferol' ond hefyd ar gyfer 'marchnata' y rhaglen yn ehangach ar lefel llywodraeth genedlaethol ac integreiddio â mentrau eraill.

"Mae'n rhaid i ni fod yn realistig ynglŷn â faint o waith y gall y tîm ei wneud a pha mor gyflym y gellir gwneud y gwaith hwnnw a pha mor effeithiol y gall fod [...] Mae yna anghysondeb enfawr rhwng y meddwl academaidd a'r grym sy'n ei yrru mewn gwirionedd."

"Rwy'n ofni mai'r disgwyliad yw y bydd hyn yn datrys yr argyfwng gordewdra yng Nghymru. Yn hynny o beth, rydyn ni'n paratoi ein hunain i fethu. Mae lle mae'r ddeialog honno'n digwydd, a sut mae hynny'n llywio'r broses gyflawni, yn ddarn coll o'r jig-so."

Gan fyfyrrio ar y ffaith bod llawer o'r ffactorau sy'n sbarduno pwysau'r corff – yn enwedig penderfynyddion iechyd masnachol – yn golygu bod angen gweithredu ar lefel genedlaethol, cwestiynodd rhanddeiliaid lleol pa fath o effaith y dylid ei disgwyl yn realistig ar lefel ranbarthol. Byddai mwy o eglurder ar y pwynt hwn (gan alluogi "brandio" mwy clir ar gyfer y rhaglen) yn cefnogi'r broses gyflawni, yn enwedig o ran cydweithio â phartneriaid system.

"Pan fyddwch chi'n dweud 'Dull System Gyfan', beth mae hynny'n ei olygu? Mae angen iddo fod yn haws i bobl ddeall beth yw'r canlyniadau y gellir eu cyflawni, ac nid yw troi atom ni a dweud 'mae'n gymhleth' yn ddigon da. Os [...] oes rhaid iddyn nhw fynd yn ôl i'r llyfr rheolau i'w ddeall, yna mae'n mynd i mewn i'r 'blwch rhy anodd'. Mae angen mynegi'n well y gwerth i gynulleidfaoedd"

Yn ogystal ag esbonio'r rhaglen yn well i bartneriaid system, gallai'r myfyrdod hwn helpu arweinwyr y WSA i ddeall yn well sut i 'rwympo' eu gwaith o ystyried yr holl ffactorau sy'n dylanwadu ar bwysau'r corff (ac ystod o ganlyniadau eraill). Yn wir, roedd gosod ffiniau'r rhaglen yn cael ei ystyried yn her, gan fod rhai sbardunau pwysau nad yw'n iach yn sbarduno materion cymdeithasol eraill hefyd, a bod angen mynd i'r afael â nhw yn ehangach, ac ar lefel genedlaethol.

"Mae gen i broblemau sylfaenol gyda'r syniad mai dim ond pwysau iach y dylwn i weithio arno. Pam mae angen gwahanu hynny oddi

wrth smygu ac yfed gormod o alcohol a beichiogrwydd yn yr ardegau, gan eu bod nhw i gyd yn cael eu hachosi gan yr un peth. Tyfu i fyny mewn ardal dlawd iawn.”

“Gall dulliau sy'n seiliedig ar leoedd wneud cyfraniad sylweddol iawn. Ai dyma fydd y peth sy'n newid pethau'n sylweddol i'r dyfodol? Na, siŵr o fod ddim, ond weithiau mae'n teimlo fel bod anghysondeb rhwng disgwyliadau ac adnoddau a realiti. Mae'n ymwneud â rhoi'r weledigaeth ar waith o ran sut y gallwn ni ddefnyddio ein hadnoddau. Rydyn ni'n canolbwyntio'n bennaf ar asiantaethau'r sector cyhoeddus.”

Yn wir, roedd yna ymdeimlad nad yw rhai o sbardunau mwyaf pwysau iach fel, er enghraifft, buddiannau masnachol, ac agweddau mwy distal ar y system sy'n gysylltiedig ag anfantais, yn cyfateb i gwmpas ac adnoddau'r WSAHW. Wrth i'r rhaglen fynd yn ei blaen, fodd bynnag, mae lle i drafod cwmpas y system yn y Dull System Gyfan a sut y gallai ystod ehangach o sefydliadau fod yn rhan ohoni.

5.4 Ymgorffori dysgu yn y WSAHW

Wrth i'r rhaglen barhau i aeddfedu, cytunodd rhanddeiliaid yr ymgynghorwyd â nhw ei bod yn bwysig ystyried rôl myfyrio ac addasu. Er enghraifft, gallai canfyddiadau gwerthuso gyflwyno gwerth i'r WSAHW ac ymdrechion tebyg mewn mannau eraill. O ystyried mai dim ond yn gymharol ddiweddar mae dulliau systemau wedi'u rhoi ar waith ar draws gwasanaethau cyhoeddus, a'r ffaith bod y ffordd mae theori systemau yn cael ei roi ar waith yn esblygu'n barhaus, mae pwyso a mesur a myfyrio ar y gwaith hefyd yn bwysig er mwyn osgoi colli gwersi gwerthfawr.

Awgrymodd sawl rhanddeiliad lleol y gellid defnyddio'r canfyddiadau i ailystyried ac addasu'n barhaus agweddau ar ddylunio a chyflwyno'r rhaglen, yn unol ag egwyddorion newid systemau addasol. Roedd y rhain yn tueddu i ganolbwyntio ar fframio ac arwain y broses 9 gam, swyddogaethau monitro a dysgu'r rhaglen a'r diffiniad o leoliad a maint y rhaglen yn nhirwedd ymdrechion Cymru i fynd i'r afael â phwysau iach.

Roedd rhanddeiliaid yn rhannu'r awydd i ddysgu o'r rhaglen hon ac i ddiogelu amser ar gyfer myfyrio'n barhaus – yn wir, roedd diddordeb mawr yng nghanfyddiadau'r gwerthusiad ei hun.

5.5 Argymhellion

Isod mae ein hargymhellion yn seiliedig ar ganfyddiadau'r gwerthusiad a gryfhawyd drwy drafodaethau profi synnwyr gyda rhanddeiliaid allweddol y rhaglen. Er ein bod yn cydnabod na all pob rhanddeiliad gytuno â'r holl argymhellion, eu bwriad yw darparu camau gweithredu a phwyntiau trafod defnyddiol i'w hystyried wrth i'r rhaglen esblygu.

Ffigur 9: Argymhellion

Argymhelliad	Adran(nau) yr adroddiad
Argymhellion ar lefel strategol	
1. Adolygu Theori Newid y rhaglen ar y cyd. Er mwyn gwella gweithrediad ac effaith y WSAHW, dylai'r rhai sy'n gweithio arni ac sy'n gysylltiedig â hi ei thrafod, ei hadolygu a'i hadnewyddu. Dylid ailwerthuso'r Theori Newid ar gyfer y WSAHW ymhellach i sicrhau consensws ar gwmpas a maint y rhaglen a sut mae'n cael ei gweithredu gan y rhai sy'n cyflawni'r gwaith a rhanddeiliaid ehangach y system. Byddai ailystyried y Theori Newid yn elwa ar barhau i gynnwys Llywodraeth Cymru i bontio'r datgysylltiad rhwng gweithredu ar lefel rhanbarth Bwrdd Iechyd a strategaethau cenedlaethol. Byddai hyn nid yn unig yn uno gwaith ar bwysau iach ledled y wlad ond hefyd yn cefnogi arweinwyr y WSA i gael cefnogaeth ehangach. Dylai'r broses hon gael ei hailadrodd o bryd i'w gilydd wrth i'r broses gyflawni barhau, ac wrth i fwy o ddysgu gael ei gynhyrchu.	5.3, 3.4.3, a 4.2.2
2. Ailystyried ac egluro cysylltiadau rhwng y WSAHW a mentrau cysylltiedig eraill. Yn enwedig mewn perthynas â llwybrau pwysau iach a Llunio Lleodd ar gyfer Llesiant yng Nghymru, nid yw hi bob amser wedi bod yn glir sut mae'r WSAHW yn ategu mentrau eraill, a gallai gwell eglurder helpu i gryfhau ymgysylltiad ehangach â rhanddeiliaid. Byddai hyn yn helpu i ddangos yn well y strategaeth genedlaethol gydlynol i fynd i'r afael â phwysau iach a ffactorau cysylltiedig.	5.3 a 4.2.2
3. Adolygu a chryfhau mecanweithiau adborth rhwng Llywodraeth Cymru ac arweinwyr rhanbarthol y WSA. Er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r WSAHW, byddai'n ddefnyddiol i'r WSA fod â gwell dealltwriaeth o'r datblygiadau strategol, deddfwriaethol a pholisi ar lefel genedlaethol sy'n berthnasol i'w gwaith. Gan adlewyrchu hyn, gallai rhanddeiliaid cenedlaethol elwa ar fwy o fewnwelediad i'r heriau a'r cyfleoedd mae arweinwyr y WSA yn dod ar eu traws yn ymarferol, yn enwedig rhai y gellid mynd i'r afael â nhw yn fwy effeithlon ar lefel genedlaethol. Mae lle i wella'r sianeli a'r diwylliant cyfathrebu ymhellach (gan gynnwys rhannu gwybodaeth strategol yn amserol) i bob cyfeiriad, er mwyn cryfhau'r cysylltiad rhwng lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol yng Nghymru.	5.3
4. Ystyried integreiddio ar lefel genedlaethol â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae dylanwadu ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus wedi dod i'r amlwg fel cam allweddol i arweinwyr rhanbarthol y WSA ddatgloi cynnydd gyda'r rhaglen. O ystyried y cysondeb hwn ar draws rhanbarthau a'r diffyg cymharol o ran ysgogiadau ffurfiol i sicrhau ymrwymiad Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, byddai'n ddefnyddiol cael cyfarwyddyd ar lefel genedlaethol i annog Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i gymryd rhan yn y rhaglen.	4.2.2, 4.2.4, 4.3.4, a 5.3
Argymhellion ar lefel rhaglen	

Argymhelliad	Adran(nau) yr adroddiad
5. Adolygu a diweddarau'r model 9 cam. Yn unol â dull systemau addasol, gellid diweddarau'r model a'r canllawiau yn seiliedig ar ddysgu o weithredu hyd yma. Gallai hyn gynnwys yr addasiadau canlynol: ystyried defnyddio camau eraill ar ben y naw cam; egluro'r theori systemau sylfaenol; caniatáu mwy o addasrwydd a hyblygrwydd; ehangu'r dewis o ddulliau ac offer, wrth i dystiolaeth esblygu, gan ychwanegu gwybodaeth am beth sydd wedi gweithio a beth sydd heb weithio a pham; gwahaniaethu rhwng elfennau craidd a dewisol/hyblyg y broses fel offer, allbynnau, camau a chronoleg; cydgrynhoi defnydd a gwerth bwriedig allbynnau (megis naratifau, dadansoddi rhwydweithiau a mapiau system) i helpu arweinwyr y WSA a rhanddeiliaid system i gydnabod eu gwerth a phenderfynu pryd i'w defnyddio.	3.4.3 a 5.4
6. Ailystyried canlyniadau a fframweithiau monitro. Gallai trafodaeth ar lefel genedlaethol egluro disgwyliadau o ran yr hyn sy'n realistig ar gyfer rhaglen mor uchelgeisiol gyda'r adnoddau sydd ar gael a thros ba amserlenni. Fel rhan o'r broses hon, byddai'n ddefnyddiol archwilio manteision a chyfyngiadau defnyddio offer cyflawni a myfyrdodau presennol y WSAHW ar gyfer monitro.	3.5 a 5.3
7. Ymwreiddio swyddogaeth ddysgu'r rhaglen. O ystyried natur gymharol newydd y WSAHW, byddai prosesau dysgu systematig yn ddefnyddiol ar gyfer datblygiad a chynnydd rhaglenni, a'u rhannu yn y dyfodol. Er bod amser myfyrio wedi'i gynnwys yn y rhaglen, gellid ei gryfhau drwy systemeiddio cyfleoedd i ddefnyddio'r dysgu ar gyfer datblygiad pellach a chynnwys mwy o ymchwil. Gallai uchelgais y rhaglen fod â goblygiadau pellgyrhaeddol drwy greu dysgu fel canlyniad ac allbwn, gan gydnabod ystod o safbwyntiau i adeiladu diwylliant o adborth i bob cyfeiriad ac ar bob lefel o'r system.	3.5 a 5.4
8. Cynnwys yr holl randdeiliaid wrth ddatblygu rhaglenni. Mae canfyddiadau'r gwerthusiad hwn yn gyfle i gael trafodaeth ar draws rhaglenni i brofi synnwyr a gweithredu'r argymhellion ar y cyd. Roedd yr holl randdeiliaid, yn enwedig arweinwyr y WSA, wedi ymrwmo i'r dysgu sy'n deillio o'r rhaglen, yn enwedig canfyddiadau'r gwerthusiad. Dylai rhaglen uchelgeisiol ac arloesol addasu i ddysgu sy'n dod i'r amlwg a, lle bo hynny'n briodol, ymgorffori cydgynhyrchu â rhanddeiliaid allweddol. Fel llysgenhadon ar gyfer y rhaglen, gallai profiadau amrywiol arweinwyr rhanbarthol y WSA ledled Cymru gryfhau'r rhaglen a chyfrannu at eu hymdeimlad o gydberchnogaeth ar y gwaith. Mae'r gwerthusiad hwn yn gyfle amserol i gryfhau dulliau dysgu ac addasu'r WSAHW ac i gryfhau'r berthynas rhwng y gwahanol randdeiliaid, gan gynnwys helpu i gyflwyno rhanddeiliaid lleol ehangach fel llysgenhadon ar gyfer y WSA.	3.4.3 a 5.4
Dysgu ychwanegol ar gyfer rhaglenni tebyg yn y dyfodol	
9. Ystyried sut i 'baratoi' systemau lleol i sicrhau cydlyniant gydag ymdrechion newid systemau. Byddai'n ddefnyddiol nodi pa randdeiliaid mae'r rhaglen yn ceisio dylanwadu arnynt a sut i helpu systemau rhanbarthol/lleol i ddeall ac ymgysylltu â'r rhaglen. Mae Argymhelliad 2 uchod yn rhoi rhagor o fanylion ar yr hyn y gallai cysylltiad clir â mentrau eraill ei gynnwys.	4.2.2, 4.2.4, 4.3.4, a 5.3

Argymhelliad	Adran(nau) yr adroddiad
10. Datblygu canllawiau cyflawni manwl ond hyblyg cyn gweithredu rhaglen. Byddai hyn yn cael ei gydgyhyrchu gyda rhanddeiliaid cyflawni allweddol ar y dechrau neu ar ôl cyfnod peilot cychwynnol, i gyflwyno dysgu ar y cyd a chefnogi cydberchnogaeth.	3.4.3

6 Atodiad A: Themâu blaenoriaeth

Mae dewis is-systemau blaenoriaeth wedi bod yn broses ailadroddus sy'n cynnwys ymgysylltu a gwneud penderfyniadau ar y cyd â rhanddeiliaid ehangach y system yn ogystal ag adborth a chefnogaeth gan arweinwyr cenedlaethol y WSA. Mae Ffigur 10 yn crynhoi themâu blaenoriaeth pob rhanbarth Bwrdd Iechyd sy'n llywio datblygiad eu his-systemau dethol.

Ffigur 10: Is-system(au) blaenoriaeth ar gyfer pob rhanbarth Bwrdd Iechyd

Rhanbarth Bwrdd Iechyd	Is-system(au) blaenoriaeth
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan	Blynyddoedd cynnar (0-7 oed), yn benodol mynediad at fwyd iach; bwydo ar y fron a diddyfnu; a gweithgarwch corfforol.
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	Mynediad at fwyd fforddiadwy ac iach; bwyta'n dda a bod yn weithgar mewn gweithleoedd; a bwyta'n dda a bod yn egniol mewn ysgolion.
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	Hysbysebu iachach
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	Plant a phobl ifanc a chymdogaethau a mannau awyr agored, gyda ffocws penodol ar fynediad at fwyd fforddiadwy o ansawdd da mewn trefi a phentrefi, a hamdden a theithio iach
Bwrdd Iechyd Addysgu Powys	Plant a theuluoedd a mynediad at fwyd iach
Byrddau Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a Hywel Dda	Hygyrchedd bwyd, gan gynnwys fforddiadwyedd ac argaeledd bwyd iach

7 Atodiad B: Astudiaethau achos Byrddau Iechyd

Mae'r Atodiad hwn yn cyflwyno un astudiaeth achos ar gyfer pob rhanbarth Bwrdd Iechyd sydd wedi'i chynhyrchu gyda mewnbwn gan arweinydd rhanbarthol y WSA. Dylid eu darllen gydag is-systemau blaenoriaeth priodol rhanbarthau Byrddau Iechyd mewn golwg (gweler yr Atodiad uchod).

7.1 Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan: Astudiaeth achos

7.1.1 Beth sydd wedi'i gyflawni hyd yma

Mae'r maes hwn wedi nodi ffocws clir ar is-system pwysau iach y blynyddoedd cynnar (0–7 oed), gan addasu i heriau a chyfleoedd lleol i adeiladu momentwm o'r gwaelod i fyny.

7.1.2 Cyfraniad y WSAHW

Dechreuodd y tîm drwy fapio pobl, sefydliadau, partneriaethau a strategaethau perthnasol sy'n dylanwadu ar bwysau iach gan ddefnyddio hyn i nodi pa randdeiliaid i ymgysylltu â nhw.¹⁰ Cynhaliwyd gweithdy gyda rhanddeiliaid yn gyntaf i gyflwyno'r WSA ac archwilio meysydd blaenoriaeth posibl.¹¹ Mewn sesiwn ddilynol, dewiswyd y blynyddoedd cynnar fel thema flaenoriaeth i greu is-system flaenoriaeth, a nodwyd ei rhanddeiliaid allweddol cysylltiedig. Yn ystod trydydd gweithdy, aed ati i gulhau'r ffocws i'r canlynol: mynediad at fwyd iach, bwydo ar y fron a diddyfnu, a gweithgarwch corfforol.¹²

Roedd y broses o ddefnyddio meddwl trwy systemau gyda rhanddeiliaid, yn enwedig o ran mapio systemau, yn werthfawr ar gyfer dangos cymhlethdod llwybrau achosol.

“Dangosodd fod yna nodau penodol [...] yn y diagramau dolen achosol hyn sydd â phŵer dirprwyol eithaf uchel. Os byddwch chi'n mynd i'r afael â hyn, bydd yn effeithio ar nifer o bethau eraill yn y diagram dolen achosol hwnnw. Felly dyna sut y gwnaethon ni gyrraedd y ffocws ar y meysydd hyn o fewn gwella mynediad at fwyd iach i blant a'u teuluoedd.”

Mae'r gwaith hwn wedi creu Fframwaith ar gyfer Gweithredu – gyda rhai bylchau gweithredu oherwydd strategaeth sefydliadol a chyfyngiadau newid a chapasiti. Y nod cyntaf yw "Gwella mynediad at fwyd iachach mewn lleoliadau gofal plant" a'r ail yw "Gwella mynediad at fwyd iachach mewn lleoliadau sector cyhoeddus mae

¹⁰ Adroddiad Drafft Terfynol BIPAB (Mawrth 2023)

¹¹ Adroddiad Gweithdy Drafft BIPAB ar y Dull System Gyfan ar gyfer Pwysau Iach (Rhagfyr 2022)

¹² Gweithdy Rhanddeiliaid Blynyddoedd Cynnar BIPAB (Gorffennaf 2023)

teuluoedd a'r blynyddoedd cynnar yn ymweld â nhw". Ynghyd â phapur ar y WSA i Dîm Gweithredol y Bwrdd Iechyd, mae hyn wedi helpu i ymgorffori pwysau iach mewn strategaeth, gwaith cynllunio ac ar draws y tîm iechyd cyhoeddus ehangach, yn enwedig o ran ategu gwaith y tîm Dechrau Gorau mewn Bywyd.

Roedd angen i arweinwyr y WSA gymryd agwedd bragmataidd, amyneddgar at ddatblygu eu gwaith systemau yng Ngwent. Oherwydd blaenoriaethau lleol sy'n cystadlu â'i gilydd mewn iechyd cyhoeddus ac ar lefel Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, nid oedd modd sefydlu strwythur llywodraethu ffurfiol gydag arweinwyr perthnasol y system yn y lle cyntaf. Yn hytrach, bu arweinwyr y WSA yn gweithio ar ymgysylltu â rhanddeiliaid sy'n berthnasol i'w themâu dethol, gan feithrin cysylltiadau ar lefel rheolwyr neu weithwyr rheng flaen lle roedd ymgysylltu â gweithwyr ar lefel uwch yn heriol. Mae'n ymddangos bod y rhwydweithio hwn yn meithrin cysylltiadau ar draws y system a hefyd yn newid cydnabyddiaeth o bwysigrwydd sicrhau ymrwymiad drwy gynhyrchu ymwybyddiaeth a chyd-gysylltiadau.

7.1.3 Goblygiadau i'r Dull System Gyfan

Nodwedd arbennig o Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yw ei fod yn cwmpasu pum awdurdod lleol gwahanol ledled Gwent. Mae gan hyn oblygiadau i sut y gweithredir yr WSA, oherwydd nifer y sefydliadau sy'n cymryd rhan yn y rhaglen, a phob un â'u strwythurau llywodraethu a'u hagendâu gwahanol. Fodd bynnag, mae arweinydd y WSA yn teimlo bod y WSA yn ddefnyddiol fel 'ffordd i mewn' i ystod o bartneriaid drwy ei ddefnyddio fel sbringfwrdd ar gyfer creu gweledigaeth ar gyfer bwyd a'r blynyddoedd cynnar ledled Gwent.

Yn sgil ymgysylltu â rhanddeiliaid yn nes at y pwynt cyflawni, pwysleisiwyd rhai rhwystrau yn y system y gallai'r WSA fynd i'r afael â nhw i helpu i adeiladu momentwm a chodi proffil y dull gweithredu. Mae rhanddeiliaid wedi cydweithio i greu cydweledigaeth a fframwaith ar gyfer gweithredu i ysbrydoli gweithredu ar lawr gwlad.

Er enghraifft, ar ôl nodi negeseuon cymysg i rieni a darparwyr ynghylch gwerth chwarae bwyd synhwyrdd yn natblygiad babanod a blas/derbynioldeb bwyd iach, mae'r WSA wedi canolbwyntio ar wneud canllawiau a pholisi yn fwy clir ac yn fwy cyson mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar. Mae hyn yn unol ag egwyddorion y broses 9 cam gan ei bod yn mynd i'r afael ag un maes gwaith, ac yna'n cylchdroi'n ôl i fynd i'r afael ag un arall, gan adeiladu dros amser.

"Allwch chi ddim â dechrau gyda..."dyma beth rydyn ni'n ei wneud ac rydyn ni'n disgwyl i chi wneud yr un peth". Mae'n ymwneud â meithrin y cysylltiadau hynny a gwrando ar bobl ac yna adeiladu'r ymddiriedaeth yn raddol, ac yna fe allwch chi ddechrau cyflwyno rhai o'r cysyniadau systemau a dechrau meddwl go iawn am sut y gallen ni gynyddu effaith yr hyn rydyn ni'n ei wneud yma."

Mae hyn wedyn wedi ymestyn i drafodaeth gydag awdurdodau lleol ynglŷn â dylanwadu ar y Cynlluniau Datblygu Lleol newydd, gan gynnwys materion fel ceisiadau cynllunio ar gyfer siopau bwyd cyflym, mynediad i fannau gwyrdd,

mannau chwarae anffurfiol neu newidiadau i hyrwyddiadau mannau gwerthu, ac archwilio'r potensial ar gyfer parthau gwahardd cludfwyd poeth.

Mae ffocws ar ddatblygu cysylltiadau â Thimau Cynllunio yn y pum awdurdod lleol gyda'r bwriad o eirioli a chefnogi Canllawiau Cynllunio Atodol yn y dyfodol. Mae naratif y WSA yn darparu cefndir i hyn, gan ei fod yn cynnwys enghreifftiau o sut y gall cynllunio gefnogi pwysau iach megis datblygu llwybrau cerdded a beicio diogel i'r ysgol ac o fewn cymunedau, cyfyngu ar siopau bwyd cyflym newydd lle mae plant ysgol yn cyfarfod a sicrhau ardaloedd chwarae a mannau gwyrdd hygyrch ym mhob cymuned.¹³

7.2 Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr: Astudiaeth achos

7.2.1 Beth sydd wedi'i gyflawni hyd yma

Mae gan y Bwrdd Iechyd rwydwaith o randdeiliaid sydd wedi'i gryfhau'n sylweddol, gyda mwy o bobl yn ymwneud â gwaith ar bwysau iach a chysylltiadau dyfnach rhyngddynt.

7.2.2 Cyfraniad y WSAHW

O ddechrau'r rhaglen WSA, cyflwynwyd ystod eang o ddigwyddiadau ymgysylltu a gweithdai gyda'r bwriad o gryfhau cysylltiadau a chynnwys ystod eang o randdeiliaid.

Mae'r tîm wedi cymryd ymagwedd "pellgyrhaeddol" at ymgysylltu â rhanddeiliaid, er enghraifft, cyflwyno yn y Bwrdd Iechyd ond hefyd ymgysylltu â phartneriaid llai amlwg megis y rhai sy'n gweithio ym maes adfywio economaidd, cynllunio, addysg, yr heddlu a'r gwasanaeth tân. Adlewyrchwyd yr ehangder hwn yn y digwyddiad lansio ar gyfer cynllun cyflawni'r WSA, gyda sawl rhanddeiliad yn myfyrio ar y ffaith na fyddai partneriaid o'r fath wedi dod at ei gilydd o'r blaen i drafod pwysau iach. Mae arweinwyr y WSA bellach yn archwilio effaith hyn drwy ddadansoddi rhwydweithiau a mapio effeithiau tonnog.

Roedd gweithgareddau gyda rhanddeiliaid yn cynnwys hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth o'r WSA, yn ogystal â chamau mwy ffurfiol megis mapio a chytuno ar flaenoriaethau gan ddefnyddio'r Model Graddfeydd Gweithredu. Roedd hyn yn canolbwyntio ar egluro gwaith systemau ac esbonio sut beth yw defnyddio meddwl trwy systemau, o gymharu â syniadau mwy traddodiadol o waith partneriaeth neu wella ansawdd mewn ffordd generig. Disgrifiodd arweinwyr y WSA iddynt fod yn dyst i eiliadau lle byddai'n gwawrio ar gyda rhanddeiliaid fod ganddynt gyfraniad i'w wneud at y 'system' pwysau iach, ar ôl cwestiynu eu cyfranogiad o'r blaen. Mae hyn wedi gweld cynnydd yn nifer yr uwch rhanddeiliaid strategol allweddol sy'n blaenoriaethu cymryd rhan mewn gwaith ar y WSA.

Addasodd arweinwyr y WSA eu dull ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd, weithiau heb ganolbwyntio'n rhy gul ar bwysau iach ond, yn hytrach, ar fframio'r gwaith o

¹³ Naratif Terfynol BIPAB (Hydref 2022)

amgylch gweithgarwch, teithio llesol, cynllunio cymdogaeth, yr hinsawdd bwyd a'r bwyd sydd ar gael ar y stryd fawr. Er mwyn paratoi ar gyfer hyn, aethant ati i ddatblygu papurau briffio ar sut i drafod y gwaith gyda gwahanol randdeiliaid. Neilltuwyd amser hefyd i gwrdd â rhanddeiliaid posibl, gan ddefnyddio terminoleg systemau a rennir gyda nhw a sicrhau eu hymrwymiad.

Gan adeiladu ar y sylfaen hon, mae arweinydd y WSA yn Betsi Cadwaladr wedi rhoi pwyslais ar gynllunio trefol ac wedi datblygu pecynnau Cymorth Cynllunio Gofodol Iechyd y Cyhoedd ar gyfer pob awdurdod lleol i gefnogi ymatebion i geisiadau cynllunio gan y tîm iechyd cyhoeddus.¹⁴ Buont yn myfyrio ar y ffaith bod hyn yn dechrau dod i rym, gyda blaenoriaethau iechyd y cyhoedd yn cael eu hadlewyrchu mewn rhai amodau sy'n gysylltiedig â phenderfyniadau cynllunio. Mae'r cysylltiad hwn rhwng iechyd y cyhoedd a chynllunio bellach wedi dod yn flaenoriaeth genedlaethol.

7.2.3 Goblygiadau i'r Dull System Gyfan

Mae ymdrechion tîm y WSA wedi dod ag ystod eang o sefydliadau at ei gilydd, gyda chysylltiadau cryfach a lleisiau mwy perthnasol, sy'n helpu'r rhaglen waith i adlewyrchu'r cyd-destun lleol yn well. Myfyriodd un arweinydd y WSA: *“Fe wnaethon ni nodi 94 o achosion o bwysau nad yw’n iach yn y Gogledd. Ni fydden ni wedi gwneud hynny os mai dim ond ni oedd. Roedd yn ymwneud â'r partneriaid hynny'n dod at ei gilydd.”*

Nawr mae'r WSA yn elwa ar strwythur llywodraethu cadarn sy'n cynnwys cynrychiolaeth o bob un o'r chwe awdurdod lleol, dwy brifysgol, un cyngor gwirfoddol, Actif Gogledd Cymru a'r Bwrdd Iechyd, gydag is-grwpiau a dirprwyo camau gweithredu'n glir. Rhannwyd y strwythur hwn gyda Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn¹⁵ i helpu i ddangos ehangder yr ymrwymiad ar draws ôl troed y Bwrdd Iechyd¹⁶ ac, mewn ymateb, mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi creu is-grŵp pwysau iach i gefnogi'r gwaith.

7.3 Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro: Astudiaeth achos

7.3.1 Beth sydd wedi'i gyflawni hyd yma?

Mae'r bwrdd lechyd hwn wedi defnyddio dull system gyfan i fynd i'r afael â hysbysebu a marchnata bwydydd nad ydynt yn iach.

7.3.2 Cyfraniad y WSAHW

Mae arweinwyr pwysau iach wedi adeiladu ar hanes hirach o ddefnyddio meddwl trwy systemau yn eu hardal, gan ddefnyddio eu profiad i adeiladu ar agweddau allweddol ar y broses 9 cam. Daeth 'hysbysebu iachach' i'r amlwg fel is-system

¹⁴ Cynllun Cyflawni Strategol wedi'i Adnewyddu 24-26 BIPBC

¹⁵ Un o'r tri Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn y Gogledd.

¹⁶ Papur Strwythur y Dull System Gyfan ar gyfer Pwysau Iach (Mehefin 2024)

flaenoriaeth wrth fapio'r system ac mae'n un o'r 10 blaenoriaeth yn eu cynllun 2020-23.¹⁷

Cynhaliwyd digwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid i ddatblygu dealltwriaeth ac ymrwymiad ac, yn seiliedig ar hynny, sefydlwyd gweithgorau o fewn Cyngor Caerdydd, Bro Morgannwg a Byrddau Iechyd Prifysgol i fwrw iddi i ddatblygu polisi.¹⁸ Cytunodd ystod o bartneriaid i gefnogi ffocws ar hysbysebu iach: awdurdodau lleol, Cyngor Trydydd Sector Caerdydd, Cymunedau Digidol Cymru, Partneriaeth Bwyd Caerdydd, Partneriaeth Bwyd y Fro, Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg a sefydliadau Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.¹⁹ Mae hyn yn dal i fod yn flaenoriaeth drwy'r Fframwaith Bwyd a Symud Da a ddatblygwyd yn fwy diweddar ar gyfer Caerdydd a Bro Morgannwg (2024-2030).

“Rydyn ni wedi cysylltu rhannau o'r cyngor lle roedd hysbysebu'n croestorri, gan ddod â nhw at ei gilydd, deall trefniadau contractiol gydag ardaloedd eraill sy'n gymhleth iawn, mapio asedau hysbysebu, ceisio deall hynny [...] Y ddau awdurdod lleol a'u hysbysebion bysiau yw'r prif asedau.”

Gwnaed y gwaith hwn yng nghyd-destun strategaeth genedlaethol HWHW, sy'n nodi ymrwymiad strategol Llywodraeth Cymru i wahardd hysbysebu/nawdd a hyrwyddo bwydydd sy'n cynnwys llawer o Fraster, Halen a Siwgr (HFSS), cynyddu'r broses o hyrwyddo dewisiadau eraill iachach, a gweithio gyda Llywodraeth y DU i gyfyngu ar hysbysebion ar gyfryngau darlledu/mewn lleoliadau ar-lein.²⁰

Er mwyn dyfnhau eu dealltwriaeth o'r mater a'r llwybrau ar gyfer gweithredu, cynhaliodd arweinwyr y WSA ymchwil dulliau cymysg gyda chefnogaeth NIHR PHIRST i hysbysebu iachach. Roedd gwneud cais llwyddiannus am y cymorth ymchwil hwn yn cael ei ystyried yn gyflawniad allweddol oherwydd y cysylltiadau ag academyddion mewn rhannau eraill o'r DU sy'n datblygu camau gweithredu tebyg.²¹ Archwiliodd y gwaith hwn ganfyddiadau rhanddeiliaid ac effeithiau posibl datblygu polisiâu hysbysebu iachach.²² Tynnodd hefyd ar fapio asedau holl fannau hysbysebu awdurdodau lleol ac i ba raddau yr oedd pob un yn canolbwyntio ar fwydydd HFSS, a gynhaliwyd gan y tîm gyda chydweithwyr Awdurdodau Lleol ac a gefnogwyd gan fyfyrwyr. Casglodd yr ymchwil hefyd farn pobl ifanc ac oedolion sy'n byw yn yr ardal leol, yn ogystal â rhanddeiliaid.

¹⁷ Cynllun Symud Mwy Bwyta'n Dda (Ionawr 2020)

¹⁸ Cynllun Cyflawni WSA Caerdydd a'r Fro 2022-24 (Ebrill 2023)

¹⁹ Cynllun Symud Mwy Bwyta'n Dda (Ionawr 2020)

²⁰ Digwyddiad Hysbysebu Iachach (Tachwedd 2022)

²¹ Monitro Diwedd Blwyddyn Caerdydd a'r Fro 2023-24

²² Briff Ymchwil Hysbysebu Iachach yng Nghaerdydd a'r Fro (ar gael yma: [Adroddiad byr hysbysebu iachach v3](#))

Rhannwyd canfyddiadau gyda Grŵp Llywio'r Strategaeth Fwyd ym mis Chwefror 2023 i helpu i sbarduno'r gwaith o gynllunio camau gweithredu.²³

“Mae'r tîm wedi gweithio gyda ni am 15 mis i gynnal ymgysylltiad cyhoeddus â phobl ifanc a hefyd i ymgysylltu â rhanddeiliaid o ran newid polisi. [...] a cheisio cael safbwyntiau ar yr hyn mae pobl yn ei feddwl am hysbysebu, pa effaith mae hynny'n ei chael ar y dewisiadau y gallen nhw eu gwneud, a hefyd beth mae'r rhanddeiliaid penodol yn teimlo sy'n allweddol i newid polisi. Mae'r gwahanol safbwyntiau yno hefyd.”

7.3.3 Goblygiadau i'r Dull System Gyfan

“Mae'n dechrau dylanwadu ar contractau newydd ym maes iechyd ac mae'r awdurdodau lleol yn ystyried gosod cyfyngiadau HFSS ac edrych ar brosesau tendro ar gyfer rhai o'r contractau hirsefydlog hynny.”

Mae'r maes hwn yn dechrau gweld symudiadau tuag at gyfyngu ar hysbysebion bwydydd HFSS, yn enwedig mewn adeiladau awdurdodau lleol, ac maent yn canolbwyntio ar ddatblygu polisiâu Hysbysebu Iachach ar gyfer y Bwrdd Iechyd Prifysgol a'r ddau gyngor lleol i ddatblygu hyn ymhellach. Mae'r cynnydd hwn wedi deillio'n uniongyrchol o'r gwaith ar y WSA sydd wedi cadw ffocws ar hysbysebu iachach dros sawl blwyddyn ac sy'n ceisio rhoi pwysau ar yr holl ysgogiadau perthnasol i fanteisio'n llawn ar gyfleoedd. Mae arweinwyr y WSA yn gobeithio y gallant barhau i gyflawni newidiadau cynyddol wrth i'w llywodraethu a'u hymrwymiad lleol gryfhau ymhellach.

“Mae gennym grŵp arweinyddiaeth a galluogi newid newydd ar gyfer Caerdydd gydag arweinwyr, a fydd yn bwydo'n uniongyrchol i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae'r ffocws yn ymwneud â dadflocio heriau sy'n systemig.”

Mae'r rhwystrau hyn yn cynnwys yr heriau a gyflwynir gan bartneriaid masnachol a phryderon am fygythiad i refferniw Awdurdodau Lleol a nodir mewn dogfennau monitro.²⁴

“Rwy'n gweld y penderfynyddion masnachol yn her wirioneddol ar gyfer y dyfodol. Sut ydyn ni fel cenedl yn mynd i'r afael â'r math hwnnw o wrthwynebiad gan ddiwydiant sy'n debygol o ddod i'n rhan? Rwy'n credu bod angen i hynny ddigwydd ar bob lefel, nid yn unig yn lleol, nid yn unig yn genedlaethol, ond ar draws y sbectrwm cyfan.”

²³ Grŵp Llywio Strategaeth Fwyd Hysbysebu Iachach (Chwefror 2023)

²⁴ Monitro Diwedd Blwyddyn Caerdydd a'r Fro 2023-24 (Mai 2024)

Mae'r gwaith hwn wedi darparu dysgu gwerthfawr nid yn unig yn lleol ond hefyd yn ei botensial i gael ei rannu drwy rwydwaith y WSA gyda byrddau iechyd eraill, ac yna i gyfrannu at drafodaeth genedlaethol.

“Mae'r cysylltiad â'r gwaith systemau a'r proffil a roddir i'r gwaith systemau yn genedlaethol, wedi bod yn gadarnhaol iawn... Roedden ni'n rhan o weithdai'r cynllun cyflawni a'r cyfleoedd a roddir i ni wedyn i nodi bod angen i ni fynd i'r afael â rhywfaint o hyn, oherwydd mae angen i chi greu'r newid hwnnw, ar lefel system ehangach i alluogi rhywfaint o hyn i ddigwydd yn lleol.”

7.4 Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg: Astudiaeth achos

7.4.1 Beth sydd wedi'i gyflawni hyd yma

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi derbyn ymrwymiad gan ystod eang o randdeiliaid sy'n gysylltiedig â rhannau o'r system sy'n dylanwadu ar iechyd a llesiant trigolion.

7.4.2 Cyfraniad y WSAHW

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg wedi pwysleisio pwysigrwydd ymgynghori â'r gymuned i ddeall safbwyntiau trigolion, gan ganolbwyntio ar faterion sy'n effeithio ar iechyd yn gyffredinol yn hytrach na chyfyngu'r sgwrs yn benodol i bwysau iach. Daeth llais y gymuned i'r amlwg fel blaenoriaeth allweddol i randdeiliaid strategol yn ystod ymgynghoriad cynnar gan arweinwyr y WSA, a fyddai'n eu helpu i ymrwymo i'r WSA.

Casglwyd mewnwelediad cymunedol drwy rwydwaith o weithwyr iechyd cyhoeddus proffesiynol a ddefnyddiodd ddull ymchwilio gwerthfawrogl, gan ganolbwyntio ar ddeall barn a phrofiadau trigolion, gan wneud y system yn fwy gweladwy i randdeiliaid.²⁵ Roedd y sgysiau'n defnyddio cwestiynau trafod o'r is-system flaenoriaeth ar gyfer yr ardal, gan gynnwys teithio llesol, yr amgylchedd bwyd a mannau cymunedol.

“Ychwanegu'r stori honno am sut brofiad yw byw ym Merthyr Tudful, sut brofiad yw byw yn Nhreherbert, yn Rhondda. [...] Mwy na dim ond dweud wrth bobl i fwyta'n well a gwneud mwy o ymarfer corff, mae'n ymwneud â ph'un a ydyn nhw'n gallu ei wneud e ai peidio.”

Yna aed ati i gynnwys eu canfyddiadau yn y WSA. Tynnodd ymgynghoriad cymunedol sylw at y cysylltiadau pwysig rhwng pwysau'r corff ac agweddau eraill ar iechyd, megis taflu sbwriel, camddefnyddio sylweddau, maeth, incwm gwario a ffactorau mwy strwythurol fel trafndiaeth, tai ac addysg.

“Fe wnaethon ni ddefnyddio'r straeon hynny i greu ein dolenni achosol, maen nhw'n ffordd o ddelweddu'r stori rydyn ni wedi bod yn ei chlywed gan y gymuned.”

²⁵ Ffurflen Chwarterol CTM 2024-25

Gan adeiladu ar hyn a manteisio ar gyfleoedd i gydweithio â'r Gynghrair Tai Iach, mae'r WSA wedi ymgysylltu â phartneriaid sydd â rôl ymhellach 'i fyny'r afon' o ran dylanwadu ar ffactorau sy'n effeithio ar bwysau iach, yn enwedig rheolwyr tai. Nod y dull yw mynd y tu hwnt i faterion agosrwydd sy'n dylanwadu ar ddeiet ac iechyd drwy ymchwilio i ffactorau sylfaenol fel y defnydd o gyffuriau, lefelau uchel o dlodi ac allgáu cymdeithasol. Mae'r mathau hyn o ffactorau amgylcheddol yn gwneud teuluoedd yn fwy ofnus i ddefnyddio asedau cymunedol fel ardaloedd chwarae a mannau gwyrdd a all gael effaith ar lefelau gweithgarwch.

Fel rhan o'r broses, ymrwymodd tri landlord cymdeithasol i gymryd agwedd systemau at y materion y maent yn mynd i'r afael â nhw gyda'u tenantiaid i 'newid y berthynas rhwng y gymdeithas dai a'r gymuned leol'. Roedd yn cynnwys hyfforddiant i swyddfeydd tai ar ymchwilio gwerthfawrogol a meddwl trwy systemau gyda'r rhain wedyn yn cael eu rhoi ar waith gyda'u cymunedau, gan gefnogi mentrau fel gerddi cymunedol, casglu sbwriel ac eirioli dros well gwasanaeth trafndiaeth gyhoeddus.

7.4.3 Goblygiadau i'r Dull System Gyfan

Mae ymgynghori â'r gymuned, ochr yn ochr â pharhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid strategol, wedi helpu i sicrhau ymrwymiad partneriaid allweddol a chanolbwyntio eu sylw ar effaith ffactorau amgylcheddol ar bwysau iach. Mae rhanddeiliaid yn dweud eu bod yn gweld mwy o iaith gadarnhaol ynghylch pwysau iach (a chydabyddiaeth o'r system sy'n dylanwadu arno) ac maent yn falch ei fod bellach yn bwydo i mewn i strwythurau a strategaethau, er enghraifft: crybwyll pwysau iach fel blaenoriaeth i gyngor Rhondda Cynon Taf; gwneud cynnydd tuag at strwythur sy'n bwydo i mewn i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg; a bwydo i mewn i ddatblygu Strategaeth Fwyd ar gyfer Rhondda Cynon Taf.

"Mae wedi codi proffil pwysau iach, [...] pwysigrwydd gweithio gyda'n gilydd i wella'r amgylchedd."

7.5 Bwrdd Iechyd Addysgu Powys: Astudiaeth achos

7.5.1 Beth sydd wedi'i gyflawni hyd yma?

Mae pwysau iach bellach wedi'i nodi fel blaenoriaeth yng Nghynllun Iechyd a Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Powys.²⁶

7.5.2 Cyfraniad y WSAHW

O ddyddiau cynnar y broses 9 gam, canolbwyntiodd arweinwyr y WSA ar weithio tuag at ymrwymiad strategol a chymeradwyaeth gan naill ai'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) neu'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh). Nodwyd mai'r BGC oedd y mwyaf addas – gyda'r ffaith bod un BGC ar gyfer ôl

²⁶ <https://en.powys.gov.uk/article/5789/The-Powys-Well-being-Plan>

troed Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn help gyda hyn. Roedd y BGC hefyd yn y broses o ddiweddarau Cynllun Llesiant Powys.

Felly, canolbwyntiodd yr arweinwyr ar adeiladu dealltwriaeth y BGC o'r rhaglen ac alinio â'u nodau. Fodd bynnag, ni wnaeth y bleidlais gychwynnol gan y BGC flaenoriaethu pwysau iach, gan gyflwyno her sylweddol i dîm y WSA. Aeth tîm y WSA i'r afael â hyn, gan roi cyflwyniad nid yn unig ar bwysigrwydd mynd i'r afael â phwysau iach i iechyd y cyhoedd, ond hefyd ar y dull 9 cam arfaethedig i fynd i'r afael â phwysau iach fel mater systemau.

Roedd arweinwyr y WSA hefyd yn cynnwys y BGC yn y broses aml-randdeiliad o gwmpasu'r WSA, a oedd yn cynnwys mapio rhanddeiliaid a nodi is-systemau blaenoriaeth. Roedd hyn yn golygu bod y BGC wedi 'ymrwymo' i'r WSA a bod eu blaenoriaethau'n cael eu hadlewyrchu erbyn i'r is-system ffocws gael ei nodi: Plant, Teuluoedd a Mynediad at Fwyd Iach.

Un ffactor allweddol oedd data a nodwyd wrth fapio, a ddangosodd fod cyfraddau gordewdra ymhlith plant ym Mhowys yn uchel ond nad oedd y data hwn wedi'i gynnwys mewn cynlluniau a strategaethau i raddau helaeth. Rhanddeiliaid allweddol eraill yn y broses fapio oedd y BPRh (gan gynnwys y pedwar grŵp partneriaeth sy'n adrodd iddo: Dechrau Da, Byw'n Dda, Heneiddio'n Dda ac Iechyd Meddwl), prosiect Llesiant awdurdodau lleol Gogledd Powys, a Chanolfannau Gwirfoddol ymbarél.

Ar y cam hwn, ceisiodd arweinwyr y WSA ffurfioli ymrwymiad y BGC drwy gynnig y dylai fabwysiadu'r WSA fel blaenoriaeth a *"provide the strategic leadership across public services in Powys that this work will require if it is to be successful"*.²⁷ Tynnodd y cynnig sylw at y ffaith bod gan y WSA, *"alongside wider local work on implementation of HWWH ...considerable scope for synergy with other proposed PSB priorities"*.

Cymeradwywyd hyn, a chafodd 'Dull System Gyfan ar gyfer Pwysau Iach' ei gynnwys fel un o'r tri cham i gyflawni'r amcanion a nodwyd yng Nghynllun Llesiant Powys. Gwnaed y broses o gyflawni'r WSAHW yn y rhanbarth yn atebol i'r BGC, y mae arweinwyr y WSA bellach yn adrodd cynnydd iddo ym mhob cyfarfod chwarterol o'r BGC ac yn cyfrannu at adroddiad diwedd blwyddyn y BGC.

7.5.3 Goblygiadau i'r Dull System Gyfan

Mae ymrwymiad y BGC - yn enwedig fel y mae wedi'i ffurfioli yn strategaeth y Bwrdd Iechyd - wedi datblygu'n ysgogiad allweddol ar gyfer gwaith y WSA ar draws llawer o ranbarthau'r Bwrdd Iechyd. Drwy gyflwyno pwysau iach i'r strategaethau BGC, mae'n codi'r gwaith i fyny'r system i lefel nodau'r system. Ym Mhowys, priodolodd uwch randdeiliad ei lwyddiant yn uniongyrchol i ddull y WSA:

"A fyddai wedi digwydd [heb y Dull System Gyfan]? Na... ei roi ar agenda'r BGC ac yna alinio'r dull systemau... mae'n rhoi'r flaenoriaeth

²⁷ Cynnig Pwysau Iach y BGC (Medi 2023)

strategol ychwanegol honno... rwy'n gefnogwr brwd o'r holl waith systemau."

I Bowys, efallai bod hyn wedi helpu i sbarduno ymgysylltiad â chynllunio gweithredu a chyflawni ynghylch bwydo ar y fron, er enghraifft, gyda Phrif Swyddog Gweithredol yr awdurdod lleol yn ymrwymo i gefnogi bwydo ar y fron o fewn adeiladau Awdurdod Lleol *"yn dilyn trafodaethau yn y BGC a thrafodaethau dilynol rhwng Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd a Dirprwy Gyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, Prif Swyddog Gweithredol yr ALI ac uwch arweinwyr."*

Yn fwy cyffredinol, mae rhanddeiliaid yn sylwi ar iaith a chyd-ddealltwriaeth o feddwl trwy systemau ymhlith rhanddeiliaid allweddol, er enghraifft, trafod dolenni adborth. Mae hyn yn dangos bod ystod ehangach o randdeiliaid yn defnyddio mwy o feddwl trwy systemau, er enghraifft, i ystyried sut mae cysylltiadau rhwng rhannau o'r system yn arwain at lwyddiant y system gyfan.

7.6 Byrddau Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a Hywel Dda: Astudiaeth achos

7.6.1 Beth sydd wedi'i gyflawni hyd yma?

Mae'r Bwrdd Iechyd hwn wedi alinio pedwar o bum BGC ar draws rhanbarth eang, gydag ymrwymiad i ddulliau systemau ar gyfer pwysau iach ac, yn fwy diweddar, mynediad at fwyd.

7.6.2 Cyfraniad y WSAHW

Mae Bae Abertawe a Hywel Dda yn ddau ranbarth bwrdd Iechyd sydd wedi dod at ei gilydd i gyflawni WSA ar draws eu hól troed. Fel y cyfryw, maent yn cwmpasu pum BGC ac wedi canolbwyntio ar gyflwyno ac alinio'r BGCau hyn i nodau dull system gyfan. Oherwydd heriau recriwtio, dim ond ym mis Ebrill 2024 y cafodd tîm y WSA ei recriwtio'n llawn, tua 18 mis yn ddiweddarach na rhannau eraill o Gymru. Maent wedi defnyddio dysgu o ranbarthau eraill sydd ymhellach ar hyd y llwybr i ddeall pwysigrwydd ymrwymiad BGC.

Maent wedi cael llwyddiant arbennig gyda digwyddiadau ymgysylltu rhyngweithiol a chyfranogol sy'n cynnwys elfennau o fapio systemau a datblygu naratifau system. Maent wedi gorfod addasu eu dull a gweithio'n ailadroddus i adeiladu ymgysylltiad yn gyntaf fel rhan o broses sefydlu ac ymrwymiad ac yna dod â rhanddeiliaid amrywiol at ei gilydd o amgylch nod cyffredinol neu gyd-gyfeiriad cyffredinol.

Comisiynwyd rownd o bum gweithdy mapio systemau gyda gwaith hwyluso allanol ar gyfer y rhanbarth cyn sefydlu'r tîm.²⁸ Roedd cyfranogwyr yn cynnwys partneriaid Iechyd, awdurdodau lleol, prifysgolion a'r trydydd sector. Arweiniodd y gweithdai hyn at gynhyrchu dau fap rhanbarthol ar ffactorau achosol cyffredinol - un yn canolbwyntio ar fwyd a'r llall ar weithgarwch corfforol.

²⁸ Gweler adroddiadau Cam 1 Hywel Dda a Bae Abertawe (Medi 2023)

Ar ôl sefydlu'r tîm llawn ym mis Ebrill 2024, cafodd y mapiau hynny eu mireinio ymhellach a rhannwyd yr wyth thema ynddynt gyda BGCau drwy ail rownd o bum gweithdy. Y nod oedd cyfyngu'r ffocws i is-system y mae modd ei rheoli a'i rhwymo. Helpodd yr hwyluswyr y rhai a oedd yn bresennol i ystyried y canlynol:

- Tystiolaeth ehangach o'r hyn sydd wedi gweithio'n dda mewn mannau eraill fel rhan o'r WSAHW mewn rhanbarthau eraill a oedd ymhellach ar hyd y llwybr.
- Pa faterion mae'r BGC yn y sefyllfa orau i ddylanwadu arnynt.
- Beth yw'r ymrwymiad cymharol gan BGCau ar wahanol faterion.
- Pa ddarnau o waith oedd eisoes ar y gweill yn ehangach y gallai'r BGCau ymhelaethu arnynt neu wneud rhywbeth gwahanol mewn perthynas â nhw (er enghraifft, o ran gweithgarwch corfforol, gan nodi Partneriaeth Chwaraeon Gorllewin Cymru newydd).

Fe wnaethant ysgrifennu yn adroddiad monitro'r WSAHW: "Whilst the primary aim of the workshop was to agree a sub-system, the participative event also used the 'three horizons' systems thinking tool, specifically aimed at starting to develop a vision of a healthy weight environment across our area for 2050, supporting the development of a shared system narrative. The largest part of the 90-minute sessions was then spent considering the eight sub-systems, where the PSB had the greatest influence, and where working together could make the biggest difference."²⁹

Er mwyn ceisio sicrhau llwyddiant y gweithdai, mae arweinwyr y WSA (1) wedi ymchwilio i flaenoriaethau pob BGC yn eu cynlluniau llesiant i nodi cyfleoedd, megis unrhyw sôn am bwysau, bwyd neu'r amgylchedd ac, yn fwy eang, teithio llesol a newid hinsawdd, gan gydnabod safbwyntiau amrywiol rhanddeiliaid, a (2) wedi 'paratoi' rhanddeiliaid ymlaen llaw drwy lawer o gyfarfodydd un-i-un, i roi gwybodaeth am feddwl trwy systemau ac i helpu i adeiladu ymrwymiad i'r broses, a (3) wedi gwneud y broses ymgysylltu'n hawdd drwy fynd i gyfarfodydd a mannau BGC yn hytrach na sefydlu unrhyw beth allanol.

"Mae'n bwysig ein bod ni'n mynd ar eu cyflymder nhw a'u cyfarfodydd nhw, fel arall ni fyddai gennym y niferoedd na'r amrywiaeth o bobl o amgylch y bwrdd. Pe baem yn cynnal gweithdy ar wahân, byddai gennym ni un neu ddau o gynrychiolwyr o bob BGC, ond o fod yn eu cyfarfodydd, ar y cyfan, roedd pawb yno. Mae wedi helpu i ymwreiddio hyn - maen nhw'n disgwyl i chi fod ym mhob cyfarfod."

Roedd y broses hon yn addasol ac yn ailadroddus, gan adlewyrchu'r ffaith bod pob ardal yn dod i'r WSA ar wahanol fannau cychwyn.

"Ar y dechrau, roedd e fel 'dydy hyn ddim byd i'w wneud â'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus'. Mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yma i wneud y pethau strategol mawr o ran

²⁹ Adroddiad Gweithdy'r WSA Hydref 2024

mewnfuddsoddiad, yr economi, pethau yn ymwneud â'r amgylchedd, newid hinsawdd. [...] Roedd angen llawer o esboniad, ac mae hyn yn eich helpu chi i gyflawni llawer o'r amcanion o ran Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol [...] a bydd y pethau hyn yn eich helpu chi hefyd o ran eich cynllun corfforaethol."

Roedd yr arweinwyr yn teimlo ei bod yn allweddol fframio'r gwaith yn wahanol ar gyfer gwahanol BGCau, gan gamu'n ôl ar adegau o'r geiriad 'pwysau iach' lle nad oedd hyn yn taro tant. Er enghraifft, mewn rhai achosion maent wedi fframio'r gwaith o amgylch yr egwyddorion system gyfan sy'n cael eu defnyddio yn y prosiect penderfynyddion iechyd ehangach (Llunio Lleoedd ar gyfer Llesiant yng Nghymru) i ymhelaethu'n well ar ddulliau ei gilydd ar draws y ddwy raglen hyn, ac yna i symud wedyn tuag at faterion sy'n ymwneud â phwysau iach a thu hwnt, megis mynediad at fwyd.

Ar gyfer y BGCau, roedd yr arweinwyr o'r farn fod bod â fframwaith pendant a chanllawiau allanol ar sut i gyflawni rhai o'u hamcanion, ar ffurf y WSA, yn cael ei werthfawrogi ac yn helpu gydag ymrwymiad.

7.6.3 Goblygiadau i'r Dull System Gyfan

"Y canlyniad neu'r effaith fwyaf i ni yw ein bod wedi llwyddo i gymryd y pum Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus hynny sy'n endidau gwahanol iawn mewn gwirionedd a'u cael i bwynt i gytuno ar un flaenoriaeth ranbarthol yn hyn o beth, sef mynediad at fwyd. Ac mae hynny wedi digwydd dros y chwe mis diwethaf."

Drwy fynd ar drywydd perchnogaeth BGC, mae Byrddau Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a Hywel Dda wedi cael llwyddiant o ran dangos i'r BGCau (a rhanddeiliaid amrywiol fel y gwasanaeth tân neu'r heddlu) sut y mae ganddynt gyfraniad i'w wneud o ran gwaith ar bwysau iach a sut y gall dull systemau eu helpu i gyflawni eu hamcanion.

Mae arweinwyr y WSA bellach yn gweithio ar ffurfioli ymrwymiad y BGCau a chytuno ar weledigaeth a nodau a rennir, drwy gyflwyno'r WSA i gynlluniau cyflawni BGCau, symud ymlaen i fapio dolenni achosol ochr yn ochr â rhanddeiliaid BGCau ac, mewn mannau, ymuno â'r rhaglen Llunio Lleoedd ar gyfer Llesiant yng Nghymru i ddatblygu dull ar y cyd o ymgysylltu â BGCau er mwyn osgoi dyblygu neu ddryswch i rhanddeiliaid.³⁰

Ochr yn ochr â'r ymgysylltiad lefel strategol hwn, maent wedi dechrau ceisio mewnbwn cymunedol a nodi Prosiect Dewi³¹ yng Ngheredigion (prosiect tair blynedd sy'n canolbwyntio ar gydgyhyrchu BGCau sy'n rhan o'r rhwydwaith cydgynhyrchu ar gyfer Cymru) a dechrau mapio asedau gyda'r gymuned yn Llanbedr Pont Steffan ac Aberteifi.

³⁰ Cynllun Cyflawni WSA Byrddau Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a Hywel Dda 2024-25 (Medi 2024)

³¹ <https://copronet.wales/what-we-do/project-dewi/>

8 Atodiad C: Rhanddeiliaid yr ymgynghorwyd â nhw

Ymgynghorodd y tîm gwerthuso â rhanddeiliaid ar lefel ranbarthol a cenedlaethol. Yn ranbarthol, roedd hyn yn cynnwys arweinwyr y WSA ac aelodau eu tîm sy'n ymwneud â chefnogi neu oruchwylio'r WSAHW, gan gynnwys ymgynghorwyr a Chyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd. Yn genedlaethol, roedd hyn yn cynnwys rhanddeiliaid allweddol y rhaglen yn Iechyd Cyhoeddus Cymru sy'n ymwneud â dylunio, rheoli a chefnogi'r rhaglen fel arweinwyr cenedlaethol y WSA, cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru a rhanddeiliaid ehangach gyda mewnwleddiad i'r rhaglen o safbwynt academiaidd yn ogystal ag ymarfer yng Nghymru.

Yna gwnaethom ymgynghori ag arweinwyr ranbarthol y WSA a'u cydweithwyr sy'n ymwneud â chefnogi eu gwaith (cyfuniad o aelodau'r tîm ac ymgynghorwyr) i brofi synnwyr canfyddiadau allweddol ac astudiaethau achos pob un o ranbarthau'r Byrddau Iechyd. Gwnaethom hefyd wirio synnwyr a datblygu canfyddiadau allweddol gydag arweinwyr cenedlaethol y WSA yn Iechyd Cyhoeddus Cymru.

9 Atodiad D: Dogfennau a adolygwyd

Aethom ati i gynnal adolygiad cyflym o ddogfennau cenedlaethol a lefel Bwrdd Iechyd ar ddechrau'r gwerthusiad. Yn ogystal â helpu i lywio'r cynllun gwerthuso, darparodd y gwerthusiad hwn ddata a gafodd ei driongli ochr yn ochr â thystiolaeth arall a gafwyd yn sgil ymgynghori â rhanddeiliaid. Nodwyd dogfennau perthnasol ychwanegol gennym ac aethom ati i'w hymgorffori yn ein canfyddiadau yn ystod gwaith maes.

Ffigur 11: Mathau o ddogfennau a adolygwyd

Dogfennau lefel genedlaethol a adolygwyd	Dogfennau lefel Bwrdd Iechyd a adolygwyd
- Trosolwg o'r rhaglen, gan gynnwys rhesymeg, dyluniad, model a theori newid - Gweledigaeth strategol ar gyfer y WSAHW - Canllawiau rhaglenni, gan gynnwys canllawiau'r broses 9 cam lefel uchel a chanllawiau cam wrth gam manylach ar gyfer camau 1-7 - Matrics Aeddfedrwydd System - Llinell amser o ddatblygiadau allweddol, gan gynnwys pwyntiau cyswllt â sefydliadau neu fentrau ar lefel genedlaethol	- Themâu ac is-systemau blaenoriaeth - Monitro data, gan gynnwys sampl o ffurflenni monitro misol a'r adroddiad diwedd blwyddyn diweddaraf - Naratifau system lle bo'r rheini ar gael - Dogfennaeth arall a ddefnyddir ar gyfer cyflawni a myfyrio megis cynlluniau, mapiau system, mapiau effaith donnog, amserlenni, llywodraethu ac allbynnau ar gyfer partneriaid system ehangach megis papurau neu gyflwyniadau i randdeiliaid ar lefel weithredol - Myfyrdodau, crynodebau dysgu a chyflwyniadau sy'n crynhoi cynnydd a chanfyddiadau'r WSAHW lle bo'r rheini ar gael



CordisBright Limited

23/24 Smithfield Street, London EC1A 9LF

Telephone	020 7330 9170
Email	info@cordisbright.co.uk
Internet	www.cordisbright.co.uk